




Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 41/2026

Dyddiad cyhoeddi: 19/03/2026

Gwerthusiad o'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy



This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-107-4

Gwerthusiad o'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy

Awduron: Yiyang Cao, Michael Burd, Joshua Chapman ac Andrew Moxey

ADAS a Pareto Consulting



Adroddiad Ymchwil Llawn: Cao, Y; Burd M; Chapman J; Moxey A. (2025).
Gwerthusiad o'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy. Caerdydd: Llywodraeth
Cymru, adroddiad o Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 41/2026.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad hwn ar dudalennau Ystadegau ac ymchwil
gwefan Llywodraeth Cymru: <https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil>

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o
reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Gwerthuso.ymchwil@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	6
Rhestr o ffigurau	7
Rhestr o dermau	8
1. Cyflwyniad.....	9
1.1. Cefndir.....	9
1.2. Nodau ac Amcanion	13
1.3. Strwythur y Gwerthusiad a'r Adroddiad	14
2. Methodoleg	15
2.1. Cyfweiliadau cwmpasu.....	15
2.2. Adolygiad desg	16
2.3. Arolwg ar-lein yr ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus	17
2.4. Cyfweiliadau manwl gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus ac astudiaethau achos (Ffenestri 1–3).....	20
2.5. Grwpiau ffocws a chyfweiliadau – ymgeiswyr llwyddiannus (Ffenestri 4–7).....	21
3. Fframwaith theori newid (ThN) a gwerthuso.....	22
3.1. ThN ar gyfer Ffenestri 1–3.....	23
3.1.1. Cyd-destun cymorth y cynllun.....	23
3.1.2. Rhesymeg dros ymyrryd.....	24
3.1.3. Llwybrau effaith	24
3.2. ThN ar gyfer Ffenestri 4–7.....	27
3.2.1. Cyd-destun cymorth y cynllun.....	27
3.2.2. Rhesymeg dros ymyrryd.....	28
3.3. Rhagdybiaethau a Dibyniaethau Theorïau Newid	31
3.4. Cwestiynau gwerthuso.....	32
3.5. Y fframwaith cyffredinol	32
4. Arolwg ar-lein o ymgeiswyr y GCC.....	36
4.1. Trosolwg	36
4.2. Proffil Ymatebwyr yr Arolwg.....	37
4.2.1. Nifer yr Ymatebwyr	37
4.2.2. Trosiant blynyddol	38
4.2.3. Nifer y staff	39
4.3. Ymgeisio am y grant.....	40

4.3.1.	Sut y daeth pobl yn ymwybodol o'r grant?	40
4.3.2.	Cymorth a gafwyd a chost/amser gwneud ceisiadau.....	41
4.4.	Profiad yr ymgeiswyr aflwyddiannus o'r grant.....	42
4.4.1.	Y defnydd arfaethedig o'r GCC.....	42
4.4.2.	Rheswm dros beidio â pharhau â'u prosiectau.....	43
4.5.	Profiad ymgeiswyr llwyddiannus o hawlio'r grant.....	44
4.5.1.	Pwy hawliodd y cymorth grant?	44
4.6.	Effaith y grant neu'r buddsoddiad	46
4.6.1.	Effeithiau ar swyddi a busnesau	46
4.6.2.	Newidiadau i'r busnes o ganlyniad i'r grant/buddsoddiad	47
4.6.3.	Effaith ar fusnesau lleol	49
4.7.	Effaith y grant ar yr ymgeiswyr llwyddiannus	50
4.8.	Ychwanegedd y grant.....	53
4.8.1.	Rhesymau dros fwrw ymlaen heb y GCC.....	54
4.8.2.	Canlyniadau posibl o'u cymharu â'r canlyniadau o beidio â chael y GCC	55
4.8.3.	Ffactorau allanol a ddylanwadodd	56
4.9.	Rhagolygon y busnes	57
4.9.1.	Cynlluniau am y dyfodol	57
4.10.	Ffactorau Allanol	58
5.	Astudiaethau achos o gyfweiliadau (Ffenestri 1–3).....	59
5.1.	Trosolwg	59
5.2.	Ffermwr 1 – Menter Llaeth.....	61
5.2.1.	Y cefndir a'r broses ymgeisio.....	61
5.2.2.	Cynllun Busnes.....	61
5.2.3.	Effaith y grant	62
5.2.4.	Ychwanegedd a gwelliannau	62
5.3.	Ffermwr 2 – Menter Bîff a Defaid.....	63
5.3.1.	Y cefndir a'r broses ymgeisio.....	63
5.3.2.	Cynllun Busnes.....	63
5.3.3.	Effaith y grant	64
5.3.4.	Ychwanegedd a gwelliannau	64
5.4.	Ffermwr 3 – Menter Llaeth Organig.....	65
5.4.1.	Y cefndir a'r broses ymgeisio.....	65
5.4.2.	Cynllun Busnes.....	65

5.4.3.	Effaith y grant	65
5.4.4.	Ychwanegedd a gwelliannau	66
5.5.	Ffermwr 4 – Menter Ddofednod	67
5.5.1.	Y cefndir a'r broses ymgeisio.....	67
5.5.2.	Cynllun Busnes.....	67
5.5.3.	Effaith y grant	68
5.5.4.	Ychwanegedd a gwelliannau	68
5.6.	Ffermwr 5 – Menter Gymysg	69
5.6.1.	Y cefndir a'r broses ymgeisio.....	69
5.6.2.	Cynllun Busnes.....	69
5.6.3.	Effaith y grant	70
5.6.4.	Ychwanegedd a gwelliannau	70
5.7.	Ffermwr 6 – Menter Bîff a Defaid.....	71
5.7.1.	Y cefndir a'r broses ymgeisio.....	71
5.7.2.	Cynllun Busnes.....	71
5.7.3.	Effaith y grant	72
5.7.4.	Ychwanegedd a gwelliannau	72
5.8.	Ffermwr 7 – Menter Laeth	73
5.8.1.	Y cefndir a'r broses ymgeisio.....	73
5.8.2.	Cynllun Busnes.....	73
5.8.3.	Effaith y grant	74
5.8.4.	Ychwanegedd a gwelliannau	74
5.9.	Ffermwr 8 – Menter Bîff a Defaid.....	75
5.9.1.	Y cefndir a'r broses ymgeisio.....	75
5.9.2.	Cynllun Busnes.....	75
5.9.3.	Effaith y grant	76
5.9.4.	Ychwanegedd a gwelliannau	76
5.10.	Ffermwr 9 – Menter Ddefaid (Ŵyn).....	77
5.10.1.	Y cefndir a'r broses ymgeisio	77
5.10.2.	Cynllun Busnes	77
5.10.3.	Effaith y grant.....	78
5.10.4.	Ychwanegedd a gwelliannau	78
5.11.	Ffermwr 10 – Menter Gymysg.....	79
5.11.1.	Y cefndir a'r broses ymgeisio	79

5.11.2.	Cynllun Busnes	79
5.11.3.	Effaith y grant.....	79
5.11.4.	Ychwanegedd a gwelliannau	80
6.	Canfyddiadau Grwpiau Ffocws a Chyfweliadau (Ffenestri 4-7).....	81
6.1.	Trosolwg	81
6.2.	Prif ganfyddiadau ar gyfer y broses ymgeisio a hawlio	82
6.2.1.	Costau	82
6.2.2.	Cymhlethdod a straen	82
6.2.3.	Amser	83
6.2.4.	Cael Dyfynbrisiau	83
6.2.5.	Defnyddio'r Cynllun Busnes	84
6.2.6.	Ymgysylltu â Cyswllt Ffermio.....	84
6.3.	Effaith y Grant.....	85
6.3.1.	Cyflawni amcanion	85
6.3.2.	Effeithlonrwydd a gwydnwch	85
6.3.3.	Buddion amgylcheddol	86
6.3.4.	Yr economi leol.....	86
6.4.	Ffactorau a Heriau Allanol	87
6.4.1.	Newidiadau mewn costau.....	87
6.4.2.	COVID-19.....	87
6.4.3.	Rheoliadau ac awdurdodau cynllunio	88
6.4.4.	Ychwanegedd.....	88
6.4.5.	Costau	89
6.4.6.	Symrlrwydd a chymorth pellach	90
7.	Trafodaeth.....	91
7.1.	Effeithiolrwydd y Rheolaeth o'r GCC	91
7.1.1.	Cyfathrebu.....	91
7.1.2.	Y broses ymgeisio a hawlio	91
7.1.3.	Argaeledd cymorth	92
7.1.4.	Datblygu cynllun busnes.....	92
7.2.	Effaith y GCC.....	93
7.2.1.	Cyflawniadau yn erbyn amcanion y GCC	93
7.2.2.	Effeithiau amgylcheddol ac economaidd	93
7.2.3.	Ychwanegedd.....	94

8.	Casgliad ac Argymhellion.....	95
8.1.	Effeithiolrwydd y Rheolaeth o'r GCC	95
8.2.	Effeithiolrwydd Proses y GCC	95
8.3.	Effaith y GCC.....	97
8.4.	Ychwanegedd.....	97
	Atodiad A: Rhestr o Randdeiliaid ar gyfer Cyfweiliadau Cwmpasu.....	98
	Atodiad B: Canllaw'r Cyfweiliad Cwmpasu	99
	Atodiad C: Arolwg ar gyfer yr ymgeiswyr aflwyddiannus.....	103
	Atodiad D: Arolwg ar gyfer yr ymgeiswyr llwyddiannus.....	116
	Atodiad E: Canllaw Cyfweiliad (fffenestri 1-3).....	132
	Atodiad F: Canllaw Grŵp Ffocws (Ffenestri 4-7).....	136

Rhestr o dablau

Tabl 3.1: ThN ar gyfer Ffenestri 1–3 y GCC.....	25
Tabl 3.1.2: ThN estynedig ar gyfer Ffenestri 1-3 y GCC	26
Tabl 3.2: ThN ar gyfer Ffenestri 4–7 y GCC.....	29
Tabl 3.2.1: ThN estynedig ar gyfer Ffenestri 4 i 7 y GCC	30
Tabl 3.3: Y fframwaith gwerthuso a ffynonellau data ar gyfer Ffenestri 1–3 y GCC.....	33
Tabl 3.4: Y fframwaith gwerthuso a ffynonellau data ar gyfer Ffenestri 4–7 y GCC.....	34
Tabl 4.1: Cyfradd ymateb yr arolwg o'i chymharu â thargedau	37
Tabl 4.2: Nifer y staff amser llawn a rhan-amser a gyflogir gan yr ymatebwyr.....	39
Tabl 4.3: Y defnydd a fwriadwyd o'r GCC	42
Tabl 4.4: Nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus sydd wedi hawlio'r GCC	44
Tabl 4.5: A gafodd yr ymgeiswyr llwyddiannus gymorth i weithredu eu buddsoddiad?	44
Tabl 4.6: A yw'r grant (ymgeiswyr llwyddiannus) o'i gymharu â'r buddsoddiad (ymgeiswyr aflwyddiannus) wedi cael unrhyw effaith ar swyddi yn eich busnes?	46
Tabl 4.7: Sut y newidiodd busnesau fferm o ganlyniad i'r prosiect/buddsoddiad?	48
Tabl 4.8: Barn ffermwyr ynghylch a oedd y buddsoddiad wedi gwella cynhyrchiant.	49
Tabl 4. 9: Ymwybyddiaeth ffermwyr o unrhyw effeithiau gan eu prosiectau ar fusnesau lleol, boed yn gadarnhaol neu negyddol e.e. prynwyr neu gyflenwyr, contractwyr.	49
Tabl 4.10: Pam wnaethoch chi fwrw ymlaen heb y grant? (Ymgeiswyr aflwyddiannus yn unig)	54
Tabl 4.11: Pa un o'r canlynol fyddai wedi bod yn ganlyniadau i'ch prosiect, pe na baech chi wedi cael y grant? (Ymgeiswyr llwyddiannus yn unig).....	55
Tabl 4.12: Beth fyddai wedi'i gyflawni pe byddech wedi cael y grant? (Ymgeiswyr aflwyddiannus yn unig).....	55
Tabl 4.13: I ba raddau yr effeithiodd ffactorau allanol yn negyddol ar y gallu i ddefnyddio'r cymorth grant?	56

Rhestr o ffigurau

Ffigur 4.1: Trosiant blynyddol ymatebwyr a oedd yn ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus	38
Ffigur 4.2: Sut y daeth ymatebwyr yn ymwybodol o'r GCC?	40
Ffigur 4.3: Pa gymorth a gafodd yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus wrth ymgeisio am y grant?	41
Ffigur 4.4: Rhesymau pam na wnaeth ymgeiswyr aflwyddiannus barhau â'u cynlluniau (n = 54).....	43
Ffigur 4.5: Datganiadau a raddiwyd gan yr ymgeiswyr llwyddiannus o 1 (anghytuno'n gryf) i 5 (cytuno'n gryf) ynghylch proses hawlio'r GCC (N = 98).....	45
Ffigur 4.6: Prif amcanion y buddsoddiad a gefnogwyd gan y GCC ar gyfer eu fferm.....	51
Ffigur 4.7: A yw'r cynllun busnes a baratowyd ar gyfer y cais GCC wedi bod yn ddefnyddiol?	52
Ffigur 4.8: A fyddai ymgeiswyr llwyddiannus wedi bwrw ymlaen â'r prosiect pe na baent wedi derbyn y grant?	53
Ffigur 4.9: Cynlluniau ffermwyr ar gyfer eu busnes yn y dyfodol.....	57
Ffigur 4.10: Ffactorau allanol sy'n effeithio ar allu ffermwyr i dyfu ac arallgyfeirio eu busnes	58

Rhestr o dermau

bTB

Twbercwlosis buchol (Bovine tuberculosis)

EOI

Mynegiant o ddiddordeb (Express of Interest)

CFF

Cyswllt Ffermio

GPS

System Leoli Fyd-eang (Global Positioning System)

DPA

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

CNC

Cyfoeth Naturiol Cymru

RhDG

Rhaglen Datblygu Gwledig

TGC

Taliadau Gwledig Cymru

SAB

Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDs Approving Body)

GCC

Grant Cynhyrchu Cynaliadwy

SuDs

Systemau Draenio Cynaliadwy (Sustainable Drainage Systems)

ThN

Theori Newid

1. Cyflwyniad

1.1. Cefndir

Roedd y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (GCC) yn elfen bwysig o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014–2020. Cyflwynwyd y grant o dan isfesur 4.1 (cymorth ar gyfer buddsoddiadau mewn daliadau amaethyddol). Gan gyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu busnesau fferm cynaliadwy, proffidiol a gwydn yn y diwydiant amaeth yng Nghymru, helpodd y GCC ffermwyr i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu daliadau amaethyddol. Roedd yn becyn buddsoddi wedi'i anelu at helpu ffermwyr Cymru i fuddsoddi mewn offer i leihau effeithiau niweidiol amaethyddiaeth ar yr amgylchedd ac i gefnogi ffermio a defnydd tir sy'n gynaliadwy.

Roedd yn cynnig cymorth buddsoddi ar gyfer cyfleusterau ac offer yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid, storio cynydau, cadw a thrin da byw, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, a rheoli pridd a chnydau.

Roedd saith rownd (y cyfeirir atynt fel 'ffenestri') o'r GCC. Yn y rowndiau cynnar (ffenestri 1–3), nod y cynllun oedd helpu ffermwyr yng Nghymru i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu daliadau amaethyddol. Ei amcanion oedd:

- cynyddu buddsoddiad ar y fferm
- cynyddu perfformiad technegol
- cynyddu effeithlonrwydd cynhyrchu ar y fferm
- cynyddu effeithlonrwydd adnoddau ar y fferm

Roedd yn ymdrin â buddsoddiadau cyfalaf mewn offer a pheiriannau, ynghyd â rhai costau cysylltiedig. Roedd hefyd yn cefnogi prosiectau a oedd yn cynnig buddion clir a meintiol i wella perfformiad cyffredinol a chynaliadwyedd y daliad amaethyddol. Gellid defnyddio'r grant i fuddsoddi mewn cyfleusterau ac offer yn ymwneud â'r pum thema isod o fuddsoddiad: iechyd a lles anifeiliaid, storio cynydau, cadw a thrin da byw, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, a rheoli pridd a chnydau.

Ar gyfer y rowndiau diweddarach (Ffenestri 4–7), oherwydd effeithiau llygredd ar ffermydd sy'n effeithio ar ansawdd dŵr a bywyd gwyllt, penderfynodd Llywodraeth Cymru dargedu llygredd yn fwy penodol. Roedd yr amcanion yn cynnwys gwella'r rheolaeth o faetholion, yn ogystal â diogelu a gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer, drwy leihau llygredd. Felly, anelwyd y cymorth grant at helpu ffermwyr i fuddsoddi mewn:

- gwella'r rheolaeth o faetholion ar y fferm
- amddiffyn a gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer
- cynyddu effeithlonrwydd dŵr ar y fferm
- cynyddu effeithlonrwydd adnoddau ar y fferm

Roedd y rowndiau diweddarach hyn o'r GCC yn cynnwys buddsoddiadau cyfalaf mewn offer a pheiriannau a nodwyd ymlaen llaw i fynd i'r afael ag effeithiau llygredd ar y fferm – gan gynnig buddion clir i fentrau fferm a'r amgylchedd ehangach. Nod Ffenestr 7 yn benodol oedd cefnogi ffermwyr i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) 2021^[troednodyn 1].

Ar gyfer Ffenestri 1–3, roedd ystod y grant rhwng £16,000 a £400,000. Er mwyn cael cyfraniad llawn y grant o 40%, roedd angen gwariant o dros £1m.

Ar gyfer Ffenestri 4–7, uchafswm cost y prosiect i fod yn gymwys am gyfraniad o 40% oedd £125,000. Roedd y grant yn amrywio o isafswm o £12,000 i uchafswm o £50,000. Roedd hyn yn gofyn am isafswm cyfatebol o £18,000 mewn cyllid preifat ar gyfer cyfanswm buddsoddiad o £30,000 o leiaf. Cafodd prosiectau a chanddynt gyfanswm o dros £125,000 o fuddsoddiadau uchafswm y grant, sef £50,000.

Ymhlith yr eitemau cymwys roedd sgwrwyr aer, offer System Lleoli Byd-eang (GPS) ar gyfer ffermio manwl, clampiau silwair, offer profi pridd a silwair, tanciau storio slyri, pypiau a gorchuddion, offer taenu slyri. Ar gyfer Ffenestr 7, cyfyngwyd y cymhwysedd i eitemau oedd yn gysylltiedig â slyri.

I fod yn gymwys ar gyfer y grant yn Ffenestri 1–6, roedd gofyn i aelod o'r busnes fferm fynd i ddigwyddiad ar 'Ffermio Cynaliadwy' gan Cyswllt Ffermio. Nid oedd y gofyniad hwn yn berthnasol ar gyfer Ffenestr 7. Roedd angen i'r busnes fod wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio a Taliadau Gwledig Cymru. Os oedd busnes wedi gwneud cais am gyllid mewn ffenestr flaenorol o'r GCC, nid oedd bellach yn gymwys i wneud cais mewn ffenestri diweddarach. Newidiodd y maen prawf hwn yn Ffenestr 6, i'r busnesau hynny a oedd wedi gwneud cais yn Ffenestri 1–3 nad oeddent yn gymwys i wneud cais yn Ffenestr 6. Ni ddefnyddiwyd y maen prawf hwn yn seithfed ffenestr y grant.

Troednodiadau

[1] <https://www.llyw.cymru/rheoliadau-adnoddau-dwr-rheoli-llygredd-amaethyddol-cymru-2021-canllawiau-ar-gyfer-ffermwyr>

Roedd y broses ymgeisio am y grant yn cynnwys mynd i'r digwyddiad gan Cyswllt Ffermio i fod yn gymwys (ar gyfer Ffenestri 1–6). Ar ôl mynd i'r digwyddiad, roedd angen i'r ymgeiswyr gyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb (EOI) drwy Taliadau Gwledig Cymru, gan fanylu ar y buddsoddiad cyfalaf arfaethedig mewn cais am y grant. Yna sgoriwyd ceisiadau yn seiliedig ar feini prawf yn ymwneud â gwydnwch ariannol, iechyd a lles anifeiliaid neu blanhigion, allyriadau, effeithlonrwydd maetholion, effeithlonrwydd ynni ac effeithlonrwydd dŵr.

Ar ôl i gynnig basio'r cam EOI, gwahoddwyd yr ymgeisydd i baratoi a chyflwyno cais ail gam llawn ar gyfer eu prosiect arfaethedig, ynghyd â dogfennaeth ategol fel cynllun busnes pum mlynedd, Cynllun Effeithlonrwydd Maetholion, a Chynllun Effeithlonrwydd Dŵr. Roedd y cynllun busnes yn cynnwys amcangyfrif o lif arian ar gyfer y cyfnod buddsoddi i dalu am unrhyw ad-daliadau ac i sicrhau y gallai llif arian y busnes gwmpasu'r cyfnod rhwng buddsoddi a dyfarniad y grant. Yn ogystal, roedd angen i'r busnes ddangos bod ganddo'r arian cyfatebol ar gael, naill ai fel cronfa arian parod neu drwy lythyr ategol gan fenthyciwr (fel arfer banc benthycu).

Nod y sgorio oedd graddio ceisiadau am ddyraniad cyllid. Derbyniodd ymgeiswyr llwyddiannus gontractau ac roeddent yn gallu prynu eitemau dethol cyn hawlio'r grant drwy gyfrif Taliadau Gwledig Cymru ar-lein. Nod y cynllun oedd cydbwyso symlrwydd ag atebolrwydd, gan ddefnyddio rhestr ragddiffiniedig o eitemau cyfalaf i symleiddio'r broses ymgeisio a sicrhau'r enillion diriaethol mwyaf posibl mewn perfformiad busnes ac amgylcheddol. Roedd Digwyddiadau Trosglwyddo Gwybodaeth (DTG) yn rhan annatod o'r cynllun, gan feithrin ymgysylltiad. Rhoddodd hefyd wybodaeth i fagu hyder a sgiliau ffermwyr mewn datblygu busnes cynaliadwy.

Cynlluniwyd gweithgareddau a gefnogwyd gan gynllun y GCC i fynd i'r afael ag o leiaf un o Flaenoriaethau a Meysydd Ffocws Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014–2020;

- (Pob Ffenestr) Blaenoriaeth 2 – gwella cystadleurwydd pob math o amaethyddiaeth a gwella hyfywedd y fferm
 - Maes Ffocws 2a – hwyluso'r gwaith o ailstrwythuro ffermydd sy'n wynebu problemau strwythurol mawr, yn enwedig ffermydd sydd â lefel isel o gyfranogiad o'r farchnad; ffermydd sy'n canolbwyntio ar y farchnad mewn sector penodol, a ffermydd sydd angen arallgyfeirio amaethyddol.
- (Ffenestri 1–3) Blaenoriaeth 3 – hyrwyddo trefniadaeth cadwyn fwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth, gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:
 - Maes Ffocws 3a – integreiddio cynhyrchwyr cynradd yn well i'r gadwyn fwyd trwy gynlluniau ansawdd; hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol a chylchedau cyflenwi byr, grwpiau cynhyrchwyr a sefydliadau rhyng-gangen;
 - Maes Ffocws 3b – cefnogi'r gwaith o reoli risg ar ffermydd
- (Ffenestri 1–3) Blaenoriaeth 4 – adfer, cadw a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth
 - Maes Ffocws 4b – gwella'r rheolaeth o ddŵr, gan gynnwys rheoli gwrtaith a phlaladdwyr
 - Maes Ffocws 4c – atal erydiad pridd a gwella rheolaeth o'r pridd
- (Pob Ffenestr) Blaenoriaeth 5 – hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi'r newid tuag at economi carbon isel a gwydn yn wyneb newid hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth
 - Maes Ffocws 5a – cynyddu effeithlonrwydd mewn defnydd o ddŵr gan amaethyddiaeth
 - Maes Ffocws 5b – cynyddu effeithlonrwydd yn y defnydd o ynni mewn amaethyddiaeth a phrosesu bwyd
 - Maes Ffocws 5d – lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac amonia o amaethyddiaeth

Meysydd thematig a thrawsbynciol (Pob Ffenestr) – nod yr eitemau cyfalaf a'r gweithgareddau a oedd yn gymwys o dan ffenestri'r GCC oedd cefnogi'r thema Rheoli Pridd a Chnydau yn ogystal â'r tri maes trawsbynciol: Effeithlonrwydd Maetholion, Effeithlonrwydd Ynni ac Effeithlonrwydd Dŵr.

Nod y GCC hefyd oedd cyfrannu at strategaethau Llywodraeth Cymru, megis:

- Symud Cymru Ymlaen 2016–2021, drwy annog ffermwyr i fabwysiadu ffyrdd ecogyfeillgar ac economaidd hyfyw o gynhyrchu, gan gyfrannu at ffyniant economaidd cyffredinol Cymru
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, drwy gefnogi prosiectau sy'n ystyried agweddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan feithrin sector amaethyddol mwy gwydn a chynaliadwy yng Nghymru
- Y Cod Ymarfer Amaethyddol Da ar gyfer Diogelu Dŵr, Pridd ac Aer i Gymru, drwy gefnogi prosiectau sy'n cyd-fynd ag egwyddorion ymarfer amaethyddol da a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru
- Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid, drwy gefnogi mentrau sy'n gwella iechyd anifeiliaid, hyrwyddo arferion ffermio cyfrifol, a sicrhau lles anifeiliaid, sy'n cyd-fynd â fframwaith y Llywodraeth ar gyfer cynnal safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid

1.2. Nodau ac Amcanion

Mae'r gwerthusiad hwn yn rhoi asesiad annibynnol o'r GCC o ran ei weithrediad a'i effeithiau yng Nghymru.

Amcanion penodol y prosiect gwerthuso hwn yw asesu:

- effeithiolrwydd rheolaeth y GCC – gan gynnwys y broses hawlio, systemau monitro, cyfathrebu ac argaeledd cymorth ar ôl dyfarnu
- cynnydd y GCC wrth gyflawni targedau
- effaith enghreifftiol y GCC
- effeithiolrwydd prosesau cymhwyso, penderfynu a gwerthuso'r prosiect
- i ba raddau y mae busnesau a gafodd gymorth wedi gallu cyflawni'r amcanion a nodwyd yn eu cynlluniau busnes (ar gyfer ffenestri 1–3 y GCC)
- i ba raddau y mae model y Cynllun Busnes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ffenestri 1–3 y GCC (h.y. a yw gofyniad y cynllun busnes yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o gyflawni'r nod neu a yw'n arf defnyddiol i ffermwyr eu helpu i gyflawni eu hamcanion)
- ymatebolrwydd y GCC i anghenion canfyddedig y diwydiant amaethyddol
- sicrhau bod y GCC yn cyd-fynd â'r cymorth sydd ar gael i'r sector, ac yn ehangach ag amcanion polisi strategol Llywodraeth Cymru a'r UE

1.3. Strwythur y Gwerthusiad a'r Adroddiad

Cafodd y gwerthusiad ei strwythuro i gyflwyno tystiolaeth ac argymhellion penodol mewn perthynas ag amcanion y GCC. Er mwyn ategu'r gwerthusiad ac i brofi rhagdybiaethau, defnyddiwyd y model Theori Newid (ThN) i asesu nodau, gweithgareddau, canlyniadau ac effeithiau'r rhaglen. Roedd y ThN hefyd yn seiliedig ar gyfweiliadau gydag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y rhain i wella'r ddealltwriaeth o gynllunio a gweithredu'r cynllun, a'i effaith. Aseswyd hefyd gwestiynau ymchwil megis nodi effeithiolrwydd y rheolaeth o gynllun y GCC; cynnydd o ran cyrraedd targedau, a deall sut yr oedd yn cydfynd â pholisi strategol ehangach Llywodraeth Cymru a'r UE.

Defnyddiwyd dulliau cymysg i gasglu safbwyntiau gan ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus y cynllun. Helpodd hyn i gasglu manylion hanfodol er mwyn gwerthuso a gwella'r ddealltwriaeth o effeithiolrwydd y grant a'r anghenion canfyddedig yn y diwydiant amaethyddol. Fe wnaeth rhoi arolygon i'r ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus ganiatáu i ni gael mewnbwn ynghylch eu profiadau gyda'r GCC. Defnyddiwyd dulliau ansoddol, megis cyfweiliadau a grwpiau ffocws, yn benodol i archwilio safbwyntiau manylach ymgeiswyr llwyddiannus y grant. Cyfrannodd y gwaith o gasglu gwybodaeth, a ddeilliodd o'r dulliau cymysg hyn, at werthuso sut y cafodd y GCC ei gyfathrebu a'i gymhwyso, yn ogystal â'i effaith gyffredinol. Mae'r asesiad cynhwysfawr hwn wedi cyfoethogi'n fawr y ddealltwriaeth o gwestiynau ymchwil ac amcanion y prosiect. Ceir rhagor o fanylion am y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr adran ddilynol ar fethodoleg.

Mae'r adroddiad gwerthuso hwn yn dilyn y strwythur canlynol:

- Cyflwyniad – sy'n darparu rhesymeg a chefnidir clir i'r prosiect, gan gynnwys nodau/amcanion yr ymchwil a'i strwythur cyffredinol
- Methodoleg – sy'n amlinellu'r dulliau cymysg a ddefnyddiwyd i gyflawni nodau ac amcanion cyffredinol y gwerthusiad, yn ogystal â'r dulliau dadansoddol a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddi a'r ffoeseg a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil
- Theori Newid a Chyfweiliadau Cwmpasu – sy'n dangos y model ThN a grëwyd a chanfyddiadau'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid
- Adolygiad desg o ddata monitro'r cynllun
- Arolwg – sy'n archwilio ymatebion yr ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus. Mae hefyd yn rhoi dadansoddiad disgrifiadol o'r canfyddiadau
- Cyfweiliadau ac astudiaethau achos – golwg fanwl ar farn ymgeiswyr llwyddiannus Ffenestri 1–4 y GCC a'r effaith gyffredinol ar eu fferm a'u busnes
- Grwpiau ffocws a chyfweiliadau – dadansoddiad thematig o ymgeiswyr llwyddiannus Ffenestri 4–7 y GCC, gan nodi pynciau pwysig o'u persbectif ar y broses ymgeisio, effaith a chymhellion yn y dyfodol
- Trafodaeth a Chasgliad – sy'n amlinellu canfyddiadau holl ymchwil sylfaenol y prosiect yn erbyn cwestiynau ymchwil a nodau'r prosiect. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi synthesis o'r gwerthusiad a'r argymhellion

2. Methodoleg

Mae'r adran hon yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd wrth werthuso cynllun y GCC, gan fanylu ar y prosesau casglu data, y fframwaith samplu a'r ystyriaethau moesegol. Mabwysiadwyd dulliau cymysg i ffurfio sylfaen dystiolaeth gadarn, gan gyfuno ffynonellau o ddata ansoddol a meintiol. Roedd y dulliau hyn yn cynnwys cyfweiliadau cwmpasu, adolygiadau desg, arolwg ar-lein, cyfweiliadau manwl, a grwpiau ffocws.

Cwblhawyd yr holl waith casglu data sylfaenol yn unol â Chod Ymddygiad Ymchwil i'r Farchnad a chanllawiau Moesegol Cymdeithas Gymdeithasegol Prydain ac o dan gytundeb rhannu data gyda Llywodraeth Cymru.

Cafwyd caniatâd gan yr holl gyfranogwyr cyn iddynt gymryd rhan yn yr ymchwil. Crëwyd hysbysiad preifatrwydd, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn amlinellu hawliau'r cyfranogwyr, a'u briffio ar y prosiect. Darparwyd hefyd fanylion cyswllt ar gyfer unrhyw gwestiynau pellach neu os hoffent dynnu'n ôl.

Diogelwyd anhysbysrwydd y cyfranogwr trwy gydol y broses o gasglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata. Adroddwyd am ganfyddiadau'r ymchwil mewn modd cyfanredol fel na ddatgelwyd hunaniaeth unigolion. Cafodd data ei storio'n ddiogel gyda dim ond y tîm ymchwil uniongyrchol yn ADAS yn cael mynediad ato.

2.1. Cyfweiliadau cwmpasu

Ar ddechrau'r prosiect gwerthuso, cynhaliwyd cyfanswm o chwe chyfweiliad (gyda saith unigolyn) gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Cymerodd y rhain ran yn y gwaith o ddatblygu, gweithredu a monitro cynllun y GCC. Helpodd y cyfweiliadau hyn i fireinio'r cwmpas a'r prif gwestiynau ymchwil. Datblygwyd hefyd fodel rhesymeg i lywio'r fframwaith gwerthuso. Cafodd gwahanol randdeiliaid Llywodraeth Cymru naill ai eu cyfweld ar wahân neu mewn grwpiau drwy Microsoft Teams. Ceir rhestr o'r rhanddeiliaid hyn yn Atodiad A.

Wrth ymgymryd â'r cyfweiliadau cwmpasu, dilynwyd a hwyluswyd dull lled-strwythuredig trwy ganllaw cyfweld (Atodiad B). Roedd y canllaw'n cynnwys cwestiynau i ddeall cyfranogiad y rhanddeiliad a sut cafodd y cynllun ei ddatblygu a'i fonitro o safbwynt y person a gâi ei gyfweld. Canolbwyntiwyd hefyd ar ddangosyddion, effeithiau/canlyniadau a gwelliannau'r cynllun.

2.2. Adolygiad desg

Ochr yn ochr â'r cyfweiliadau cwmpasu, cynhaliwyd adolygiad desg o ddata a dogfennau. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o ddata monitro unrhyw brosiectau a ddechreuwyd ac a gwblhawyd. Canolbwyntiwyd hefyd ar sut y cafodd y rhain eu cyflwyno, eu hawliadau a'u hallbynnau. Yn ogystal, adolygwyd sampl o gynlluniau busnes a cheisiadau i asesu effeithiolrwydd y grant wrth arwain at gwblhau'r cynlluniau.

Roedd y dewis o brosiectau ar gyfer y gwerthusiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ymgeiswyr llwyddiannus y cynllun grant a oedd wedi cwblhau eu prosiectau, ymateb i'r arolwg, a chytuno i gymryd rhan mewn cyfweiliad manwl gyda'r tîm gwerthuso. Roedd y dull hwn yn sicrhau bod y gwerthusiad yn dal profiadau a chanlyniadau'r rhai a oedd wedi ymgysylltu'n llawn â chynllun y GCC ac a allai roi safbwyntiau uniongyrchol am ei effeithiolrwydd. Er bod y broses ddethol yn seiliedig ar sampl hunanddethol, defnyddiodd y tîm gwerthuso feini prawf dethol lle bo modd i sicrhau bod y sampl yn cynnwys amrywiaeth o brosiectau. Roedd y rhain yn cynrychioli gwahanol fathau o ffermydd a lleoliadau daearyddol, er mwyn cael sbectrwm eang o brofiadau.

Cyfunwyd yr adolygiad o'r cynlluniau busnes â'r ymatebion i'r arolwg ar-lein a'r cyfweiliadau manwl. Caniataodd hyn i ddata meintiol a data ansoddol gael eu defnyddio i ddeall gwir effeithiau'r prosiectau a gefnogwyd gan y GCC. Helpodd y dull hwn i esbonio pam a sut y cafodd y prosiectau hynny eu cwblhau, yn ogystal â rôl y cynllun busnes o ran cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd a'r rhesymau dros gyfyngu ar y rôl honno.

2.3. Arolwg ar-lein yr ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus

Er mwyn casglu barn a safbwyntiau ar effeithiau a phrosesau cynllun y GCC, cynhaliwyd a dosbarthwyd arolwg ar-lein trwy e-bost at yr ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus. Roedd cynnwys ymgeiswyr aflwyddiannus yn bennaf yn gymharydd i ddeall y buddion ychwanegol a gafwyd o gymryd rhan yn y cynllun. Rhoddodd hefyd adborth pellach ar y broses ymgeisio.

Daeth y sampl ar gyfer y gwerthusiad hwn o gronfeydd data cynllun y GCC gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus. Cyn defnyddio'r data, fe wnaethom wahaniaethu ceisiadau unigol a lluosog yn ystod gwahanol gylchoedd o geisiadau, yn ogystal â cheisiadau gan ffermwyr ac ymgynghorwyr. Gwnaed hyn i sicrhau bod y cwestiynau mwyaf perthnasol yn cael eu gofyn i'r ymatebwyr perthnasol. Ar gyfer llawer o ymgeiswyr, fe wnaethom ganolbwyntio ar eu cais diweddaraf i'w helpu i gofio am eu profiad o'r cynllun.

Y brif her oedd delio ag anghysondebau yn y data, fel cofnodion anghyflawn neu amrywiadau bach yng ngwybodaeth ymgeiswyr, yn enwedig rhwng gwahanol rowndiau o geisiadau. Cafodd yr holl ddata ei storio'n ddiogel ar weinyddion wedi'u hamgryptio, gyda mynediad wedi'i gyfyngu i'r tîm ymchwil. Sicrhodd hyn fod gwybodaeth bersonol yn cael ei diogelu.

Dyluniwyd holiadur ar gyfer yr arolwg a'i lanlwytho i [Jisc, sef platfform arolwg ar-lein](#). Rhoddwyd dolen benodol i ffermwyr i'w galluogi i lenwi'r arolwg eu hunain.

Dewiswyd Jisc oherwydd bod gan dîm y prosiect danysgrifiad eisoes. Roedd hyn yn ei wneud yn opsiwn cost-effeithiol. Roedd y platfform yn hawdd ei ddefnyddio, yn diogelu data'n gadarn, ac roedd modd addasu cwestiynau'n hawdd gyda chwestiynau amlddewis a phenagored. Yn ogystal, roedd Jisc yn galluogi dolenni defnyddiol i ymatebwyr yr oedd angen iddynt fewngofnodi ar eu cyfer. Roedd hyn yn gwneud y platfform yn ddewis ymarferol a dibynadwy ar gyfer yr arolwg. Roedd hefyd yn caniatáu i ni olrhain cynnydd ac anfon negeseuon atgoffa at y rhai nad oeddent wedi ymateb eto.

Roedd y cwestiynau'n gymysgedd o gwestiynau amlddewis caeedig a phenagored. Rhannwyd y rhain yn adrannau allweddol i fynd i'r afael â nod yr ymchwil a phedwar maes o bryder. Roedd cwestiynau caeedig yn helpu i ddadansoddi tueddiadau a phatrymau clir, tra bod cwestiynau penagored yn rhoi safbwyntiau dyfnach i brofiadau ymatebwyr. Roedd trefnu'r cwestiynau yn adrannau yn mynd i'r afael â nodau'r ymchwil a'r meysydd allweddol o bryder, gan sicrhau asesiad cynhwysfawr o gynllun y GCC. Roedd y cyfuniad hwn yn caniatáu asesiad cytbwys, gan ddal data strwythuredig ac adborth disgrifiadol. Gellir dod o hyd i'r holiadur llawn yn Atodiad C ar gyfer yr ymgeiswyr aflwyddiannus, ac Atodiad D ar gyfer y rhai llwyddiannus.

Cafodd cwestiynau'r arolwg eu teilwra ychydig yn wahanol ar gyfer ymgeiswyr Ffenestri 1–3 a Ffenestri 4–7. Cafodd hunaniaeth ymatebwyr ar gyfer pob ffenestr ei hwyluso gan gronfa ddata'r cynllun, a gofnododd y ffenestr a'r prosiect penodol y gwnaeth pob ymgeisydd gais amdano, ynghyd â chanlyniadau'r cais, maint y cyllid, enw'r prosiect, a'r dyddiad dechrau/gorffen ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus. Cafodd yr wybodaeth hon ei phoblogi

ymlaen llaw yn yr arolwg i atgoffa ymatebwyr o'r prosiect y gwnaethant gais amdano o dan y cynllun.

Mewn rhai achosion, cysylltodd yr ymatebwyr â ni dros e-bost neu'r ffôn i gadarnhau pa brosiect neu ffenestr yr oeddent yn gysylltiedig â nhw pan oedd ansicrwydd. Roedd hyn yn helpu i sicrhau eu bod yn ymateb yn gywir i'r cwestiynau perthnasol yn yr arolwg.

Nid oedd unrhyw heriau mawr o ran ymatebwyr yn cwblhau arolygon ar gyfer y prosiect neu'r ffenestr anghywir. Roedd yr wybodaeth a boblogwyd ymlaen llaw a'r pwynt cyswllt (e-bost a symudol) yn gweithredu fel mesurau effeithiol i atal unrhyw ddryswch.

Ar gyfer ymgeiswyr Ffenestri 1–3, roedd cwestiynau'r arolwg yn canolbwyntio mwy ar effaith y cynllun mewn perthynas â gwella sut y câi'r fferm ei rheoli; mwy o ddefnydd o ddulliau ffermio arloesol; gwell effeithlonrwydd o ran adnoddau; gwell gwydnwch; gwell cynhyrchiant, a lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar yr amgylchedd.

Ar gyfer Ffenestri 4–7, canolbwyntiodd yr arolwg ar agweddau'r broses o'r cynllun a'r canlyniadau disgwylidig. Roedd cwestiynau allweddol yr arolwg yn cynnwys:

- y cymhellion/gyrwyr ar gyfer ymgeisio
- y broses ymgeisio a hawlio, cyngor a chymorth
- rhwystrau a chymorth ar gyfer gwneud newidiadau – beth fyddai wedi helpu
- effeithiau / canlyniadau disgwylidig ar gyfer y busnes fferm
- effeithiau / canlyniadau canfyddedig ehangach
- gwelliannau sydd eu hangen i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ac/neu effaith

Archwiliwyd ychwanegedd y grantiau hefyd ar gyfer pob Ffenestr gan ddefnyddio asesiad hunangofnodedig gan ymgeiswyr llwyddiannus, yn seiliedig ar eu hymatebion i gyfres o gwestiynau gan gynnwys:

- am beth y defnyddiwyd y grant? (uwchraddio neu amnewid)?
- beth fyddai wedi digwydd yn absenoldeb y grant? A fyddai'r buddsoddiad wedi mynd yn ei flaen ar yr un raddfa ac o fewn yr un amserlen? A oedd ffynonellau eraill o gyllid ar gael?

Darparwyd manylion cyswllt gan Lywodraeth Cymru. Defnyddiwyd cyfeiriadau e-bost i ddosbarthu'r arolwg. Cyhoeddwyd neges ar wefan Taliadau Gwledig Cymru, anfonwyd negeseuon atgoffa drwy e-bost, a gwnaed arolygon dros y ffôn. Cynhaliwyd y rhain gan ymgynghorwyr ADAS i gynyddu cyfradd ymateb yr arolwg.

Cynhaliwyd yr arolwg am gyfnod o ddau fis. Ymestynnwyd hyn o dair wythnos, i ddechrau, er mwyn cynyddu'r gyfradd ymateb. Cafwyd cyfanswm o 100 o ymatebion gan ymgeiswyr llwyddiannus a 56 gan ymgeiswyr aflwyddiannus.

Defnyddiwyd Microsoft Excel a Stata yn bennaf i ddadansoddi'r data o arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus. Gan fod yr arolygon yn Gymraeg ac yn Saesneg, cyfieithwyd yr arolygon Cymraeg a'u cyfuno â'r arolwg Saesneg i greu un set o ddata ar gyfer yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus.

Dadansoddwyd y cwestiynau meintiol, a roddodd opsiynau amlddewis i ymatebwyr, yn Microsoft Excel, a'u cyflwyno mewn graffiau ar gyfer yr adroddiad. Dylid nodi nad oedd pob cwestiwn yn orfodol i'w ateb. Defnyddiwyd y dull hwn i ddarparu ar gyfer ymatebwyr a allai deimlo'n anghyfforddus wrth ateb rhai cwestiynau sensitif, fel y rhai oedd yn ymwneud â manylion ariannol, profiadau personol, neu benderfyniadau busnes mewnol. Roedd caniatáu ymatebion dewisol yn helpu i gynyddu cyfranogiad a gonestrwydd yn yr arolwg, gan fod ymatebwyr yn llai tebygol o roi'r gorau i'r arolwg oherwydd eu bod yn teimlo'n anghysurus neu'n bryderus am eu preifatrwydd. Cymharwyd ymatebion yr ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus hefyd yn y dadansoddiad.

Cynhaliwyd dadansoddiad ansoddol ar gyfer y cwestiynau penagored er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o brofiad ymatebwyr o'r GCC. Dadansoddiad a oedd yn cynnwys cymharu oedd y rhain y bennaf, lle cymharwyd yr atebion a roddodd ffermwyr yn y categori 'arall' neu pan ofynnwyd iddynt ymhelaethu ar eu hymateb.

2.4. Cyfweiliadau manwl gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus ac astudiaethau achos (Ffenestri 1–3)

Cynhaliwyd cyfanswm o 10 cyfweiliad gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus. Roedd y rhain yn cynnwys ffermwyr a gymerodd ran yn Ffenestri 1–3 y cynllun grant. Roedd y ffermwyr a gyfweiliwyd yn dod o wahanol sectorau fel llaeth, dofednod, bïff a defaid. Creodd hyn felly sampl fwy cynrychioliadol. Caniataodd hyn hefyd ddealltwriaeth ehangach o'r heriau a'r effeithiau amrywiol trwy'r gwahanol eitemau cyfalaf y buddsoddodd y ffermwyr ynddynt gyda'r grant.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau gan wyddonwyr cymdeithasol ADAS dros y ffôn neu ar Microsoft Teams. Y ffermwyr a gysylltwyd â nhw oedd ymgeiswyr llwyddiannus Ffenestri 1–3 a nododd ar yr arolwg ar-lein fod ganddynt ddiddordeb mewn bod yn rhan o gyfweiliad. Cynhaliwyd pob cyfweiliad yn Saesneg, ond roedd gan ymatebwyr yr opsiwn i ddewis Cymraeg os oedd yn well ganddynt.

Roedd y cyfweiliadau ffôn yn para hyd at 30 munud a defnyddiwyd dull lled-strwythuredig. Cofnodwyd pob cyfweiliad at ddibenion trawsgrifio a thrawsgrifiwyd unrhyw ddata allweddol i ddatblygu astudiaethau achos. Crëwyd canllaw cyfweld gan ADAS a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru i helpu i hwyluso dull lled-strwythuredig y cyfweiliad (Atodiad D). Prif bynciau'r canllaw oedd:

- gwybodaeth gefndir am y busnes a'r prosiect a gefnogwyd gan y grant
- y broses ymgeisio a gweithredu
- effaith y buddsoddiad a'r cymorth grant
- y broses a'r defnyddioldeb o greu cynllun busnes
- cyflawniadau o'r grant ac unrhyw gymorth ychwanegol yr oedd ei angen arnynt
- ychwanegedd
- awgrymiadau am welliannau ar gyfer y cynllun grant neu gynlluniau yn y dyfodol wrth symud ymlaen

I ddadansoddi'r data, trawsgrifiwyd rhannau allweddol o'r cyfweiliad a recordiwyd. Cafodd prif elfennau'r drafodaeth eu dewis / cymharu â'r canllaw cyfweld ac amcanion yr astudiaethau achos, a hynny er mwyn cynhyrchu data cylchrannol ystyrlon. Ysgrifennwyd astudiaethau achos mewn strwythur tebyg i'r canllaw i greu naratif naturiol i safbwynt y cyfranogwyr. Mae hyn yn dechrau gyda'u cefndir a'u proses ymgeisio, y cynllun busnes, effaith y cymorth grant, ac ychwanegedd/gwelliannau.

Croesgyfeiriwyd y rhan o'r cyfweiliad oedd yn ymwneud â'r cynllun busnes â chynlluniau busnes go iawn y cyfranogwyr a gyflwynwyd yn ystod cam ymgeisio cynllun y GCC. Roedd hyn yn ein galluogi i ddeall amcanion yr eitemau cyfalaf a gefnogwyd gan y grant ac asesu a oedd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn credu eu bod wedi cyflawni'r hyn yr oeddent wedi bwriadu ei gyflawni yn wreiddiol.

2.5. Grwpiau ffocws a chyfweliadau – ymgeiswyr llwyddiannus (Ffenestri 4–7)

Cymerodd 13 o ffermwyr o Ffenestri 4–7 ran mewn tri grŵp ffocws i rannu eu profiad o gynllun y GCC. Oherwydd y diffyg diddordeb mewn cymryd rhan ^[troednodyn 2] yn y grŵp ffocws, cynhaliwyd dau gyfweliad ychwanegol gyda ffermwyr. Roedd y rhain wedi mynegi diddordeb yn y prosiect gwerthuso ond nid oeddent yn gallu mynd i'r grŵp ffocws. Roedd y grŵp ffocws yn para am 60 munud a thrafodwyd y pynciau canlynol:

- cefndir y ffermwyr a pham y gwnaethant gais am y grant
- y broses ymgeisio a gweithredu
- effaith a chyflawniadau'r grant
- ychwanegedd ac awgrymiadau am welliannau ar gyfer y cynllun grant neu gynlluniau yn y dyfodol wrth symud ymlaen

Cynhaliwyd y grŵp ffocws ar-lein gan hwylusydd a thrawsgrifwr o ADAS trwy Microsoft Teams. Dilynodd y cyfarfod ddull lled-strwythuredig gan ddefnyddio canllaw (Atodiad F) a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Recordiwyd yr holl grwpiau ffocws a chyfweliadau ychwanegol at ddibenion trawsgrifio i adlewyrchu barn a sylwadau'r cyfranogwyr yn gywir.

Defnyddiwyd dadansoddiad thematig i ddadansoddi data'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau, a oedd yn ddull didynol o ddeall data ansoddol. Ystyriodd hefyd amcanion yr ymchwil ac unrhyw themâu arwyddocaol a ddaeth i'r amlwg o'r data drwy'r broses o leihau, segmentu a chategoreiddio data ^[troednodyn 3].

Defnyddiwyd meddalwedd NVivo i gynorthwyo yn y dadansoddiad thematig trwy ddelweddu a rhannu'r data. Roedd y broses yn cynnwys lanlwytho trawsgrifiadau o'r grwpiau ffocws/cyfweliadau i NVivo a nodi cymariaethau a gwahaniaethau o fewn y data i sefydlu themâu. Yna defnyddiwyd y themâu hyn i lunio pynciau allweddol mewn perthynas â'r cwestiynau ymchwil.

Troednodiadau

[2] Roeddem yn bwriadu recriwtio 6 i 8 o gyfranogwyr ar gyfer pob un o'r tri gweithdy.

[3] Defnyddio dadansoddiad thematig mewn seicoleg:

<https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1191/1478088706qp0630a>

3. Fframwaith theori newid (ThN) a gwerthuso

Mae'r adran hon yn amlinellu datblygiad y Theori Newid (ThN) ar gyfer cynllun y GCC, sy'n gam hanfodol wrth ddeall sut y bwriedir i'r cynllun gynhyrchu ei ganlyniadau dymunol.

Mae ThN yn ffordd systematig o ddisgrifio sut y disgwylir i ymyrraeth neu raglen gyhoeddus greu newid. Mae'n amlinellu nodau, rhagdybiaethau a strategaethau'r rhaglen, yn ogystal â'r canlyniadau a'r effaith a ddisgwylir. Datblygwyd ThN cynllun y GCC ar sail ad-hoc fel rhan o'r prosiect gwerthuso hwn ac roedd yn cynnwys proses o nodi rhesymeg sylfaenol y cynllun a nodi'r mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, y canlyniadau a'r effaith. Roedd y broses hefyd yn cynnwys nodi rhagdybiaethau a dibyniaethau cyflwyno'r cynllun.

Defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau data i lywio datblygiad y ThN, gan gynnwys ymchwil desg o ddogfennau a chronfeydd data monitro'r cynllun, ac adolygiad o adroddiadau gwerthuso yn y gorffennol a phapurau ymchwil. Defnyddiwyd hefyd gyfweiliadau cwmpasu gydag arweinwyr y cynllun a staff rheoli a darparu prosiectau i gasglu adborth, mewnbwn a safbwyntiau ar ddyluniad y cynllun, sut y cafodd ei weithredu, ei fonitro a'i effaith.

Gan fod gan gylchoedd cynnar a diweddarach y cynllun amcanion a ffocws penodol, datblygwyd Theoriau Newid ar wahân i sefydlu'r fframwaith gwerthuso cyffredinol.

3.1. ThN ar gyfer Ffenestri 1–3

3.1.1. Cyd-destun cymorth y cynllun

Mae natur sylfaenol gweithgareddau ffermio o fewn economi Cymru a'r angen i wella perfformiad ariannol ac amgylcheddol amaethyddiaeth yng Nghymru wedi cael ei gydnabod fel blaenoriaeth strategol allweddol. Er enghraifft, Ffyniant i Bawb, Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ^[troednodyn 4] (a'i Fframwaith Strategol ar gyfer Amaethyddiaeth Cymru), Deddf yr Amgylchedd Cymru ^[troednodyn 5], Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ^[troednodyn 6], a Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net ^[troednodyn 7].

Cydnabuwyd materion strategol penodol o ran hyfywedd a gwydnwch busnes a llwytho llygryddion i aer, pridd a dŵr. Mae mynd i'r afael â'r materion hyn yn gofyn am newid mewn arferion rheoli ar lefel y fferm, sydd yn ei dro yn gofyn am fuddsoddiadau ymlaen llaw mewn seilwaith ffermydd (gan gynnwys data), offer a sgiliau. Gall ffermwyr hefyd ysgwyddo costau a threuliau parhaus sy'n gysylltiedig â gweithredu a chynnal y newidiadau angenrheidiol mewn arferion rheoli (megis llafur ychwanegol, cynnal a chadw offer yn barhaus, a monitro lles anifeiliaid yn barhaus). Fodd bynnag, mae buddsoddiad preifat yn aml yn llai na'r optimaidd ac mae costau parhaus yn aml yn afresymol, gan arwain at ddiffyg gwelliant mewn arferion rheoli.

Ar gyfer Ffenestri 1–3, roedd cyllid y GCC ar gael ar draws ystod eang o themâu buddsoddi yn amodol ar gyfyngiadau methiant y farchnad. Er enghraifft, lles anifeiliaid a rheoli maetholion. Yn achos lles anifeiliaid, gall methiannau'r farchnad godi oherwydd nad yw defnyddwyr yn deall neu'n gwerthfawrogi lles anifeiliaid yn llawn yn eu penderfyniadau prynu. Gallai hyn arwain at ffermwyr yn methu â buddsoddi digon mewn lles anifeiliaid, gan efallai na fyddant yn gweld enillion digonol ar eu buddsoddiad. Yn yr un modd, yn achos rheoli maetholion, gall methiannau'r farchnad godi oherwydd pethau allanol negyddol sy'n gysylltiedig â llygredd maetholion. Efallai na fydd cynhyrchwyr yn ystyried yr allanoldeb hyn yn eu penderfyniadau cynhyrchu, gan arwain at orddefnyddio maetholion ac effeithiau amgylcheddol negyddol.

Trwy ddarparu cyllid ar gyfer themâu buddsoddi sy'n ymwneud â lles anifeiliaid a rheoli maetholion (lle ceir tanfuddsoddi gan ffermwyr), nod y GCC oedd mynd i'r afael â methiannau cysylltiedig y farchnad a sicrhau canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol dymunol.

Troednodiadau

[4] [Deddf Amaethyddiaeth \(Cymru\) 2023](#)

[5] [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#)

[6] [Cynllun Gweithredu Adfer Natur \(Cymru\) 2015](#)

[7] [Gweithio gyda'n gilydd i gyrraedd sero-net: cynllun Cymru gyfan 2020](#)

3.1.2. Rhesymeg dros ymyrryd

Y rhesymeg dros gymorth yw bod buddsoddiad cyfalaf yn destun amherffeithrwydd neu fethiannau posibl yn y farchnad. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngu mynediad cwmnïau llai at gredyd a / neu fod yn fwy costus oherwydd parodrwydd (neu amharodrwydd) benthycwyr i gynnig cyllid. Hefyd, mae cwmnïau llai yn gallu bod yn wrthwynebus i ddyled. Mae'r olaf yn cael ei waethygu gan fethiannau gwybodaeth ar ffurf diffyg ymwybyddiaeth o fuddion buddsoddi; y sgiliau angenrheidiol; a hyder i'w gwireddu. Mae gostwng y gofynion am fuddsoddiad preifat drwy gynnig grantiau'r llywodraeth yn lleihau costau cwmnïau a'r risgiau canfyddedig, a thrwy hynny'n annog buddsoddiad. Mae darparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â hyn hefyd yn aml yn ddefnyddiol. Mae hyn yn arbennig o hanfodol i'r sector ffermio, gan fod llawer o ffermydd yn dibynnu'n helaeth ar gymorthdaliadau i barhau'n hyfyw. Maent hefyd bellach yn ansicr ynghylch buddsoddi yn y dyfodol wrth i daliadau'r PAC ddod i ben.

Mae'r cymysgedd o fuddion preifat (marchnad) a chyhoeddus (nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad) a gynhyrchir yn amrywio ar draws gwahanol fathau o fuddsoddiad. Yn achos buddsoddiadau a rheolaeth barhaus sy'n bennaf yn creu buddion nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad (e.e., lles anifeiliaid a gwelliannau amgylcheddol), efallai y bydd angen i gymorth grant roi cyfrif am gyfran uwch o gostau. Mae hyn yn adlewyrchu methiant nodweddiadol enillion preifat i fod yn ddigonol i gymell y ddarpariaeth o nwyddau cyhoeddus. Y methiant hwn yw'r prif reswm dros ymyrraeth gyhoeddus wrth ddarparu nwyddau cyhoeddus amgylcheddol, p'un ai trwy gymorth grant i gwmnïau preifat neu reolaeth gyhoeddus uniongyrchol.

Wedi'i fynegi fel model rhesymeg ThN, mae cyllid cyhoeddus yn cynrychioli mewnbwn a lefel cyfanswm buddsoddiad (cyhoeddus a phreifat) gweithgaredd sy'n cynhyrchu allbynnau ar ffurf cyfleusterau storio cnydau, tai da byw a gosodiadau ynni adnewyddadwy. Mae defnyddio'r allbynnau hyn wedyn yn creu manteision canlyniadau ar ffurf gwell lles anifeiliaid, llai o lwytho llygryddion a gwell gwydnwch i'r fferm.

3.1.3. Llwybrau effaith

Mae Tabl 3.1 isod yn dangos y llwybrau effaith o fewnbynnau'r cynllun i allbynnau a chanlyniadau, yn ogystal â rhagdybiaethau allweddol a ffactorau allanol a allai effeithio ar effeithiolrwydd y cynllun.

Tabl 3.1: ThN ar gyfer Ffenestri 1–3 y GCC

Nodau ac Amcanion	Mewnbynau ac adnoddau	Gweithgareddau	Allbwn	Canlyniadau tymor byr	Canlyniadau tymor canolig	Canlyniadau hirdymor
Cynyddu buddsoddiad ar y fferm, perfformiad technegol, effeithlonrwydd cynhyrchu ac effeithlonrwydd adnoddau Lleihau allyriadau maetholion i'r aer, pridd a dŵr.	Cyfraniad cyllid cyhoeddus (£14m) tuag at fuddsoddi mewn cyfleusterau ac offer Darparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant Gweinyddiaeth y cynllun Staff y prosiect (ar gyfer arfarnu, monitro a hawliadau)	Buddsoddiad cyhoeddus a phreifat cyfun Nifer y Mynegiannau o Ddiddordeb a aseswyd Nifer y contractau a ddyfarnwyd	Seilwaith ac offer fferm gyda'r potensial i hwyluso gwell perfformiad o ran (e.e.) lles anifeiliaid, llwytho llygryddion, a chynhyrchu ynni adnewyddadwy Cynllun busnes wedi'i greu Mwy o wybodaeth am ffermio cynaliadwy (o ddigwyddiad Cyswllt Ffermio)	Mwy o ymwybyddiaeth o amcanion a gallu i fynd i'r afael â nhw Mwy o fuddsoddiad ar y fferm	cynyddu effeithlonrwydd cynhyrchu ar y fferm Newidiadau i reoli gan arwain at well lles anifeiliaid, llai o allyriadau i'r aer, pridd a dŵr, a chynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy.	Gwella ansawdd amgylcheddol Gwell gwydnwch busnes trwy fwy o effeithlonrwydd o ran adnoddau Gwell perfformiad economaidd i fusnesau amaethyddol yng Nghymru Nifer y swyddi a grëwyd/a ddiogelwyd Ardal o dir a reolir o dan gynllun rheoli adnoddau Gostyngiad mewn nwyon tŷ gwydr Cynnydd mewn trosiant

Tabl 3.1.2: ThN estynedig ar gyfer Ffenestri 1-3 y GCC

Tybiaethau	Ffactorau allanol
Mae methiannau'r farchnad yn atal buddsoddiad preifat hyd yn oed ym mhresenoldeb rhwymedigaethau lle mae pawb ar eu hennill a / neu rhwymedigaethau rheoleiddio, a gall cefnogaeth y cyhoedd wrthsefyll methiannau o'r fath. Bydd buddsoddiadau'n hwyluso newidiadau priodol mewn arferion rheoli i gyflawni'r gwelliannau a ddymunir	Polisi a rheoliadau amaethyddol ehangach Mewnbynnau ac allbynnau amaethyddol ac amodau'r farchnad Marchnadoedd carbon a bioamrywiaeth sector preifat Newid hinsawdd Risg o golled i'r gweithlu gydag offer mwy effeithlon Cyrchu arian cyfatebol

3.2. ThN ar gyfer Ffenestri 4–7

3.2.1. Cyd-destun cymorth y cynllun

Cydnabuwyd yr angen i wella perfformiad amgylcheddol amaethyddiaeth yng Nghymru ar draws nifer o ddogfennau Strategaeth cyhoeddedig sy'n ymwneud ag ansawdd aer a dŵr, newid hinsawdd, a chynefinoedd a bioamrywiaeth. Er enghraifft, Deddf yr Amgylchedd Cymru [troednodyn 8], Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru [troednodyn 9], a Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net [troednodyn 10]. Cydnabuwyd materion strategol penodol, megis allyriadau amonia, llwytho nitrogen a ffosffad i gyrff dŵr, ac allyriadau nwyon tŷ gwydr (net). Mae mynd i'r afael â'r materion hyn yn gofyn am newid mewn gorchudd tir ac arferion rheoli ar lefel y fferm, sydd yn ei dro yn gofyn am fuddsoddiadau ymlaen llaw mewn seilwaith (gan gynnwys data), offer a sgiliau. Yn ogystal, mae'r gwelliannau hyn yn aml yn arwain at gostau parhaus. Gallai costau parhaus gynnwys y costau parhaus sydd eu hangen i gynnal yr arferion newydd, megis cynnal a chadw offer yn rheolaidd, a monitro ac adrodd ar allyriadau ac ansawdd dŵr yn barhaus. Gall y costau hyn hefyd gynnwys llafur, hyfforddiant ac addasu i safonau amgylcheddol neu reoleiddiol sy'n newid. Gall costau o'r fath fod yn afresymol i ffermwyr, yn enwedig os nad oes digon o fuddsoddiad preifat neu gymorth ariannol. O ganlyniad, mae tangyflawni'r gwelliannau angenrheidiol yn gyffredin.

Fodd bynnag, nid yw buddsoddiad preifat yn aml yn ddigonol ac mae costau parhaus yn aml yn afresymol, gan arwain at dangyflawni gwelliannau.

Ar gyfer Ffenestri 4–7, targedwyd cyllid y GCC yn bennaf at wella'r rheolaeth o faetholion ar ffermydd fel achos llygredd. Er enghraifft, gall defnyddio gwrtaith organig ac artiffisial gynhyrchu allyriadau amonia sy'n amharu ar ansawdd yr aer, ac allyriadau nitradau sy'n amharu ar ansawdd y dŵr. Gellir lliniaru llygredd o'r fath trwy well rheolaeth. Cafodd Ffenestr 7 ei thargedu'n fwy penodol at fuddsoddiadau ariannu wrth storio a thrin slyri a gynhyrchir o systemau da byw dan do fel bod ffermwyr yn cydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 i ddiogelu ansawdd dŵr. Er bod buddsoddiadau o'r fath wedi'u hariannu o dan rowndiau cynharach gan ragweld Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, roedd eu blaenoriaethu o dan Ffenestr 7 yn adlewyrchu brys y buddsoddiadau gofynnol.

Troednodiadau

[8] Ar gael ar: <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents>

[9] Cynllun Adfer Natur Cymru <https://www.biodiversitywales.org.uk/Nature-Recovery-Action-Plan>

[10] Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net: Cynllun Cymru Gyfan (2021–2025). [Gweithio gyda'n gilydd i gyrraedd sero net: cynllun Cymru gyfan 2020](#)

3.2.2. Rhesymeg dros ymyrryd

Y rhesymeg dros gymorth yw bod buddsoddiad cyfalaf yn destun amherffeithrwydd neu fethiannau posibl yn y farchnad, fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Yn fwy penodol, y rhesymeg dros ymyrraeth y GCC ar gyfer Ffenestri 4–7 oedd lleihau llygredd ar y fferm sy'n effeithio ar ansawdd dŵr a bywyd gwyllt yng Nghymru (Ffenestri 4–6) a chefnogi cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Llygredd Amaethyddol i Ddŵr (Ffenestr 7). Nod y grant oedd annog ffermwyr a busnesau amaethyddol i fabwysiadu arferion a thechnolegau cynhyrchu cynaliadwy sy'n lleihau effaith eu gweithgareddau ar yr amgylchedd.

Un o brif fethiannau'r farchnad y mae'r GCC yn mynd i'r afael ag ef yw'r tanfuddsoddi mewn mesurau diogelu'r amgylchedd gan ffermwyr a rheolwyr tir. Mae hyn yn aml oherwydd y costau uchel sy'n gysylltiedig â gweithredu mesurau o'r fath a'r diffyg cymhellion ariannol a/neu fynediad at gyllid preifat i wneud hynny. Mae'r GCC yn rhoi cymhelliad ariannol i ffermwyr a busnesau fuddsoddi mewn arferion cynhyrchu cynaliadwy sy'n gwella canlyniadau amgylcheddol. Er enghraifft, nid yw buddsoddi mewn storfa slyri fel arfer yn darparu enillion clir ar fuddsoddiad i ffermwyr er y gallai fod rhai enillion effeithlonrwydd. O'i gymharu â buddsoddiad mewn seilwaith arall ar y fferm, fel tai anifeiliaid, ni fyddai'r storfa o reidrwydd yn arwain at fwy o drosiant i'r busnes. Felly, mae diffyg cymhelliad economaidd i ffermwyr fuddsoddi mewn offer a chyfleusterau o'r fath a oedd yn gofyn am arian gan y llywodraeth i'w cefnogi.

Methiant arall yn y farchnad y mae'r GCC yn mynd i'r afael ag ef yw'r allanoldeb negyddol sy'n gysylltiedig â llygredd amaethyddol. Gall effaith negyddol llygredd amaethyddol ar ansawdd dŵr a bywyd gwyllt fod yn sylweddol ac yn eang, gan effeithio nid yn unig ar yr amgylchedd uniongyrchol, ond hefyd ar ddefnyddwyr i lawr yr afon o'r cyflenwad dŵr. Ceisiodd y GCC roi cymhelliad i ffermwyr a busnesau fferm fabwysiadu arferion mwy cynaliadwy a oedd yn lleihau lefel y llygredd ac yn gwella iechyd yr amgylchedd.

Yn achos penodol cymorth grant ar gyfer cydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, mae rhwymedigaethau gorfodol i uwchraddio cyfleusterau ac offer yn sydyn yn tynnu sylw at atalyddion methiant y farchnad o gyllid preifat. O ganlyniad, mae cynnig cymorth grant yn fecanwaith ar gyfer cynorthwyo busnesau fferm presennol i addasu (yn gyson ag amcanion polisi ynghylch cystadleurwydd a gwydnwch), a thrwy hynny yn osgoi tarfu eang ar y sector yn y tymor byr.

Wedi'i fynegi fel model rhesymeg ThN, mae cyllid cyhoeddus yn cynrychioli mewnbwn a lefel cyfanswm buddsoddiad (cyhoeddus a phreifat) gweithgaredd sy'n cynhyrchu allbynnau ar ffurf data, seilwaith ac offer, ac mae'r buddion a gynhyrchir gan allbynnau yn ganlyniadau. Ceisir nifer o fanteision penodol, a'r dybiaeth yw y bydd buddsoddiadau'n gwella rheolaeth amgylcheddol a pherfformiad dilynol. Er enghraifft, tybir bod gwell storfa slyri ac offer taenu yn arwain at well rheolaeth o faetholion. Roedd gwneud gwell defnydd o faetholion fferm a thail organig hefyd yn lleihau angen y busnes i brynu gwrtaith.

Mae Tabl 3.2 yn crynhoi'r llwybrau effaith o fewnbwnau'r cynllun (Ffenestri 4–7) i allbynnau a chanlyniadau, ochr yn ochr â rhagdybiaethau allweddol a ffactorau allanol a allai effeithio ar effeithiolrwydd y cynllun.

Tabl 3.2: ThN ar gyfer Ffenestri 4–7 y GCC

Nodau ac Amcanion	Mewnbynnau ac adnoddau	Gweithgareddau	Allbwn	Canlyniadau tymor byr	Canlyniadau tymor canolig	Canlyniadau hirdymor
Lleihau allyriadau maetholion i'r aer, pridd a dŵr	Cyfraniad cyllid cyhoeddus tuag at fuddsoddi mewn cyfleusterau ac offer Darparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant	Buddsoddiad cyhoeddus a phreifat cyfun Nifer y mynegiannau o ddiddordeb a dderbyniwyd Nifer y contractau a gynigiwyd Nifer y cynlluniau busnes	Seilwaith ac offer fferm gyda'r potensial i hwyluso gwell perfformiad amgylcheddol Nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus	Mwy o ymwybyddiaeth o amcanion a gallu i fynd i'r afael â nhw	Gwell rheolaeth o faetholion ar y fferm gan arwain at lai o lwytho llygryddion Cydymffurfio â gofynion capasiti storio slyri Rheoliadau erbyn 2024	Gwell ansawdd aer, dŵr a phridd Gwell gwydnwch busnes trwy gynyddu effeithlonrwydd adnoddau ar y fferm Lleihau llygredd ar y fferm Cynyddu effeithlonrwydd adnoddau ar y fferm

Tabl 3.2.1: ThN estynedig ar gyfer Ffenestri 4 i 7 y GCC

Tybiaethau	Ffactorau allanol
Mae methiannau'r farchnad yn atal buddsoddiad preifat hyd yn oed ym mhresenoldeb rhwymedigaethau lle mae pawb ar eu hennill a / neu rwymedigaethau rheoleiddio, a gall cefnogaeth y cyhoedd wrthsefyll methiannau o'r fath. Bydd buddsoddiadau'n hwyluso newidiadau priodol mewn rheoli maetholion i sicrhau'r enillion amgylcheddol a ddymunir.	Polisi amaethyddol ehangach Mewnbynnau ac allbynnau amaethyddol ac amodau'r farchnad Marchnadoedd carbon a bioamrywiaeth sector preifat Newid hinsawdd COVID-19 Risg o golled i'r gweithlu gydag offer mwy effeithlon Cyrchu arian cyfatebol

3.3. Rhagdybiaethau a Dibyniaethau Theorïau Newid

Mae dwy ragdybiaeth allweddol yn sail i'r modelau rhesymeg ar gyfer Ffenestri 1–3 a Ffenestri 4–7. Yn gyntaf, ni fyddai buddsoddiadau (neu gyfran ohonynt o leiaf) wedi digwydd heb gefnogaeth y cyhoedd (h.y. nid yw difuddiant yn ormodol). Mewn geiriau eraill, mae'n tybio bod buddsoddiad preifat yn cael ei rwystro gan fethiannau'r farchnad sy'n gofyn am ymyrraeth gyhoeddus, hyd yn oed lle mae buddion preifat yn cronni o fuddsoddiad (e.e., arbedion cost trwy reoli maeth yn well) a/neu fuddsoddiad i bob pwrpas yn rhwymedigaeth reoleiddio (h.y. trin slyri o dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021).

Yn ail, bod eitemau buddsoddi cymwys yn gallu cyflawni gwelliannau amgylcheddol ac y byddant yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r olaf yn ei gwneud yn ofynnol i dderbynwyr grantiau ddefnyddio buddsoddiadau, sy'n awgrymu rhywfaint o newid ymddygiadol i gyd-fynd â newid seilwaith fferm.

Yn ogystal, mae ffactorau allanol a allai ddylanwadu (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar fanteision net cymorth grant yn cynnwys yr effaith ar broffidioldeb fferm a rheoli amodau polisi a marchnad ehangach ynghyd â datblygiadau sector preifat mewn perthynas â thaliadau neu amodau cytundebol ar gyfer perfformiad amgylcheddol. Ar gyfer Ffenestri 4–7, gall COVID-19 a dod o hyd i arian cyfatebol hefyd ddylanwadu ar gyflawni'r GCC.

3.4. Cwestiynau gwerthuso

- I ba raddau mae'r eitemau cymwys yn addas ar gyfer anghenion busnesau fferm?
- I ba raddau mae'r GCC yn ategu'r cynlluniau grant eraill a gynigir gan y Rhaglen Datblygu Gwledig / Llywodraeth Cymru?
- I ba raddau mae'r cymorth a gynigiwyd drwy'r GCC yn cynrychioli gwerth am arian?
- Pa wersi a ddysgwyd a pha argymhellion ar gyfer y GCC cyfredol a chynlluniau tebyg yn y dyfodol y gellir eu cynnig o'r asesiad o'r GCC?
- A wnaeth busnesau a gefnogwyd gyflawni'r amcanion a nodwyd yn eu cynllun busnes pum mlynedd?
- A wnaeth y buddsoddiad gyfrannu at ddatblygiad y busnes?
- A oedd cynlluniau busnes yn realistig ac a wnaeth yr angen i ddatblygu cynllun busnes pum mlynedd effeithio ar y penderfyniadau busnes dilynol?
- O'r ffermydd a lwyddodd i ddatblygu eu cynlluniau busnes (datblygiad sylweddol) beth oedd nodweddion y ffermydd hyn? (A oeddent yn meincnodi? A oeddent yn diweddarau eu cynlluniau busnes? Beth oedd rôl cyngorwyr allanol ac ati?)
- Ydy'r ffermydd yn fwy gwydn yn dilyn buddsoddiad?
- A oedd y costau cyfalaf terfynol yn unol â'r rhai a gynigiwyd yn y cynllun busnes?
- A oedd yr amcanestyniadau ariannol a'r elw a ragwelwyd ar gyfer y fenter yn unol â'r rhai a ragwelwyd yn y cynllun busnes?
- O ystyried y gwelliant i'r busnes, a ellid bod wedi buddsoddi heb y cymorth grant?

3.5. Y fframwaith cyffredinol

Gan gysylltu â'r Theoriâu Newid a dulliau gwerthuso, mae Tabl 3.3 a 3.4. isod yn nodi'r cwestiynau gwerthuso allweddol a'r dulliau casglu a dadansoddi data ar gyfer ateb y cwestiynau.

Tabl 3.3: Y fframwaith gwerthuso a ffynonellau data ar gyfer Ffenestri 1–3 y GCC

	Ffynonellau data	Dangosyddion	Dulliau
Effaith	• Dogfennau data monitro'r GCC • Cynlluniau busnes presennol • Arolwg ar-lein o ymgeiswyr y cynllun (o brosiectau wedi'u cwblhau yn Ffenestri 1–3) • Data'r Cyfveliadau Manwl	• Cynllun busnes wedi'i ffurfio • Amcanion yn y cynllun busnes pum mlynedd yn realistig • Effaith (amnewid/uwchraddio) • Effaith (gwella mewn rheoli fferm; mwy o ddefnydd o ddulliau ffermio arloesol; gwell effeithlonrwydd adnoddau; gwell gwydnwch; gwell cynhyrchiant) • Effaith (lleihau allyriadau a llygredd; gwell iechyd a lles anifeiliaid) • Gwerth am arian	• Dadansoddiad o'r arolwg ar-lein (ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus) o Ffenestri 1–3 yn ôl y math o eitemau mwyaf/lleiaf poblogaidd a demograffeg fferm • Cymariaethau rhwng ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus mewn perthynas â • Cyfveliadau manwl i ddeall pam a sut y gweithiodd cymorth y cynllun yn dda/llai cystal
Proses	• Cyfveliadau â rhanddeiliaid allweddol (hyd at chwe swyddog LIC oedd a wnelo â dylunio a chynllunio'r cynllun). • Arolygon ar-lein • Cyfveliadau manwl	• Nifer y ceisiadau (llwyddiannus / aflwyddiannus) yn ôl math o eitem, math o fferm, maint, rhanbarth ac ati. • Cost gweithredu'r rhaglen gan gynnwys costau gweinyddol • Hyrwyddo'r cynllun • Y broses ymgeisio • Y broses hawlio	• Dadansoddiad o ddata monitro'r GCC yn ôl math / amcanion yr eitem gyfalaf, yn ôl math a maint y fferm, rhanbarth, ac ati. • Dadansoddiad data o arolygon ar-lein gan ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus i ddangos gwahaniaeth • Dadansoddiad o'r cyfveliadau manwl gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus i nodi'r prif ffactorau ar gyfer gwneud y mwyaf o effaith cynllun y GCC.

Tabl 3.4: Y fframwaith gwerthuso a ffynonellau data ar gyfer Ffenestri 4–7 y GCC

	Ffenestri 4–7		
Cwestiynau gwerthuso	• A yw'r gofynion monitro ar gyfer busnesau fferm yn ddigonol i sefydlu gwaelodlin i asesu effaith amgylcheddol y grant? • I ba raddau mae'r grant wedi cefnogi agweddau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol cynaliadwyedd a gwydnwch fferm? • Beth yw'r gyrwyr sydd wedi arwain busnesau fferm i gael mynediad at y GCC? • I ba raddau y mae dewis o iaith a'i defnydd yn ffactor mewn lefelau ymgysylltu â'r GCC? • Pa mor effeithiol y bu Ffenestr 7, yn benodol, wrth alluogi ffermwyr i gydymffurfio â gofynion capasiti storio slyri y Rheoliadau erbyn 1 Awst 2024?		
	Ffynonellau data	Dangosyddion	Dulliau
Effaith	• Cyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol (hyd at chwech) • Dogfennau a data monitro'r GCC • Grwpiau ffocws	• Effaith sylfaenol ar ddangosyddion amgylcheddol (allyriadau, llygredd, iechyd a lles anifeiliaid) • Gwell hyder i gydymffurfio â'r gofynion o ran capasiti storio slyri • Gwell cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran capasiti storio slyri • Effeithiau disgwyledig ar agweddau economaidd (gwell effeithlonrwydd, rheolaeth a pherfformiad, ac ati), cymdeithasol (hyder, rhwydweithio, ac ati) ac amgylcheddol (allyriadau a llygredd)	• Cymariaethau rhwng ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus mewn perthynas â phrosesau ac effeithiau disgwyledig • Cyfweiliadau manwl i ddeall pam a sut y credwyd bod cymorth y cynllun yn cyflawni'r canlyniadau disgwyledig trwy ddadansoddiad thematig, dadansoddiad ansoddol cymharol • Dadansoddi data a gasglwyd drwy drafodaethau grŵp ffocws gan ddefnyddio dadansoddiad thematig
Proses	• Arolwg (50 ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus a 140–150 ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus) • Cyfweiliadau manwl (10) • Grwpiau ffocws	• Y broses ymgeisio • Y broses hawlio	• Cymharu ymgeiswyr llwyddiannus ac ymgeiswyr aflwyddiannus • Dadansoddiad thematig o gyfweiliadau manwl / grwpiau ffocws

	Cyfweliadau cwmpasu gyda rhanddeiliaid allweddol (6)		
--	--	--	--

4. Arolwg ar-lein o ymgeiswyr y GCC

Cynhaliwyd arolwg ar-lein i gasglu adborth gan ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus cynllun y GCC. Nod yr arolwg oedd casglu safbwyntiau o brofiadau'r ymgeiswyr, yr heriau a wynebwyd ganddynt, a'u boddhad cyffredinol â'r broses ymgeisio a'r canlyniadau. Drwy ymgysylltu ag ymgeiswyr, ceisiodd yr arolwg nodi meysydd i'w gwella a gwerthuso effeithiolrwydd y cynllun wrth gyflawni ei amcanion. Mae'r adran ganlynol yn manylu ar fethodoleg yr arolwg, canfyddiadau allweddol, a safbwyntiau a ddeilliodd o'r ymatebion.

4.1. Trosolwg

Derbyniodd yr arolwg 100 o ymatebion gan ymgeiswyr llwyddiannus grantiau'r GCC a 56 gan ymgeiswyr aflwyddiannus. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ffermwyr bach, heb lawer o staff.

Roedd gan y mwyafrif o ymatebwyr drosiant blynyddol o fwy na £100,000, gyda 75% o'r ymgeiswyr llwyddiannus a 72% o'r ymgeiswyr aflwyddiannus yn yr ystod hon. At ei gilydd, roedd gan yr ymgeiswyr llwyddiannus drosiant uwch, gyda 36% yn ennill dros £500,000 o'i gymharu â 24% o'r ymgeiswyr aflwyddiannus.

Trwy wasanaethau Llywodraeth Cymru y daeth y nifer mwyaf o ffermwyr i wybod am y grant (58% o'r ymgeiswyr llwyddiannus; 65% o'r ymgeiswyr aflwyddiannus). Nododd yr ymgeiswyr llwyddiannus iddynt gael gwybod gan ymgynghorwyr a ffrindiau hefyd. Ceisiodd yr ymgeiswyr llwyddiannus gymorth gan gynghorwyr yn aml (79%), tra na wnaeth y mwyafrif o'r rhai aflwyddiannus (52%) hynny. Derbyniodd yr ymgeiswyr llwyddiannus gymorth yn bennaf wrth baratoi cynlluniau busnes (66%), cwblhau ceisiadau (55%), a darparu gwybodaeth ategol (53%),

Defnydd cyffredin o gyllid y GCC ymhlith y ddau grŵp oedd ar gyfer storio slyri, tai da byw, a lles anifeiliaid, er bod yr ymgeiswyr llwyddiannus yn adrodd canrannau uwch ym mhob categori. Roedd mwy o'r ymgeiswyr aflwyddiannus wedi bwriadu defnyddio'r grant ar gyfer ynni adnewyddadwy, ond cyfyngir y canlyniad hwn gan faint bach y sampl.

O ran effaith economaidd, nododd yr ymgeiswyr llwyddiannus fwy o werthiannau, trosiant ac elw oherwydd y GCC, gyda dros hanner ohonynt yn rhagweld neu'n gweld cynnydd mewn gwerthiannau. Roedd yr ymgeiswyr llwyddiannus hefyd yn gweld buddion yn gysylltiedig â gwaith, megis tasgau haws a gwell effeithlonrwydd, tra nododd y rhai aflwyddiannus lai o fuddion. Mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu ychwanegedd uchel y cynllun. Mae ffactorau allanol fel COVID-19 a Brexit wedi effeithio'n negyddol ar weithredu prosiectau'r ymgeiswyr llwyddiannus.

Ymhlith y rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen â buddsoddiadau roedd diffyg cyllid a gwybodaeth dechnegol. Aeth rhai ymgeiswyr aflwyddiannus ymlaen heb y grant, yn aml i wella effeithlonrwydd neu ddiwallu anghenion hanfodol y fferm.

Mynegodd y ddau grŵp ragolygon busnes tebyg, gyda chynlluniau i dyfu eu busnesau yn raddol dros amser. Fodd bynnag, roedd ymgeiswyr aflwyddiannus yn wynebu mwy o ansicrwydd, gan nodi newid hinsawdd a chostau cynyddol fel pryderon.

4.2. Proffil Ymatebwyr yr Arolwg

4.2.1. Nifer yr Ymatebwyr

Derbyniwyd cyfanswm o 100 o ymatebion gan fusnesau a elwodd o'r GCC a 56 gan y rhai na elwodd.

Tabl 4.1: Cyfradd ymateb yr arolwg o'i chymharu â thargedau

Math o ymatebwr	Poblogaeth	Sampl targed	Cyflawnwyd	% o'r targed a gyflawnwyd	% o'r boblogaeth a gyflawnwyd
Ymgeiswyr llwyddiannus (Ffenestri 1–3)	67	16	19	119%	28%
Ymgeiswyr llwyddiannus (Ffenestri 4–7)	427	127	81	64%	19%
Ymgeiswyr llwyddiannus pob ffenestr (busnesau unigryw)	481	143	100	70%	21%
Ymgeiswyr aflwyddiannus	685*	57–90	56	98%**	8%**

Ffynhonnell: Cronfeydd data monitro'r GCC gan Taliadau Gwledig Cymru ac arolygon ar-lein a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

Noder *: Gwrthodwyd y mwyafrif o'r 685 o geisiadau hyn yn y cam Mynegiant o Ddiddordeb a dim ond 81 o'r ceisiadau hyn aeth ymlaen i'r cam gwerthuso. Roedd disgwyl cyfradd ymateb isel i'r grŵp hwn gan mai dim ond ychydig o ymgysylltu â'r cynllun a gafwyd gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr hyn, ar ôl cael eu gwrthod yn gynnar yn y broses. O ganlyniad, efallai eu bod wedi teimlo'n llai tueddol o gymryd rhan yn yr arolwg, gan na wnaethant symud ymlaen i gamau mwy sylweddol y cynllun.

Noder **: canran o'r terfyn isaf.


Ar gyfer arolwg yr ymgeiswyr llwyddiannus, atebodd cyfanswm o 89 ymatebydd fel ffermwyr; 10 fel ymgynghorwyr a ffermwyr, a dim ond 1 ymatebodd fel ymgynghorydd yn unig. Ar gyfer arolwg yr ymgeiswyr aflwyddiannus, atebodd 51 ymatebydd fel ffermwyr, 3 fel ymgynghorwyr a ffermwyr, a 2 fel ymgynghorwyr yn unig. Adroddwyd ar ganlyniadau'r arolwg cyfanredol ar gyfer busnesau fferm ac adroddwyd ar ganlyniadau'r ymatebwyr ymgynghorol ar wahân lle bo'n berthnasol.

4.2.2. Trosiant blynyddol

Roedd gan y mwyafrif o'r ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus drosiant blynyddol o dros £100,000 (gweler Ffigur 4.1); roedd 75% o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn y categori hwn, a 72% o'r rhai aflwyddiannus. At ei gilydd, mae'r trosiant a adroddwyd yn tueddu i fod yn fwy ar gyfer busnesau yr ymgeiswyr llwyddiannus o'i gymharu â'r rhai aflwyddiannus. Mae'n werth nodi bod y cynllun hwnnw wedi'i lansio yn ystod cyfnod o ansicrwydd ynghylch y PAC a Brexit. Roedd diffyg hyder yn y dyfodol wedi atal llawer, yn enwedig ffermydd llai, rhag bwrw ymlaen â'u buddsoddiad.

Roedd gan dros draean (36%) o'r ymgeiswyr llwyddiannus drosiant blynyddol o dros £500,000, o'i gymharu â 24% o'r ymgeiswyr aflwyddiannus yn y cromfachau hyn. Roedd gan dros un rhan o bump (20%) o'r ddau grŵp drosiant blynyddol o £250,000 i £500,000. Dim ond 19% o'r ymgeiswyr llwyddiannus oedd â throsiant blynyddol rhwng £100,000 a £250,000, o'i gymharu â 28% o'r ymgeiswyr aflwyddiannus. Roedd gan nifer tebyg o ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus drosiant rhwng £75,000 a £100,000 (7% a 9% yn y drefn honno) a rhwng £50,000 a £75,000 (5% a 4% yn y drefn honno). Fodd bynnag, roedd gan 11% o'r ymgeiswyr aflwyddiannus drosiant blynyddol rhwng £25,000 a £50,000 o'i gymharu â dim ond 1% o'r ymgeiswyr llwyddiannus. Nid oedd gan yr un ymgeisydd llwyddiannus drosiant blynyddol rhwng £10,000 a £25,000, tra bo gan 2% o'r ymgeiswyr aflwyddiannus drosiant o'r fath.

Ffigur 4.1: Trosiant blynyddol ymatebwyr a oedd yn ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus



Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

4.2.3. Nifer y staff

Mae Tabl 4.2: yn dangos nifer y staff a gyflogir gan yr ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus. Er bod rhywfaint o amrywiaeth yn y niferoedd, mae gan y mwyafrif o'r ddau grŵp o ymatebwyr lai na 3 aelod staff.

Ffermydd llai oedd yr ymatebwyr gan mwyaf, gyda busnesau mwy yn gymharol anghyffredin. Roedd bron i hanner yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus yn cyflogi 2 i 3 aelod staff amser llawn, gan nodi gweithlu ar raddfa fach yn bennaf. Dim ond un gweithiwr amser llawn oedd gan bron traean o'r ddau grŵp, gan ddangos llawer o weithrediadau bach. Roedd tua chwarter yr ymgeiswyr llwyddiannus ac un rhan o bump o'r rhai aflwyddiannus yn cyflogi dim ond un aelod o staff rhan-amser.

Tabl 4.2: Nifer y staff amser llawn a rhan-amser a gyflogir gan yr ymatebwyr

Nifer y staff	Staff amser llawn		Staff rhan-amser	
	Ymgeiswyr llwyddiannus (n = 99)	Ymgeiswyr aflwyddiannus (n = 54)	Ymgeiswyr llwyddiannus (n = 99)	Ymgeiswyr aflwyddiannus (n = 54)
Dim	3	6	2	4
1	16	17	14	11
2 i 3	29	27	19	15
4 i 5	9	7	7	7
6 i 10	2	2	1	2
11 i 20	0	2	1	2
21 i 50	0	2	0	1
51 i 100	0	0	0	0
101 i 250	1	0	1	0
Dros 251	1	0	1	0
Dim ateb	38	36	46	12
Cyfanswm	99	99	92	54


Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

4.3. Ymgeisio am y grant

4.3.1. Sut y daeth pobl yn ymwybodol o'r grant?

Nododd yr ymgeiswyr llwyddiannus (58%) a'r rhai aflwyddiannus (65%) mai gwasanaethau Llywodraeth Cymru fel Cyswllt Ffermio, Gwlad a'r wefan swyddogol oedd sut y daethant yn ymwybodol o'r GCC. Nododd ymgeiswyr llwyddiannus ymgynghorwyr/asiantau (22%) a ffrindiau/cymdogion (15%) ymhellach fel ffynonellau pwysig eraill. Nododd yr ymgeiswyr aflwyddiannus eu bod wedi dod i wybod am y GCC drwy erthyglau yn y wasg (26%) ac ymgynghorwyr/asiantau (13%).

Ffigur 4.2: Sut y daeth ymatebwyr yn ymwybodol o'r GCC?



Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

4.3.2. Cymorth a gafwyd a chost/amser gwneud ceisiadau

Cafodd mwyafrif (79%) yr ymgeiswyr llwyddiannus gymorth gan gynghorwyr neu ymgynghorwyr gyda'r cais, ond ni chafodd mwyafrif (52%) y rhai aflwyddiannus hynny.

Cafodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr llwyddiannus gymorth ar gyfer tair agwedd ar y broses ymgeisio:


- Paratoi'r cynllun busnes (66%)
- Llenwi'r ffurflen gais (55%)
- A darparu gwybodaeth ategol (53%)

Y tair agwedd hyn yr oedd yr ymgeiswyr aflwyddiannus yn fwyaf tebygol o gael cymorth gyda nhw, er mewn trefn wahanol. Llenwi'r ffurflen gais oedd yr agwedd fwyaf cyffredin (35%); yna paratoi cynllun busnes (33%) a darparu'r wybodaeth ategol (20%).

Cafodd nifer sylweddol o ymgeiswyr llwyddiannus help hefyd gydag agweddau eraill megis deall y meini prawf cymhwysedd (42%), deall y ffurflen gais (39%), a datrys problemau cymhwysedd (31%), ond ychydig iawn o'r ymgeiswyr aflwyddiannus gafodd cymorth o'r fath (17%, 15% a 17% ar gyfer y tair agwedd hyn yn y drefn honno).

Yn ôl y canlyniadau, ymddengys fod yr ymgeiswyr llwyddiannus yn fwy parod ac yn tueddu i geisio mwy o gymorth ar wahanol agweddau pwysig ar y broses ymgeisio na'r ymgeiswyr aflwyddiannus.

Ffigur 4.3: Pa gymorth a gafodd yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus wrth ymgeisio am y grant?



Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

4.4. Profiad yr ymgeiswyr aflwyddiannus o'r grant

4.4.1. Y defnydd arfaethedig o'r GCC

Roedd yr ymgeiswyr aflwyddiannus wedi bwriadu defnyddio'r GCC am amrywiaeth o bethau, er roedd y tri chategori hyn yn arbennig o gyffredin. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr aflwyddiannus wedi bwriadu ei ddefnyddio ar gyfer storfeydd slyri (25/54 neu 46%), tai a chyfleusterau trin da byw (24/54 neu 44%), ac ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid (21/54 neu 39%). Y tri chategori hyn hefyd oedd y defnyddiau mwyaf cyffredin ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y GCC, gyda 52% wedi defnyddio'r grant ar storfeydd slyri, 40% ar gyfer tai a chyfleusterau trin da byw, a 32% ar gyfer gwella iechyd a lles anifeiliaid.

Roedd y defnyddiau mwyaf cyffredin nesaf naill ai ar gyfer storfeydd cnydau neu silwair, a rheoli pridd a chnydau. Roedd cyfran uwch o ymgeiswyr aflwyddiannus yn bwriadu defnyddio'r grant ar gyfer ynni adnewyddadwy o'u cymharu ag ymgeiswyr llwyddiannus y cynllun. Fodd bynnag, mae angen dehongli'r canlyniad hwn yn ofalus gan fod nifer yr ymatebwyr a oedd yn perthyn i'r grŵp hwn yn fach iawn.

Tabl 4.3: Y defnydd a fwriadwyd o'r GCC

Defnydd a fwriadwyd	Ymgeiswyr aflwyddiannus (n = 54)
Storio slyri	25
Tai a chyfleusterau trin da byw (Ffenestri 1–3)	24
Iechyd a lles anifeiliaid	21
Storio cnydau	6
Silwair	6
Rheoli pridd a chnydau	5
Cynhyrchu ynni adnewyddadwy	4
Arall (nodwch)	4


Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr aflwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

4.4.2. Rheswm dros beidio â pharhau â'u prosiectau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr aflwyddiannus raddio'r rhesymau pam na wnaethant barhau â'u cynllun ar raddfa o 1 (ddim yn berthnasol o gwbl) i 5 (perthnasol iawn) ar ôl bod yn aflwyddiannus gyda'u ceisiadau. Diffyg cyllid/mynediad at gredyd oedd y rheswm mwyaf perthnasol gyda chyfartaledd o 4.1, ac yna diffyg gwybodaeth dechnegol neu gymorth (3.2). Roedd diffyg gwybodaeth busnes neu gymorth (2.6) a heb wybod ble i ddechrau (2.5) yn cael eu hystyried yn rhesymau llai perthnasol ar gyfartaledd.

Dewiswyd 'Arall' hefyd fel rheswm pam na wnaethant barhau â'u prosiectau. Ar gyfartaledd, nododd 2.8 o ymgeiswyr aflwyddiannus a roddodd fanylion am ddewis yr opsiwn bethau fel costau cynyddol, salwch teulu a cheisiadau cynllunio fel rhai o'r rhesymau pam na wnaethant barhau.

Ffigur 4.4: Rhesymau pam na wnaeth ymgeiswyr aflwyddiannus barhau â'u cynlluniau (n = 54)



Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr aflwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

4.5. Profiad ymgeiswyr llwyddiannus o hawlio'r grant

4.5.1. Pwy hawliodd y cymorth grant?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr llwyddiannus a ymatebodd i'r arolwg wedi hawlio'r cymorth grant yn llawn (73 allan o 99). Roedd ymgeiswyr llwyddiannus eraill naill ai wedi hawlio peth o'r grant (16 allan o 99) neu heb ei hawlio eto (10 allan o 99).

Tabl 4.4: Nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus sydd wedi hawlio'r GCC

Categori	Nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus
Ie, y cyfan	73
Ie, peth ohono	16
Na	10
Cyfanswm	99

Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

Ni chafodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr llwyddiannus a ymatebodd i'r arolwg unrhyw help i weithredu'r buddsoddiad (75 allan o 99). O'r rhai a dderbyniodd gymorth i weithredu eu buddsoddiad, gwnaethant nodi'r canlynol: benthyciadau banc (7 allan o 24), contractwyr (5 allan o 24) a chynghorwyr/ymgyngorwyr (4 allan o 24).

Tabl 4.5: A gafodd yr ymgeiswyr llwyddiannus gymorth i weithredu eu buddsoddiad?


Categori	Nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus
Ie	24
Na	75
Cyfanswm	99

Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

4.5.1.1. Y broses hawlio

Gofynnwyd i ymgeiswyr llwyddiannus raddio o 1 (anghytuno'n gryf) i 5 (cytuno'n gryf) ddatganiadau ynghylch broses hawlio'r GCC (Ffigur 4.5). Ar gyfartaledd, roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr llwyddiannus naill ai'n cytuno (29%) â'r datganiadau neu'n niwtral (25%). Y datganiad y cytunodd yr ymgeiswyr llwyddiannus ag ef fwyaf oedd bod yr amser i brosesu'r hawliad yn rhesymol (11%). Y datganiad yr anghytunodd yr ymgeiswyr llwyddiannus ag ef fwyaf oedd bod y broses hawlio yn syml (18%).

Ffigur 4.5: Datganiadau a raddiwyd gan yr ymgeiswyr llwyddiannus o 1 (anghytuno'n gryf) i 5 (cytuno'n gryf) ynghylch proses hawlio'r GCC (N = 98)



Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

4.6. Effaith y grant neu'r buddsoddiad

Holwyd yr ymatebwyr a oedd yn ymgeiswyr llwyddiannus (N = 99) ac aflwyddiannus (a aeth ymlaen gyda'r buddsoddiad heb y grant) am effaith y buddsoddiad ar gyflogaeth, gwerthiannau, trosiant, elw a chostau masnachu eu busnesau fferm. Cymharwyd canlyniadau'r ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus i ddangos effaith ychwanegol y gellir ei phriodoli i'r cynllun CCA.

4.6.1. Effeithiau ar swyddi a busnesau

Dangosodd Tabl 4.6 fod ymgeiswyr llwyddiannus yn ystyried bod y grant yn bennaf yn gwneud tasgau'n haws neu'n llai heriol yn gorfforol i'r ffermwyr (33%), ac yn gwella effeithlonrwydd o ran swyddi (21%). Dywedodd ffermwyr eraill nad oedd y grant wedi cael unrhyw effaith ar swyddi o fewn eu busnes (15%). Soniodd rhai ffermwyr hefyd am yr effaith yr oedd disgwyl i'r grant ei chael ar ddiogelu (13%) neu gynyddu swyddi (12%).

O ran yr ymgeiswyr aflwyddiannus (10 allan o 54) a aeth ymlaen â'r buddsoddiad heb gymorth grant, nodwyd ei fod wedi gwella effeithlonrwydd o ran swyddi (7%). Er, soniodd eraill fod swyddi wedi gostwng (4%) neu na chafodd unrhyw effaith (4%) ar swyddi yn eu busnes.

Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu ychwanegedd cymharol uchel y cynllun. O'u cymharu â'r ymgeiswyr aflwyddiannus, roedd cynllun y GCC wedi rhoi buddion ychwanegol i ymgeiswyr llwyddiannus o ran cynyddu neu ddiogelu swyddi, gwella effeithlonrwydd swyddi, a gwneud tasgau'n haws neu'n llai heriol yn gorfforol a/neu'n golygu eu bod yn cymryd llai o amser.

Tabl 4.6: A yw'r grant (ymgeiswyr llwyddiannus) o'i gymharu â'r buddsoddiad (ymgeiswyr aflwyddiannus) wedi cael unrhyw effaith ar swyddi yn eich busnes?

Categoriâu	Ymgeiswyr llwyddiannus (%) (n=99)	Ymgeiswyr aflwyddiannus (%) (n=54)
Gwneud tasgau'n haws / llai o ymdrech gorfforol a/neu lai o amser	33%	2%
Gwell Effeithlonrwydd o ran swyddi	21%	7%
Dim effaith	15%	4%
Mae disgwyl y bydd swyddi'n cael eu diogelu	13%	0%
Cynnydd mewn swyddi	12%	2%
Swyddi wedi'u diogelu*	3%	2%
Gwell effeithlonrwydd o ran swyddi	1%	2%
Disgwyl i swyddi gynyddu	1%	0%
Swyddi wedi gostwng	0%	4%
Dim ateb	-	78%

Ffynhonnell: Arolygon ar gyfer yr ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

Noder: * 'Swyddi wedi'u diogelu' yw lle y gwyddys bod swyddi mewn perygl dros y 12 mis nesaf

4.6.2. Newidiadau i'r busnes o ganlyniad i'r grant/buddsoddiad

Cafodd yr ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus bedwar cwestiwn amlddewis ynghylch a oedd y prosiect/buddsoddiad wedi newid eu busnes o ganlyniad (Tabl 4.7).

- Gwerthiannau – Roedd cyfanswm o 51% o'r ymgeiswyr llwyddiannus ac 11% o'r rhai aflwyddiannus naill ai wedi gweld cynnydd neu'n disgwyl gweld cynnydd mewn gwerthiannau, tra nododd 42% o'r ymgeiswyr llwyddiannus a 9% o'r rhai aflwyddiannus 'ddim newid'.
- Elw – Nododd ymgeiswyr llwyddiannus eu bod yn disgwyl gweld cynnydd (41%) yn eu helw o'u prosiect/buddsoddiad. Nododd ymgeiswyr llwyddiannus eraill eu bod wedi gweld cynnydd gwirioneddol (22%). Nododd canran llawer is o'r ymgeiswyr aflwyddiannus eu bod yn disgwyl gweld cynnydd (6%) neu wedi gweld cynnydd gwirioneddol (7%).
- Costau masnachu – ar gyfer yr ymgeiswyr llwyddiannus, y ddau ateb mwyaf poblogaidd oedd 'Dim newid' (26%) a 'Disgwyl gostyngiad' (20%). Nododd y rhai aflwyddiannus gynnydd (7%).
- Trosiant – Roedd yr ymgeiswyr llwyddiannus a nododd eu bod naill ai wedi gweld cynnydd neu'n disgwyl gweld un yn cynnwys 51% o'r ymatebion; o ran yr ymgeiswyr aflwyddiannus, roedd yn cynnwys 10% o'r ymatebion. Yr ymateb mwyaf poblogaidd ymhlith yr ymgeiswyr llwyddiannus (40%) ac aflwyddiannus (7%) oedd 'dim newid'.

Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod cynllun y GCC wedi cael effaith economaidd gadarnhaol ar y busnesau a gefnogwyd o ran cynyddu gwerthiant, trosiant a lefelau elw, neu ostyngiad mewn costau masnachu. Fodd bynnag, mae lefel y newidiadau neu'r newidiadau a ragwelir a adroddwyd gan yr ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus yn debyg. Nid yw'r newidiadau a ragwelir (cynnydd neu ostyngiadau) yn newidiadau gwirioneddol ond yn hytrach yn newidiadau y mae ymatebwyr yn eu disgwyl yn y dyfodol ar gyfer prosiectau nad ydynt wedi'u cwblhau na bwrw ymlaen â nhw.

Tabl 4.7: Sut y newidiodd busnesau fferm o ganlyniad i'r prosiect/buddsoddiad?

Categoriâu	Gwerthiannau	Elw	Costau masnachu	Trosiant
Ymgeiswyr llwyddiannus (n = 99)				
Wedi cynyddu	26%	22%	11%	25%
Disgwyl cynnydd	25%	41%	15%	26%
Wedi gostwng	0%	5%	19%	1%
Disgwyl gostyngiadau	0%	1%	20%	2%
Dim newid	42%	24%	26%	40%
Dim ateb	6%	6%	8%	5%
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%
Ymgeiswyr aflwyddiannus (n = 54)				
Wedi cynyddu	7%	7%	7%	6%
Disgwyl cynnydd	4%	6%	2%	4%
Wedi gostwng	2%	0%	4%	2%
Disgwyl gostyngiadau	0%	2%	4%	2%
Dim newid	9%	7%	4%	7%
Dim ateb	78%	78%	80%	80%
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%

Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

Pan ofynnwyd iddynt a oedd y grant wedi cael effaith fuddiol ar gynhyrchiant y fferm, nododd ymgeiswyr llwyddiannus yn bennaf ei fod wedi cael effaith fuddiol (71%). Nododd gweddill yr ymatebwyr a oedd yn ymgeiswyr llwyddiannus nad oedd y grant wedi gwella cynhyrchiant ar hyn o bryd, ond mae disgwyl iddo (20%). Nododd rhai eraill wedyn nad oedd wedi gwella cynhyrchiant o gwbl (8%).

O ran yr ymgeiswyr aflwyddiannus, aeth 12 (allan o 54) o ffermwyr ymlaen â'u prosiect heb y grant a gofynnwyd iddynt a oedd y buddsoddiad wedi gwella cynhyrchiant (Tabl 4.8). O'r 12 fferm, roedd 8 ohonynt yn ffermydd llaeth ac un yn fferm dda byw fawr (iseldir). Roedd ffermydd llaeth ac unedau biff mawr yn llai dibynnol ar y PAC ac roedd ganddynt fwy o hyder mewn buddsoddiadau yn y dyfodol i ehangu. O ran effaith y buddsoddiad, dywedodd 8 o bob 12 o'r ffermwyr ei fod wedi gwella cynhyrchiant (a nododd y gweddill fod disgwyl gwelliant i gynhyrchiant neu ddim effaith o gwbl). Mae canran yr ymgeiswyr aflwyddiannus a nododd welliant mewn cynhyrchiant (71%) yn is na'r ganran (15%) ar gyfer yr ymgeiswyr llwyddiannus.

Tabl 4.8: Barn ffermwyr ynghylch a oedd y buddsoddiad wedi gwella cynhyrchiant.

Categoriâu	Ymgeiswyr llwyddiannus (n = 99)	Ymgeiswyr aflwyddiannus (n = 54)
Ie	71%	15%
Na, ond mae disgwyl iddo wella cynhyrchiant	20%	4%
Na	8%	4%
Dim ateb	1%	78%

Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

4.6.3. Effaith ar fusnesau lleol

Roedd yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus wedi'u rhannu o ran eu hymwybyddiaeth o effaith eu prosiectau ar fusnesau lleol eraill. Dywedodd yr ymgeiswyr llwyddiannus a nododd eu bod yn ymwybodol o effaith eu prosiect (49%) eu bod wedi darparu cyflogaeth i gontractwyr/ymgynghorwyr lleol, wedi defnyddio deunyddiau lleol, ac wedi cefnogi'r gymuned leol.

Yn yr un modd, dywedodd y rhai aflwyddiannus a nododd effaith eu prosiectau ar fusnesau lleol eu bod hefyd wedi darparu gwaith i gontractwyr/cyflenwyr lleol ac wedi cynyddu trosiant eu ffermydd. Fe wnaeth hyn, yn ei droi, arwain at fwy o brynu gan gyflenwyr lleol.

Tabl 4. 9: Ymwybyddiaeth ffermwyr o unrhyw effeithiau gan eu prosiectau ar fusnesau lleol, boed yn gadarnhaol neu negyddol e.e. prynwyr neu gyflenwyr, contractwyr.

Categoriâu	Ymgeiswyr llwyddiannus (n = 99)	Ymgeiswyr aflwyddiannus (n = 12)
Ie	49%	50%
Na	49%	50%
Dim ateb	2%	-

Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.


4.7. Effaith y grant ar yr ymgeiswyr llwyddiannus

Gofynnwyd i ymgeiswyr llwyddiannus beth oedd prif amcanion y buddsoddiad ar gyfer eu fferm a gefnogwyd gan y GCC. Gofynnwyd iddynt a oeddent wedi cyflawni'r amcanion yn benodol p'un a oedd wedi'i gyflawni'n rhannol, gan mwyaf neu'n gyfan gwbl. Nododd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr llwyddiannus mai eu hamcan o'r buddsoddiad oedd gwella effeithlonrwydd cynhyrchu (77 allan o 99), lleihau llygredd o gynhyrchu amaethyddol (76 allan o 99), a chydymffurfio â'r rheoliad Adnoddau Dŵr (70 allan o 99).

- Er mwyn gwella effeithlonrwydd cynhyrchu (77 allan o 99), roedd 82% o'r ymgeiswyr llwyddiannus a ddewisodd hyn fel eu prif amcan naill ai wedi'i gyflawni gan mwyaf neu'n gyfan gwbl. Roedd cyfanswm o 14% ond wedi cyflawni'r amcan yn rhannol neu ddim o gwbl.
- Ar gyfer lleihau llygredd o gynhyrchu amaethyddol (76 allan o 99), roedd 92% o'r ymgeiswyr llwyddiannus a ddewisodd hyn fel eu prif amcan naill ai wedi'i gyflawni gan mwyaf neu'n gyfan gwbl. Roedd 8% naill ai wedi ei gyflawni'n rhannol neu ddim o gwbl.
- Ar gyfer cydymffurfio â'r rheoliad Adnoddau Dŵr (70 allan o 99), roedd 90% o'r ymgeiswyr llwyddiannus a ddewisodd hyn fel eu prif amcan naill ai wedi'i gyflawni gan mwyaf neu'n gyfan gwbl. Roedd cyfanswm o 10% naill ai wedi'i gyflawni'n rhannol neu ddim o gwbl.

At ei gilydd, roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr llwyddiannus, ar gyfartaledd, naill ai wedi cyflawni amcan y buddsoddiad a gefnogwyd gan y grant yn gyfan gwbl (41%) neu gan mwyaf (31%). Roedd cyfartaledd o 15% wedi ei gyflawni'n rhannol a 12% heb ei gyflawni. Ni chafwyd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng Ffenestri 1–3 a 4–7, yn bennaf oherwydd maint sampl Ffenestri 1–3 (nododd llai nag 20 o ymatebwyr fudd penodol). Er gwaethaf y diffyg arwyddocâd ystadegol, mae'n ymddangos bod canran uwch o ymgeiswyr llwyddiannus o Ffenestri 1–3 wedi adrodd bod eu hamcanion wedi'u cyflawni'n gyfan gwbl neu gan mwyaf o'u cymharu ag ymgeiswyr llwyddiannus o Ffenestri 4–7. Yr unig eithriad oedd sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliad Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol), lle nododd canran uwch o ymgeiswyr llwyddiannus Ffenestri 4–7 lwyddiant (h.y. cyflawnwyd yr amcan yn gyfan gwbl neu gan mwyaf).

Ffigur 4.6: Prif amcanion y buddsoddiad a gefnogwyd gan y GCC ar gyfer eu fferm




Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

Gofynnwyd i ymgeiswyr llwyddiannus a oedd y cynllun busnes a baratowyd ar gyfer cyllid y GCC wedi bod yn ddefnyddiol (Ffigur 4.7). Dywedodd y mwyafrif fod y cynllun busnes wedi bod yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn iddynt (71%). Roedd y rhai a oedd yn gweld y cynllun busnes yn ddefnyddiol iawn neu'n ddefnyddiol yn sôn yn bennaf am ei fanteision wrth greu ffocws ar gyfer y fferm. Fe'i helpodd, medden nhw, i fyfyrio ar gostau ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Nododd yr ymgeiswyr llwyddiannus a oedd yn ei ystyried naill ai ddim yn ddefnyddiol iawn neu ddim yn ddefnyddiol o gwbl (25%) mai ymarfer yn unig yw'r cynllun busnes ar gyfer cyflawni'r cymorth grant; neu roedd marchnadoedd a phrisiau cyfnewidiol yn golygu nad oedd yn ddefnyddiol mwyach.

Ffigur 4.7: A yw'r cynllun busnes a baratowyd ar gyfer y cais GCC wedi bod yn ddefnyddiol?




Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

4.8. Ychwanegedd y grant

Gofynnwyd i'r ymgeiswyr llwyddiannus a fyddent wedi bwrw ymlaen â'r prosiect pe na baent wedi derbyn y grant. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos mai dim ond dau ymgeisydd llwyddiannus (2%) fyddai wedi bwrw ymlaen â'u buddsoddiad yn absenoldeb y grant (difuddiant llawn); byddai 31% yn bwrw ymlaen yn rhannol heb y grant (difuddiant rhannol). Mae hyn yn dangos lefel gymharol uchel o ychwanegedd neu lefel isel o ddifuddiant.

Mae'r canlyniad hwn yn gyson ag arolwg yr ymgeiswyr aflwyddiannus; dywedodd saith (13%) o'r 54 o ymatebwyr a oedd yn ymgeiswyr aflwyddiannus iddynt barhau â'u buddsoddiadau heb y grant a nododd pump (9%) arall iddynt barhau'n rhannol.

Ffigur 4.8: A fyddai ymgeiswyr llwyddiannus wedi bwrw ymlaen â'r prosiect pe na baent wedi derbyn y grant?



Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

4.8.1. Rhesymau dros fwrw ymlaen heb y GCC

Pan ofynnwyd i'r ymgeiswyr llwyddiannus pam eu bod yn credu y byddent wedi bwrw ymlaen â'r prosiect heb y grant, dim ond dau ffermwr a ymatebodd. Dywedodd y ddau y byddent wedi bwrw ymlaen â'r prosiect i wneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau fel ynni a dŵr ar eu ffermydd.

Gwnaeth y rhai aflwyddiannus a fwriodd ymlaen heb y grant hynny am wahanol resymau (Tabl 4.10). Dewisodd y mwyafrif o'r ymatebwyr yr opsiwn 'arall' (33%). Pan roddwyd yr opsiwn i ehangu, dywedodd yr ymgeiswyr aflwyddiannus fod angen bwrw ymlaen â'r prosiect p'un a oeddent yn derbyn cymorth ai peidio, er mwyn gwella lles, cynhyrchiant neu ansawdd eu fferm. Dywedodd llawer o'r ymgeiswyr aflwyddiannus eu bod wedi bwrw ymlaen heb y grant i gynnal neu gynyddu incwm y busnes (25%) neu i wneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau fel ynni a dŵr (25%).

Tabl 4.10: Pam wnaethoch chi fwrw ymlaen heb y grant? (Ymgeiswyr aflwyddiannus yn unig)

Categoriâu	Ymgeiswyr aflwyddiannus (%)
Cyllid ar gael o rywle arall	0%
Staff ddim yn llawn	0%
Yr angen i leihau costau	17%
Yr angen i gynnal neu gynyddu incwm y busnes	25%
I wneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau fel ynni a dŵr	25%
Arall (nodwch)	33%

Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr aflwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

4.8.2. Canlyniadau posibl o'u cymharu â'r canlyniadau o beidio â chael y GCC

Gofynnwyd i ffermydd a elwodd o'r grant am yr hyn a fyddai wedi digwydd yn ei absenoldeb (Tabl 4.11). Ni atebodd (66%) y cwestiwn hwn, gan iddynt nodi na fyddent wedi bwrw ymlaen â'r buddsoddiad heb y grant. Dywedodd (13%) y byddai peidio â chael y grant wedi achosi i'r prosiect symud ymlaen yn arafach, a dywedodd 10% y byddai wedi gohirio'r prosiect. Dywedodd (7%) y byddai wedi digwydd ar raddfa lai, a soniodd 2% y byddent wedi defnyddio offer ail-law.

Ar gyfer yr ymgeiswyr aflwyddiannus (Tabl 4.12), dywedodd 7% y byddai cael y grant wedi golygu y byddai eu prosiect wedi digwydd yn gyflymach, a dywedodd 2% y byddai wedi digwydd ar raddfa fwy. Ni wnaeth y 91% oedd yn weddill fwrw ymlaen â'r buddsoddiad oherwydd iddynt fod yn aflwyddiannus gyda'u cais am grant.

Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu ychwanegedd cymharol uchel y cynllun. Er enghraifft, difuddiant llawn o lai na 5% a difuddiant rhannol o 20% i 30%.

Tabl 4.11: Pa un o'r canlynol fyddai wedi bod yn ganlyniadau i'ch prosiect, pe na baech chi wedi cael y grant? (Ymgeiswyr llwyddiannus yn unig)

Categoriâu	Ymgeiswyr llwyddiannus (n = 99)
Byddai wedi digwydd yn arafach	13%
Byddai wedi bod ar raddfa lai	7%
Byddai wedi digwydd yn ddiweddarach	10%
Llai o wariant ar ddatblygu cynnyrch / marchnata	0%
Defnyddio offer ail-law	2%
Arall	1%
Dim ateb	66%

Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

Tabl 4.12: Beth fyddai wedi'i gyflawni pe byddech wedi cael y grant? (Ymgeiswyr aflwyddiannus yn unig)

Categoriâu	Ymgeiswyr aflwyddiannus N = 54
Byddai wedi digwydd yn gyflymach	7%
Byddai wedi bod ar raddfa fwy	2%
Dim ateb	91%

Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr aflwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

4.8.3. Ffactorau allanol a ddylanwadodd

Gofynnwyd i fusnesau fferm (llwyddiannus) am y ffactorau allanol a effeithiodd yn negyddol ar y gallu i ddefnyddio'r cymorth grant. Y ffactor a adroddwyd amlaf oedd COVID-19 (roedd y mwyafrif llethol yn ymgeiswyr Ffenestri 4–7), ac yna Brexit (gweler Tabl 4.13). I'r rhai a ddewisodd 'Arall' ac a roddodd ymatebion agored, soniwyd am ffactorau allanol a effeithiodd yn negyddol arnynt, megis chwyddiant costau, oedi mewn prosiectau, neu oedi pellach wrth gael eu taliad.

Tabl 4.13: I ba raddau yr effeithiodd ffactorau allanol yn negyddol ar y gallu i ddefnyddio'r cymorth grant?

Categori	Canran (N = 99)
COVID-19	48%
Brexit	37%
Costau byw	29%
Arall	23%

Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.


4.9. Rhagolygon y busnes

4.9.1. Cynlluniau am y dyfodol

Pan ofynnwyd iddynt am ragolygon y busnes, roedd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn edrych yn bennaf ar eu cynlluniau am y dyfodol o ran tyfu'r busnes yn raddol dros amser (47%). Yn dilyn hyn roedd cadw'r busnes yr un maint (33%) a throsglwyddo'r busnes i aelod o'r teulu (12%).

Roedd gan y rhai aflwyddiannus agwedd fusnes debyg. Roedd y rhan fwyaf yn ystyried eu cynlluniau am y dyfodol o ran tyfu'r busnes yn raddol dros amser (41%). Yn dilyn hyn roedd cadw'r busnes yr un maint (22%) a throsglwyddo'r busnes i aelod o'r teulu (13%). Roedd y rhai a ddewisodd 'arall' (9%) yn ansicr am eu dyfodol ac yn nodi ffactorau megis newid hinsawdd, costau byw uwch a Llywodraeth Cymru fel ffactorau sy'n achosi eu hansicrwydd.

Ffigur 4.9: Cynlluniau ffermwyr ar gyfer eu busnes yn y dyfodol




Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

4.10. Ffactorau Allanol

Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd a allai unrhyw ffactorau allanol ei gwneud hi'n anodd tyfu neu arallgyfeirio eu busnes. Roedd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn ystyried ansicrwydd ynghylch polisi'r llywodraeth yn y dyfodol (36%), yr hinsawdd ariannol gyfredol (29%), a mynediad at dir (17%) fel eu pryderon mwyaf. Nododd yr ymgeiswyr aflwyddiannus yr hinsawdd ariannol gyfredol (48%) fel eu pryder mwyaf, gydag ansicrwydd ynghylch polisi'r llywodraeth yn y dyfodol (43%) a chael caniatâd cynllunio (24%) yn dilyn yn agos.

Ffigur 4.10: Ffactorau allanol sy'n effeithio ar allu ffermwyr i dyfu ac arallgyfeirio eu busnes



Ffynhonnell: Arolygon yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect gwerthuso hwn.

5. Astudiaethau achos o gyfweiliadau (Ffenestri 1–3)

5.1. Trosolwg

Mae'r astudiaethau achos o'r cyfweiliadau yn rhoi golwg ar effeithiolrwydd y rheolaeth o gynllun y GCC a'i brosesau o safbwynt y derbynnydd. Mae hefyd yn dangos yr anghenion a'r effaith a gafodd. Mae hyn yn ychwanegu dealltwriaeth fanylach o safbwyntiau ymgeiswyr llwyddiannus o Ffenestri 1–3 y GCC ac mae'n adeiladu ar gwestiynau'r arolwg i ddarparu trafodaeth ansoddol gan y derbynwyr ar eu profiad. Amcan y cyfweiliadau oedd cael dealltwriaeth gyd-destunol o brofiad y ffermwyr o'r grant, unrhyw heriau a wynebwyd, effaith y grant, ac unrhyw argymhellion y gallent eu rhoi i'w wella.

Cafodd 10 ffermwr eu cyfweild o Ffenestri 1–3. Roedd y cyfranogwyr yn cynrychioli gwahanol fathau o ffermydd, gan gynnwys llaeth, biff, defaid, dofednod, a ffermydd cymysg (bïff a defaid, a thir â'r neu laeth a thir â'r). Nod y prosiectau hyn oedd naill ai buddsoddi ymhellach yn eu mentrau presennol neu ehangu i rai newydd.

Wrth grynhoi canfyddiadau'r astudiaethau achos, roedd y rhan fwyaf yn ddiolchgar am y grant a'r cymorth ariannol a gawsant tuag at y buddsoddiad. Fodd bynnag, gwnaethant hefyd wynebu llawer o heriau a chyfyngiadau. Roedd yr heriau sylfaenol yn cynnwys anawsterau wrth ddeall y broses ymgeisio, oedi rhwng gweithredu a hawlio'r grant, a'r costau sy'n gysylltiedig â defnyddio ymgynghorwyr i gynorthwyo gyda cheisiadau. Soniodd rhai ffermwyr yn benodol am faterion gyda 'GwerthwchiGymru' a'r angen i gyflwyno tri dyfynbris ar gyfer eitemau cyfalaf.

O ran effaith y grant, nododd ffermwyr eu bod wedi cyflawni llawer o'r amcanion a amlinellwyd yn eu cynlluniau busnes a'u ceisiadau. Fe wnaethant weld cynnydd uniongyrchol mewn cynhyrchiant a phroffidioldeb o ganlyniad i'r buddsoddiad a gefnogwyd gan y grant. Nododd rhai hefyd ei fod wedi gwella gwydnwch eu busnesau wrth ddelio â ffactorau allanol. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod rhai ffermwyr wedi mynegi pryderon ynghylch y ddyled sylweddol a achoswyd oherwydd yr angen am arian cyfatebol. Yn ogystal, roeddent yn wynebu heriau o ran llif arian gan iddynt orfod benthg arian ar gyfer gwariant cyn hawlio'r grant yn seiliedig ar y costau. Fodd bynnag, aseswyd y risg hon drwy'r llif arian yn y Cynllun Busnes sy'n ofynnol fel rhan o'r broses ymgeisio, gan gwmpasu'r cyfnod o ad-dalu.

Roedd effeithiau eraill yn cynnwys manteision amgylcheddol o ran dŵr glân, llai o ddŵr ffo neu daenu slyri, a gostyngiad mewn allyriadau cyffredinol. Roedd ffermwyr hefyd wedi gweld effaith y grant a'r buddsoddiad ar eu heconomi leol gyda llawer yn nodi mwy o waith; mwy o brynu/gwerthu i fusnesau, er i'r rhan fwyaf deimlo ei fod yn effaith dymor byr yn ystod adeiladu'r prosiect; a defnyddio cyflenwyr ac adeiladwyr lleol.

Aseswyd ychwanegedd y cynllun hefyd a ph'un a fyddai'r ffermwr wedi bwrw ymlaen â'i buddsoddiad heb y grant. Nododd y rhan fwyaf y byddent wedi bwrw ymlaen â'r buddsoddiad, ond ar raddfa lai neu dros gyfnod hirach. Fe wnaeth y grant ganiatáu i'r buddsoddiad ddod yn benderfyniad diffiniol i'r ffermwr a datblygu neu gyflymu'r prosiect.

Rhoddwyd cyfle i'r ffermwyr hefyd gynnig argymhellion ar sut y gellid bod wedi gwella cynllun y GCC neu sut y gallai cynlluniau yn y dyfodol fod yn fwy addas ar eu cyfer. Fe wnaeth y ffermwyr lawer o awgrymiadau, gan gynnwys y canlynol:

- mae angen iddo fod yn opsiwn safonol neu'n gost safonol
- mae angen mwy o gymorth gan Lywodraeth Cymru gydag awdurdodau cynllunio lleol
- mae angen rhoi mwy o gymorth ar gyfer costau ymgynghori
- mae angen lleihau'r amser sydd ei angen i hawlio'r grant
- mae angen gwneud yr arweiniad a'r broses ymgeisio mor syml a dealladwy â phosibl
- mae angen rhoi cyswllt penodol sy'n gyfrifol am eu hachos i roi cymorth os oes angen
- mae angen rhoi hyblygrwydd i newid eu heitem gyfalaf

5.2. Ffermwr 1 – Menter Llaeth

5.2.1. Y cefndir a'r broses ymgeisio

Dywedodd y ffermwr eu bod yn 'fenter gymysg' ond yn godro yn bennaf gyda 235 hectar o dir. Cyn y cais am grant, yr heriau a wynebwyd ganddynt i ddechrau oedd bod y cyfleusterau a ddefnyddiwyd ganddynt yn dyddio. Defnyddiodd y ffermwr y grant i fuddsoddi mewn safle maes glas, gan adeiladu parlwr godro newydd a chreu pwll slyri i gadw eu fferm yn gyfoes ac yn hylaw.

Fe wnaethant gais am y GCC i hyrwyddo'r buddsoddiad yr oeddent eisoes wedi'i wneud. Roedd hyn yn golygu cynyddu maint eu buches laeth i 240 o wartheg (ehangiad o 1/3) ac ehangu'r parlwr godro i awtomeiddio ac ychwanegu unedau ychwanegol.

Wrth wneud cais am y grant, defnyddiodd y ffermwr ymgynghorydd, gan ddweud i ddechrau, eu bod yn cael anawsterau wrth ddeall y broses ymgeisio. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo eu bod yn ddigon gwybodys y dylent fod wedi gallu ei wneud eu hunain.

Cafodd y ffermwr brofiad negyddol gyda'r gost ymgeisio (ffioedd ymgynghorol) a dywedodd ymhellach na fyddent yn argymhell gwneud cais am y grant os yw ffermwr yn dibynnu arno am eu buddsoddiad cyfalaf.

5.2.2. Cynllun Busnes

Wrth adolygu eu cynllun busnes, eu prif amcanion ar gyfer y grant oedd:

- cynyddu'r allbwn i fynd i'r afael â'r gostyngiad yn y cynllun taliadau sylfaenol
- diwallu anghenion llif arian

Gobeithir y byddai'r prosiect arfaethedig, yn rhoi cyfle iddynt gynyddu cynhyrchiant trwy gynyddu cynnyrch o borthiant, cynyddu nifer y gwartheg, a mabwysiadu arferion rheoli newydd gyda pheiriannau newydd, gan eu helpu i osgoi dod yn anghystadleuol.

Nododd y ffermwr nad oedd y cynllun busnes yn ddefnyddiol iddynt. Roedd ganddyn nhw gynllun busnes eisoes ar waith, ac roedd y cynllun busnes GCC wedi'i addasu ohono. Dywedodd y ffermwr ymhellach na wnaethant gyflawni'r amcanion a nodir yn y cynllun busnes GCC oherwydd rheoliadau Rheoliadau Llygredd Amaeth Cymru (2021) a TB Gwartheg (bTB). Bu'n rhaid i'r ffermwr fuddsoddi mwy a lleihau eu stoc gan wroddi wrth eu hamcanion gwreiddiol.

5.2.3. Effaith y grant

Nododd y ffermwr gynnydd mewn cynhyrchiant a phroffidioldeb, gan nodi bod y buddsoddiad yn effeithiol i'w busnes. Eglurodd y rhain mai'r effaith fwyaf oedd gwell lles a siediau ond roeddent yn cwestiynu a oedd hyn oherwydd effaith y grantiau neu'r buddsoddiad yr oeddent eisoes yn ei wneud.

O ran gwydnwch ac effeithlonrwydd, teimlai'r ffermwr nad oedd y grant yn effeithio ar hyn. Dywedon nhw ei fod wedi eu gwneud yn fwy agored i niwed yn y tymor byr. Roedd hyn yn bennaf oherwydd nad oedd y broses hawlio grantiau yn cyfateb i'r ffordd y maent yn gweithredu, wrth i'r ffermwr dderbyn nifer o anfonebau o wahanol contractau dros amser, a phwysleisiodd bod hyn yn opsiwn rhatach iddyn nhw, doedd y system grantiau 'ddim yn ei hoffi'. Pwysleisiwyd ymhellach fod angen dull mwy hyblyg o fynd ati i wneud newidiadau i'r broses wrth iddynt fynd yn eu blaen. Dywedodd y ffermwr hefyd fod effaith y 'llif arian' a gafodd ei oedi o'r grant yn risg fawr iddynt. Er bod y costau cyfalaf terfynol yn cwmpasu'r prosiect, cynyddodd lawer o'r cydrannau mewn pris felly roedd yn rhaid tynnu cydrannau eraill allan.

Am effaith amgylcheddol, dywedodd y ffermwr nad oedd yn cefnogi unrhyw effeithiau amgylcheddol hirdymor mewn gwirionedd. Nodwyd ei fod 'yn y gorffennol' a'i fod yn rhywbeth yr oedd y ffermwr wedi bod yn ymchwilio iddo'u hunain.

O ran cefnogi/datblygu cyflenwyr a busnesau lleol, nododd y ffermwr ei fod yn sicr wedi helpu yn y tymor byr. Roedden nhw'n defnyddio busnesau lleol ond roedden nhw'n gweld nad oedd y wefan, 'GwerthwchiGymru' yn reddfodol ac nid oedd yn addas i'r diben.

5.2.4. Ychwanegedd a gwelliannau

Er iddynt nodi anfodlonrwydd gyda'r grant a'i broses, roeddent yn teimlo na fyddent wedi gwneud y buddsoddiad hebddo.

"Pe na fyddai'r grant wedi dod ar gael, bydden ni wedi arallgyfeirio o odro... ond ar ôl profi'r grant, fyddwn i ddim yn ei wneud eto."

Awgrymodd y ffermwr ddau brif welliant y mae angen i rantiau yn y dyfodol eu rhoi ar waith er mwyn iddynt allu gweithredu'n dda:

- Mae angen iddo fod yn opsiwn safonol neu gostau safonol tebyg i'r hyn a ddigwyddodd o dan y Cynllun Datblygu Fferm a Garddwriaethol ^[troednodyn 11]. Roedd arddull y system reoli / cost yn fwy addas iddynt na'r GCC a gorfod mynd trwy lawer o anfonebau.
- Ni ddylai cynllunwyr atodi llwythi o ofynion ac ychwanegiadau. Mae angen iddo fod yn fwy syml.

5.3. Ffermwr 2 – Menter Bîff a Defaid

5.3.1. Y cefndir a'r broses ymgeisio

Dywedodd y ffermwr eu bod yn fenter bîff a defaid a oedd yn ddibynnol ar daliadau sengl ac sydd wedi arallgyfeirio i mewn i allfeydd gwyliau. Her fawr y mae'r ffermwr yn ei hwynebu yw'r risg o bTB. Pe bai'r ffermwr yn colli'r gwerth ychwanegol o werthu stoc fridio, byddai'n peryglu'r busnes. Eglurodd y ffermwr eu bod yn chwilio am rywbeth i ddenu pobl i weithio i'r fferm. Gyda'r prif amcan o wneud arian mewn ffordd gynaliadwy, cais GCC y ffermwr oedd ar gyfer lleoliad dofednod maes.

Roedd y ffermwr o'r farn bod y broses ymgeisio yn deg ond soniodd eu bod wedi rhedeg i rai amgylchiadau annisgwyl yn ystod y buddsoddiad, a oedd yn oedi'r prosiect. Roedd yna hefyd her fach o ran mynediad at gyflenwyr a chawsant anawsterau wrth fodloni eu meini prawf ansawdd. Deilliodd hyn o'r ffermwr yn ffafrio gwerth am arian, yn hytrach na'r pris isaf, gan arwain at ddim ond tri chyflenwr ar gael i ddewis ohonynt. Er gwaethaf y ffactorau hyn, nododd y ffermwr nad oedd yn effeithio ar y broses grantiau na hawliadau ar eu cyfer yn gyffredinol.

5.3.2. Cynllun Busnes

Dywedodd y ffermwr eu bod yn defnyddio ymgynghorydd ar gyfer datblygu'r cynllun busnes a gafodd ei dderbyn ar yr ail ymgais. Mae'r cynllun busnes yn nodi'r amcanion canlynol:

- cynyddu proffidioldeb y busnes
- sicrhau y gall y busnes ddiwallu ei anghenion ariannol
- cyflwyno menter adar maes newydd 32,000 i ddarparu ffrwd incwm newydd
- cynnal nifer y buchod sugno ar 200 a chynyddu gwerth y stoc fridio â theilyngdod genetig uchel a gynigir i'w gwerthu
- gwella maint elw'r fenter ddefaid trwy ddewis geneteg sy'n addas ar gyfer system ddefaid sy'n seiliedig ar laswellt a phorthiant

Credai'r ffermwr eu bod wedi cyflawni'n well na'r amcanion a nodwyd yn eu cynllun busnes 5 mlynedd ac roedd y costau cyfalaf terfynol o dan yr hyn a gynigiwyd gyntaf. Er, ni wnaethant edrych yn ôl ar y cynllun busnes ar ôl ei ddefnyddio ar gyfer gwneud cais am y grant. Yn hytrach, roeddent wedi symud ymlaen dros y blynyddoedd a chreu cynlluniau busnes eraill ers yr un a ddefnyddiwyd ganddynt i wneud cais am y GCC.

5.3.3. Effaith y grant

Gwelwyd yr effaith fwyaf wrth adeiladu gwydnwch ar gyfer y fferm. Er bod y fferm wedi profi blwyddyn wael o gynhyrchu wyau, symudodd y grant gynaliadwyedd y fferm yn ei flaen ac roedd y buddsoddiad wedi eu galluogi i oresgyn yr her yn haws.

"Yn ystod eich bywyd, rydych chi'n cael hanner dwsin o gyfleoedd i wella'ch hun, roedd hwn yn un ohonyn nhw."

Roedd y ffermwr hefyd wedi dweud bod y grant yn eu galluogi i fuddsoddi yn y busnes a gwella'r 'cysylltiadau gwan'. Esboniodd y cwmni, oherwydd y buddsoddiad, eu bod yn cyflogi 20 o weithwyr Cymraeg eu hiaith ar eu fferm ar hyn o bryd wrth iddynt recriwtio rheolwr a phedwar gweithiwr rhan-amser. Byddai hyn yn eu helpu i fuddsoddi eto yn y dyfodol. Roedd y grant hefyd wedi helpu cynhyrchiant a phroffidioldeb y fferm wrth gynhyrchu sied ddofednod. Arweiniodd y sied at allbwn llawer uwch ar eu fferm a chaniatáu ar gyfer buddion pellach gan eu bod bellach yn cynhyrchu eu tail eu hunain a'i wasgaru'n fwy strategol gan arwain at ostyngiad o 50% mewn costau gwrtait hyn ar eu fferm.

"Mae hefyd wedi creu llawer o gyflogaeth, sydd wedi mynd i'r gymuned leol. Mae wedi bod o fudd i ni ac mae o fudd i bawb. Dw i'n credu bod hynny'n fusnes da."

Nododd y ffermwr fod y gallu i fuddsoddi mewn offer, agronomeg a geneteg wedi arwain at welliant aruthrol yn eu Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAu). Galwodd y ffermwr y GCC yn ffordd o 'ennill y blaen' ac roeddent yn awyddus i fynd ar drywydd mwy o gyllid fel hyn. Er, eglurodd y ffermwr nad oedd y grantiau yr oeddent yn gwneud cais amdanynt bellach mor effeithiol ag yr oedd y GCC, oherwydd y grant llai a maint y taliad.

5.3.4. Ychwanegedd a gwelliannau

At ei gilydd, cynorthwyodd y grant i newid arferion busnes y fferm i ddod yn fwy effeithlon a gwydn. Ni chafodd y ffermwr unrhyw adborth negyddol am y broses grant na'r profiad. Ar ben hynny, dywedodd y ffermwr na allen nhw fod wedi gwneud y newidiadau cadarnhaol ar y fferm heb y grant. Awgrymodd y ffermwr un maes i wella:

"Gall cynllunio fod yn straen, yn enwedig os yw'n brosiect mawr gan ei bod yn heriol cael y caniatâd cynllunio. Gall grant neu Lywodraeth Cymru gefnogi prosiect arfaethedig, fodd bynnag, efallai na fydd y llywodraeth leol yn caniatáu hynny. Gall hyn olygu bod ffermwr yn colli'r arian a fuddsoddwyd ganddynt o flaen llaw wrth gynllunio."

5.4. Ffermwr 3 – Menter Llaeth Organig

5.4.1. Y cefndir a'r broses ymgeisio

Dywedodd y ffermwr eu bod yn denant gyda 140 erw a thua 80 o wartheg sy'n cynhyrchu llaeth organig. Fe wnaethon nhw esbonio'r angen i drefnu ac uwchraddio cyfleusterau ar y fferm. Gan ddefnyddio'r cyllid GCC, roeddent wedi prynu tir, cyfleuster llaeth newydd, sied fuchod newydd (gyda 40% o'r costau wedi'u cynnwys) ac roeddent hefyd yn gallu rhoi roboteg ar waith i gynorthwyo gyda godro. Dywedodd y ffermwr fod y grant yn caniatáu ychwanegu roboteg gan ei fod yn gwneud y costau yn gyfartal â chynhyrchiant godro traddodiadol.

5.4.2. Cynllun Busnes

Defnyddiodd y ffermwr ymgynghorydd allanol i ddatblygu'r cynllun busnes. Er, roedd ganddynt eisoes nifer o gynlluniau y gallent eu hymgorffori yn y cais. Yn y cynllun busnes, roedd tri chais i'r prosiect:

- yn gyntaf, datblygu cyfleuster llaeth mewn fferm sydd newydd ei phrynu i wella arferion rheoli a lles gwartheg, yn ogystal ag isadeiledd arall (e.e. sgrafelli awtomatig, cyflenwad dŵr twll turio a chynaeafu dŵr glaw)
- yn ail, i brynu dau robot VMS DeLaval newydd (system odro robotig) i gynyddu nifer y gwartheg a'u cynhyrchiant
- yn drydydd, i osod system pŵer PV Solar i gynhyrchu pŵer gwyrdd i wasanaethu gofynion ynni'r fferm a'r system newydd. Ochr yn ochr â DPA a oedd i'w mesur, disgwyliwyd canlyniadau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys diogelu dwy swydd cyfwerth ag amser llawn, lleihau cyfnodau lloia i 365 diwrnod, sicrhau bod llai na 30 achos o fastitis (perfformiad 25% uchaf) a chynyddu'r cynnyrch o borthiant i 3500 litr

Roedd y ffermwr yn gweld yr oedi mewn amser rhwng gwneud y cais, yn ogystal â derbyn a gwario'r arian yn rhy hir. Yn enwedig gyda chostau newidiol, fe wnaethant ddarganfod nad oedd y grant yn caniatáu i'r nenfwd newid. Arweiniodd hyn at orwariant gan y fenter. Yn ystod y prosiect, roedd angen addasu'r cynllun busnes i gynyddu nifer y gwartheg.

5.4.3. Effaith y grant

Er bod y cyllid GCC wedi arwain at gynnydd ym maint y fuches, arweiniodd heriau allanol at ganlyniad sy'n dra gwahanol i'w disgwyliadau yn eu cynllun busnes. Roedd ffactorau fel COVID-19 yn achosi i brisiau ostwng, ochr yn ochr â'r fuches yn dal bTB a chost trydan yn treblu mewn pris, yn golygu nad oedd y costau cyfalaf terfynol yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Awgrymodd y ffermwr y gallai'r GCC fod wedi cefnogi menter y fferm yn fwy pe bai wedi caniatáu ar gyfer codiadau y gellir eu cyfiawnhau yn y swm a gawsant oherwydd newid mewn costau.

5.4.4. Ychwanegedd a gwelliannau

Penderfynodd y ffermwr, heb y GCC, na fyddent wedi gweithredu system fodern o'r fath ond byddent wedi bwrw ymlaen ag un mwy traddodiadol neu sylfaenol, gan nodi mai eu prif her gyda'r GCC oedd y wefan, 'GwerthwchiGymru'. Dim ond tri dyfynbris a gawsant ac felly gofynnodd y ffermwr i gyflenwyr eraill gofrestru i ddarparu dyfynbrisiau. Roedd y ffermwr o'r farn bod y dyfynbris am sied yn llawer mwy costus nag sy'n addas ac felly fe wnaethant ymdrechu i gael dyfynbrisiau cystadleuol. Felly, roeddent yn teimlo nad oedd pori'r wefan yn ddefnydd effeithlon o'u hamser. Yn hytrach, roedd y ffermwr yn defnyddio cyflenwyr lleol. Awgrymon nhw dri maes i'w gwella o ran y GCC:

- lleihau neu ddileu ffioedd proffesiynol - roedd y ffermwr yn anfodlon bod yn rhaid iddynt wario £3,000-£4,000 ar ffioedd proffesiynol i lenwi ffurflenni ar gyfer y cais GCC. Roedd hyn yn annisgwyl ac yn torri i mewn i'w cyllideb
- lleihau'r amser rhwng derbyn y cais a chymeradwyo'r gyllideb - roedd hyd yr amser yn broblem, wrth i'r costau gynyddu ar ôl iddyn nhw dderbyn cymeradwyaeth i'r cais
- sicrhau bod mwy o gyflenwyr lleol ar gael ar y wefan gaffael

5.5. Ffermwr 4 – Menter Ddofednod

5.5.1. Y cefndir a'r broses ymgeisio

Eglurodd y ffermwr eu bod yn fferm ucheldirol a bod ganddynt opsiynau cyfyngedig iawn wrth arallgyfeirio o ran mynediad oherwydd eu lleoliad. Yn 2012, fe wnaethant arallgyfeirio i ynni adnewyddadwy gan godi dau dyrbin ac yn ddiweddarach, dechreuon nhw fenter ddofednod (brwyliaid) gyda buddsoddiad o dros £1.2 miliwn.

Fe wnaeth y ffermwr gais am y GCC a bu'n llwyddiannus ar eu hail ymgais. Nodwyd mai'r rheswm dros wneud cais oedd cynyddu refeniw a gwneud y fferm yn hylaw ar gyfer olyniaeth ddiweddarach. Wrth wneud cais am y GCC, roedd y ffermwr wedi ei wneud eu hunain gan eu bod hefyd yn gweithio fel mentor ymgynghorol/arallgyfeirio. Roedd y system sgorio a sut y gallent osod amcanion cyraeddadwy sy'n cyd-fynd â'r sgorio hwnnw yn ddefnyddiol iddynt. Ar y cyfan, nododd y ffermwr fod y broses ymgeisio yn llawer haws na'r broses hawlio. Wrth hawlio, roedd gan y ffermwr broblemau gyda lanlwytho gwybodaeth, gan iddynt orfod aros am amser hir i wneud cais ac nid oedd y wefan a ddefnyddiwyd 'yn hawdd ei defnyddio' ac roedd y cyfarwyddiadau'n anodd eu dilyn.

5.5.2. Cynllun Busnes

Wrth adolygu eu cynllun busnes, dywedon nhw mai eu hamcanion ar gyfer y buddsoddiad oedd y canlynol:

- ehangu ein mentrau
- ymuno â sector sy'n tyfu
- gwella llif arian – 38 diwrnod o amser cyflawni taliadau.
- lleihau costau gwrtaith drwy ddefnyddio'r gwasarn dofednod
- lleihau'r galw ar danwydd ffosil
- paratoi ar gyfer olyniaeth
- tyfu'r busnes ar yr uned gartref i gael gwared ar fregusrwydd yn erbyn y ddibyniaeth ar dir rhent

Dywedodd y ffermwr eu bod wedi gweld bod y cynllun busnes yn broses ddefnyddiol gan eu bod yn gallu gweld y bylchau mewn cyllid neu 'fannau cyfyng' neu o ble mae'r arian yn dod. Fe wnaeth hyn eu helpu yn ddiweddarach i gael arian o'r banc. Gan fyfrio ar yr amcanion yr oeddent wedi'u nodi yng nghynllun busnes GCC, teimlai'r ffermwr eu bod wedi cyflawni wrth gynyddu proffidioldeb y fferm a chynaliadwyedd trwy gynhyrchu bwyd ar gyfer olyniaeth gynyddol yn y farchnad.

Nododd y ffermwr nad oedd ganddynt 'gynllun busnes byw' ond yn hytrach cynllun wedi'i ddiweddarau sy'n canolbwyntio ar arallgyfeirio, gan ymestyn y tu hwnt i'r amcanion gwreiddiol.

"Rydym wedi arallgyfeirio ymhellach i dwristiaeth ac mae yna gwmni sydd wedi'i sefydlu ar yr arallgyfeirio hwnnw sydd â chynllun busnes."

5.5.3. Effaith y grant

Roedd effaith y grant yn bennaf ar wydnwch a chynaliadwyedd ar eu fferm. Roedd y buddsoddiad yn caniatáu iddynt amrywio eu busnes a symud i ffwrdd o ddibynnu ar gig coch yn unig. Fe wnaethant sôn ymhellach fod y cymorth grant wedi rhoi hyder i'r banciau wrth ganiatáu iddynt adeiladu'r ddwy sied i helpu ehangu eu fferm ymhellach a'i gwneud yn fwy gwydn.

O ran effaith amgylcheddol, nododd y ffermwr fod creu storfa ar gyfer tail dofednod yn golygu nad oeddent wedi prynu/mewnforio unrhyw dail yn 2023. Ar ben hynny, erbyn hyn roedd ganddynt yr hyblygrwydd a'r rheolaeth o bryd i wasgaru'r tail ar eu fferm.

"Mae'r ôl troed hwnnw'n ymwneud â hynny hefyd, on'd ydyw? Wyddoch chi, mae'n ymwneud â llai o lorïau a llai o gludiadau ac nid ydym yn defnyddio'r tractorau i wasgaru."

Roedd y ffermwr hefyd wedi sôn am yr effaith o ran datblygu busnes a chyfraniad i'r economi leol. Erbyn hyn, roedden nhw'n cyflogi pobl leol i redeg y sied ddofednod ac roeddent wedi defnyddio busnesau lleol i adeiladu'r buddsoddiad. Maent yn cefnogi'r felin borthiant leol, glanhawyr lleol a thrydanwyr lleol ymhellach sy'n gofalu am y buddsoddiad a wnaethant. Maent hefyd yn cefnogi cyflenwyr pren lleol drwy eu huned fïomas hefyd.

"Mae'r hyn y mae'r sied ddofednod wedi'i gwneud i'n busnes wedi dod â llawer mwy o werth i'r economi ehangach."

5.5.4. Ychwanegedd a gwelliannau

Dywedodd y ffermwr na fydden nhw wedi bwrw ymlaen gyda'r buddsoddiad ar y raddfa y gwnaethon nhw pe na fyddent wedi derbyn y grant. Roeddent yn ddiolchgar am y grant ac wrth fyfyrto ar y grant diweddarach, nododd Ffenestri (4-7) y byddai'r swm a dderbyniwyd ganddynt yn cael llawer mwy o effaith ar newid proffidioldeb ac yn dod â mwy i'r fferm na'r swm llai yn y ffenestri grant diweddarach a oedd ar gael.

O ran gwella'r GCC a grantiau'r dyfodol, nododd y ffermwr fod angen i unrhyw ganllawiau ar gyfer y broses ymgeisio neu hawlio fod yn rhesymegol ac yn syml i ffermwyr. Nid oedd y ffermwr eisïau arweiniad hir a oedd yn anodd cael mynediad ato a'i gofio.

5.6. Ffermwr 5 – Menter Gymysg

5.6.1. Y cefndir a'r broses ymgeisio

Mae gan y ffermwr 800 hectar o dir âr, gan redeg menter defaid a bîff gymysg. Y brif her a gawsant cyn gwneud cais am y grant oedd ffordd aneffeithlon o sychu a storio grawn. Nodwyd ei fod yn llosgi llawer o danwydd ac roedd yn rhaid gwneud llawer o symud i gyflawni'r dasg.

Wrth wneud cais am y GCC, roedden nhw eisiau help i ariannu buddsoddiad a oedd yn symleiddio ac yn moderneiddio eu system gyfan o drin, storio a sychu grawn. Wrth geisio cael tri dyfynbris am y buddsoddiad, eglurodd y ffermwr ei bod yn broses anodd gyda llawer o gontractwyr lleol yn gorfod cael eu siomi. Bu'n rhaid i'r contractwyr gofrestru ar wefan GwerthwchiGymru. Mae hyn yn eithaf cymhleth a dim ond y rhai mwy a gymerodd ran. Nid oedd llawer o gontractwyr lleol yn gymwys.

5.6.2. Cynllun Busnes

Wrth adolygu'r cynllun busnes, nododd y buddsoddiad ei amcanion o wella'r cysylltiad gwan yn eu busnes, sef cyfleusterau sychu a storio grawn hen ffasiwn. Byddai hyn yn eu helpu i'w rhoi mewn sefyllfa dda i fodloni gofynion sicrwydd cnydau siopau a darparu hyblygrwydd i farchnata eu cnydau.

Dywedodd y ffermwr eu bod yn defnyddio ymgynghorydd ar gyfer cymhwyso ac ysgrifennu'r cynllun busnes. Ni ddaethon nhw o hyd i unrhyw anawsterau wrth ei gynhyrchu, gan fod yr ymgynghorydd yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith ac fe wnaethon nhw roi gwybodaeth iddyn nhw am eu fferm yn unig. O ran amcanion, teimlai'r ffermwr eu bod wedi cyflawni'r hyn a amlinellwyd ganddynt yn y cynllun busnes gan sôn am y gostyngiad mewn allyriadau a'r defnydd o danwydd ar eu fferm. Maent bellach wedi symud ymlaen o'r cynllun busnes a gynhyrchwyd ganddynt ar gyfer y GCC ac mae ganddynt un newydd sy'n cwmpasu ehangu eu fferm ymhellach i uned ddofednod a siop fferm.

5.6.3. Effaith y grant

Roedd y grant wedi helpu cynhyrchiant a phroffidioldeb eu busnes trwy arbedion tanwydd. Roeddent hefyd wedi nodi ei fod yn cynyddu morâl a lles staff wrth i'r system gyfan ddod yn fwy effeithlon.

O ran gwydnwch, roedd y ffermwr yn teimlo bod y buddsoddiad wedi bod o fudd mawr iddynt. Wedi iddynt greu storfa rawn, enillodd y ffermwr fwy o hyblygrwydd o ran pryd y gallent werthu eu grawn, yn ogystal ag amddiffyniad rhag tywydd eithafol gan y gallent ddewis pryd i'w gynaeafu a'i storio.

“Roedd yr heriau o ran newid yn yr hinsawdd yn ogystal ag eithafion tywydd wedi rhoi llawer mwy o wydnwch i'r busnes i allu cyfuno'r cnwd cyfan a hefyd eu gwerthu ar adegau mwy strategol.”

Roedd y ffermwr wedi gweld effaith amgylcheddol o dderbyn y grant a oedd yn cefnogi eu buddsoddiad. Gyda gostyngiad mewn costau tanwydd a chostau sychu i lawr 50% wrth iddyn nhw ddisodli llawer o'u cerbydau gydag awtomeiddio, dywedodd y ffermwr eu bod wedi llwyddo i leihau allyriadau sy'n cael eu cynhyrchu ar eu fferm.

Effaith arall oedd datblygu cyflenwyr lleol o'u cwmpas. Roeddent wedi defnyddio datblygwyr a chyflenwyr lleol i adeiladu'r buddsoddiad, yn ogystal â thrydanwyr lleol y maent bellach wedi adeiladu perthynas hirdymor â nhw, gan eu bod yn cefnogi eu fferm ag anghenion eraill.

5.6.4. Ychwanegedd a gwelliannau

Roedd y ffermwr yn teimlo y gallent fod wedi hawlio mwy o'r grant ond nad oeddent am fod yn 'farus'. Roeddent yn hapus gyda'r hyn a gawsant ac fe wnaethant ddweud eu bod wedi gwneud cyfraniad mawr i'w buddsoddiad. O ran gwella, roedd y ffermwr yn teimlo bod y broses yn 'ddi-ben-draw' ac roedd defnyddio ymgynghorydd ar gyfer y cais yn ddrud iawn. O ran grantiau'r dyfodol, dywedon nhw fod angen iddyn nhw fod yn fwy cyfeillgar i ddefnyddwyr ac yn ddealladwy i ffermwyr nad ydyn nhw erioed wedi gwneud cais am grantiau o'r blaen.

5.7. Ffermwr 6 – Menter Bîff a Defaid

5.7.1. Y cefndir a'r broses ymgeisio

Eglurodd y ffermwr eu bod yn fferm bîff a defaid organig a oedd am foderneiddio ac ehangu eu menter cyn gwneud cais am y GCC. Nodwyd mai un o'r heriau a gawsant oedd dod o hyd i lafur da a dibynnu arno.

Wrth wneud cais am y grant, dywedodd y ffermwr fod 'GwerthwchiGymru' yn anodd ei defnyddio ac nad oedd yn syml iawn. Roedd y ffermwr yn teimlo nad oedd hi'n hawdd i rywun nad oedd wedi ei wneud o'r blaen a bod hyd yn oed yr ymgynghorydd a ddefnyddiwyd ganddynt yn ei chael hi'n anodd. Fe wnaethon nhw gymryd safbwynt beirniadol a soniodd fod yr ymgynghorydd a gawsant i wneud y cais wedi gwneud yr hyn oedd ganddynt ond fe ddefnyddiodd 'eiriau mwy' ac fe osodon nhw bethau'n well i'w wneud yn 'stori fwy diddorol' ar gyfer y cais.

5.7.2. Cynllun Busnes

Wrth adolygu'r cynllun busnes, prif bwrpas y prosiect oedd gwella cyfleusterau amrywiol a chynyddu stocio ar draws y fferm, yn benodol y fenter bîff. Y prif amcanion a amlinellwyd yn y cynllun busnes oedd cynyddu cynhyrchiant, gwella rheolaeth da byw a lleihau natur lafur-ddwys y fferm.

Dywedodd y ffermwr fod yr amcanion a amlinellwyd yn y cynllun busnes a gynhyrchwyd ganddynt ar gyfer y GCC naill ai wedi'u cyflawni neu'n dal i fynd rhagddynt. Nododd y ffermwr nad ydyn nhw bellach yn defnyddio cynllun busnes ond bod ganddyn nhw 'un yn eu meddyliau'. Maent hefyd yn ymwneud â'r grant Tyfu er mwyn yr Amgylchedd ar hyn o bryd.

5.7.3. Effaith y grant

Dywedodd y ffermwr fod y grant a'r buddsoddiad wedi helpu mewn cyfnod heriol gyda chostau, porthiant anifeiliaid a thanwydd. Fe wnaethant sôn ymhellach ei fod wedi helpu i gynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant, a'u helpu i wneud elw er mai nhw yw'r unig weithiwr ar y fferm.

"Wnes i ddim gwneud un prosiect penodol yn unig, felly gallaf wneud popeth ar fy mhen fy hun. Nid grant ar gyfer y diwrnod hwnnw yn unig mohono, mae'n grant am weddill fy oes. Cyn belled ag yr wyf yma. "

Er mai'r unig effaith amgylcheddol negyddol a ganfyddir gan y ffermwr oedd costau tanwydd cynyddol, nododd y rhan fwyaf ohonynt fod y grant yn fuddiol. Roedd hyn oherwydd bod gan y ffermwr iardiau glân ac nad oedd ganddynt ddŵr budr mwyach. Fe wnaethant egluro ymhellach nad ydynt bellach yn gwasgaru yn ystod y gaeaf, roedd cynydau bellach yn cael eu gwthio i mewn gyda dril hadau, ac er eu bod bellach yn cynhyrchu tair gwaith cymaint o gig eidion, roeddent yn parhau i fod yn garbon niwtral.

"Fe wnaethom gyfrif ein hól troed carbon y diwrnod o'r blaen ac roeddem yn garbon sero. Felly, rydyn ni'n cynhyrchu 70 tonnell o gig eidion a 38 tonnell o gig oen ac yn dal i fod yn garbon niwtral"

Roedd y buddsoddiad o fudd i gyflenwyr a busnesau lleol. Dywedodd y ffermwr fod popeth yn dod o fewn 8-10 milltir ar gyfer y buddsoddiad, a oedd yn dda i'r economi leol ac yn darparu budd tymor byr iddynt.

5.7.4. Ychwanegedd a gwelliannau

Wrth asesu'r ychwanegedd, dywedodd y ffermwr y byddent wedi bwrw ymlaen â'r buddsoddiad heb grant, ond byddai wedi bod dros gyfnod hirach. Roedd y grant yn eu galluogi i gyflymu'r broses.

Pan ofynnwyd iddynt beth ellid ei wella o ran y GCC a grantiau'r dyfodol, dywedodd y ffermwr eu bod yn cael trafferth gyda'r gwaith papur sydd ei angen er mwyn gwneud cais am y grant ac nad oeddent yn gyfarwydd â'r broses. Er gwaethaf hyn, roedden nhw'n pwysleisio ei bod yn dda bod ffermwyr bach yn gallu cael y grant ac roedd y person sy'n gyfrifol am yr 'achos' neu'r cais yn Llywodraeth Cymru wedi bod o gymorth mawr iddyn nhw.

5.8. Ffermwr 7 – Menter Laeth

5.8.1. Y cefndir a'r broses ymgeisio

Roedd y ffermwr a gyfwelwyd yn rhedeg menter 1050 erw gyda 340 o wartheg. Fe wnaethant egluro'r angen i wella'r cyfleusterau lloia a rheoli buchod sych i wella lles eu hanifeiliaid.

Gwnaed y broses ymgeisio gan ymgynghorydd ac ni chafodd y ffermwr unrhyw anawsterau wrth wneud cais. Fodd bynnag, nododd y ffermwr fod cael ymgynghorydd yn ei wneud yn waith costus. O ran hawlio'r grant, nododd y ffermwr fod rhai eitemau wedi mynd yn ddrytach oherwydd yr oedi mewn amser rhwng y cam ymgeisio a hawlio'r grant.

5.8.2. Cynllun Busnes

Wrth adolygu'r cynllun busnes, y prif nodau oedd cynyddu proffidioldeb y busnes, gwneud defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael ar y fferm a sicrhau dyfodol y busnes. Roedd yr amcanion yn nodi:

- yr angen i gynyddu gwerthiant llaeth
- monitro costau mewnbwn i leihau
- meincnodi yn erbyn cynhyrchwyr eraill
- creu elw i ganiatáu aifuddsoddi

Teimlai'r ffermwr eu bod wedi cyflawni'r hyn yr oeddent yn bwriadu ei wneud yn y cynllun busnes, ond fe'i gwnaed mewn ffrâm amser wahanol i'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol. Roedd y ffermwr hefyd wedi dweud nad ydyn nhw'n defnyddio cynllun busnes oherwydd amgylchiadau allanol annisgwyl gan ei gwneud hi'n anodd dilyn a rhagweld canlyniadau ar eu fferm. Yn hytrach, mae'r ffermwr yn cyllidebu bob blwyddyn a nododd eu bod ar hyn o bryd £1,000 yn well o ran eu gwartheg nag yr oeddent wedi'i ragweld yn wreiddiol.

“Rydych chi'n lwcus os yw cynllun blwyddyn yn gweithio, gyda COVID a rhyfel yn Wcráin, rydym yn bell iawn o'r rhagamcanion a grybwyllir o fewn hwnnw (y cynllun busnes 5 mlynedd).”

5.8.3. Effaith y grant

Roedd y ffermwr wedi sôn bod y grant a'r buddsoddiad wedi helpu gyda chynhyrchiant a phroffidioldeb eu busnes fferm. Fe wnaethant egluro bod y gwartheg bellach mewn cyflwr gwell gyda llai o broblemau meddygol, roedd llai o angen am wrthfotigau ac roedd lloia wedi gwella. Ar y cyfan, roedd lles eu hanifeiliaid wedi gwella.

Soniodd y ffermwr ymhellach nad oedd y grant a'r buddsoddiad yn helpu o ran gwydnwch tymor byr ar eu fferm. Roedden nhw'n teimlo bod y buddsoddiad yn rhoi dyled iddyn nhw a oedd wedi eu rhoi mewn sefyllfa fregus ar y pryd.

Ar ben hynny, tra bod y ffermwr wedi defnyddio'r grant i brynu paneli solar ar gyfer eu fferm, roeddent yn eu hystyried yn fuddsoddiad gwael. Roedd hyn oherwydd nad oeddent yn cael tariff cyflenwi trydan ac nad oeddent yn elwa o'r trydan a gynhyrchir. Roedd y ffermwr yn teimlo y gallent fod wedi arbed £16,000 pe na baent wedi buddsoddi yn y paneli solar.

Soniwyd am effeithiau pellach y GCC mewn perthynas â helpu i ddatblygu cyflenwyr a busnesau lleol o amgylch y ffermwr wrth iddynt ddefnyddio masnachwyr dur lleol. Soniodd y ffermwr ymhellach fod y buddsoddiad wedi helpu i ddatblygu cysylltiadau hirdymor y maent yn dal i'w defnyddio ar gyfer adeiladu a phrynu.

5.8.4. Ychwanegedd a gwelliannau

O ran ychwanegedd, soniodd y ffermwr y byddent wedi bwrw ymlaen â'r buddsoddiad heb gymorth grant. Er, gan eu bod yn bartneriaeth, roeddent hefyd yn nodi y byddai'r fferm arall a rennir yn llai tueddol o fuddsoddi heb y cymorth grant. Roedd y grant wedi caniatáu i'r buddsoddiad ddod yn beth diffiniol a chafodd ei gwblhau mewn ffrâm amser fyrrach.

Roedd y ffermwr wedi sôn y byddai hyblygrwydd wedi bod yn faes i wella arno. Dywedodd y ffermwr yr hoffent gael grantiau yn y dyfodol i'w galluogi i newid yr eitem gyfalaf neu gael cymorth i newid yr eitem gan Lywodraeth Cymru os gwrthodir caniatâd cynllunio.

5.9. Ffermwr 8 – Menter Bîff a Defaid

5.9.1. Y cefndir a'r broses ymgeisio

Dywedodd y ffermwr mai fferm bîff a defaid ucheldirol oedd eu menter yn bennaf, yn ogystal â dofednod. Cyn y cyllid GCC, roedd y fferm yn gwerthu anifeiliaid bîff a heffrod bridio ond oherwydd achosion o bTB, roedden nhw'n ei hystyried yn well codi sied rhag ofn i'r anifeiliaid gael diagnosis ohono eto. Byddai gan y sied fudd ychwanegol hefyd i'w galluogi i besgi eu hanifeiliaid eu hunain hefyd.

Defnyddiwyd y GCC ar gyfer sawl prosiect a oedd yn cynnwys gwahanu dŵr glân rhag dŵr budr, ychwanegu pibellau i gwteri, gosod sied bîff 150 troedfedd, storfa danwydd, ychwanegu wagen gymysgu a bwydo, a chyfleusterau trin a chorlannau ar gyfer gwartheg. Roedd y fferm hefyd wedi gwneud gorchuddion ar gyfer storfa dail a'r iard. Gwnaed y gorchuddion ar gyfer rheoli'r fferm yn haws a lleihau'r defnydd o ddŵr. Ar ben hynny, helpodd y buddsoddiad gyda gwrth-lygredd a phesgi eu gwartheg.

5.9.2. Cynllun Busnes

Wrth adolygu'r cynllun busnes, y prif amcan oedd i'r fenter fferm sicrhau cynaliadwyedd ariannol a diwallu anghenion ariannol y busnes ac amcanion twf y partneriaid busnes. Roedd y fenter yn cydnabod bod angen newid i leihau costau, yn ogystal â gwella eu systemau fferm ar gyfer allbwn uwch ac anelu at farchnad premiwm. Amcanion y cyllid GCC a nodwyd yn y cynllun busnes oedd:

- lleihau costau drwy orchuddio'r iard agored a'r storfa dail i gynyddu capasiti storio i bedwar mis, lleihau colli maetholion a thrwytholchi gydag arbedion ar wrtaith a brynwyd a chasglu dŵr glaw i wartheg ei yfed
- cynyddu incwm gydag adeiladau gwartheg ychwanegol i alluogi pesgi gwartheg gwrywaidd, gyda theiwr yn bwyta grawnfwydydd, a lleihau'r amlygiad i bTB
- lleihau'r risgiau gyda gwelliant mewn trin gwartheg i arwain at amgylchedd gwaith mwy diogel i staff a monitro cyfraddau twf a chofnodi perfformiad yn fanylach

Er i'r ffermwr ddweud bod ganddyn nhw syniad o gynllun busnes yn eu meddyliau, fe wnaethon nhw gynhyrchu un ad-hoc ar gyfer rheolwr y banc, ond eto doedd dim byd yn cael ei ysgrifennu ar bapur wrth i'r amgylchiadau newid yn ddyddiol. Roedd y ffermwr o'r farn bod y cynllun busnes yn anodd dychwelyd ato neu gadw ato oherwydd bod newidiadau i fusnes y fferm o ganlyniad i ddylanwadau allanol fel COVID-19. Mynegodd y ffermwr fod hyn yn effeithio ar eu cynllun busnes a'i fod yn ei gwneud yn amherthnasol i weithrediadau'r fenter. Er enghraifft, dywedodd y cynllun busnes y byddai'r fferm yn mewnfario stoc ond oherwydd cyfyngiadau COVID-19, nid oedd y fferm yn gallu gwneud hynny.

"Mae cynlluniau busnes ond yn dda ar y diwrnod y byddwch chi'n eu hysgrifennu. Yna mae popeth yn newid. Fel COVID, mae popeth yn mynd allan o'r ffenest. Gallwch chi ragweld pris yr anifeiliaid. Felly mae'n debyg na wnes i ei godi eto ar ôl iddo gael ei wneud, mae'n dod yn amherthnasol ar ôl i chi ei ysgrifennu."

Defnyddiodd y ffermwr ymgynghorydd i gynorthwyo gyda'r cais, gan gynnwys eu helpu i lanlwytho dogfennau a'u rhannu â Llywodraeth Cymru. Roedd y ffermwr yn gweld y cais yn anodd a dywedodd fod yr ymgynghorydd hefyd wedi profi anawsterau. Roedden nhw'n teimlo bod gormod o gylchoedd ac yn disgrifio'r GCC fel biwrocraidaidd.

"Mae'n hollol fiwrocraidaidd. Roedd yn teimlo fel petai pawb yn dysgu'r gwaith wrth iddynt fynd ymlaen. Fel petaen ni'n foch cwta."

5.9.3. Effaith y grant

Eglurodd y ffermwr bod y grant wedi helpu eu fferm i ddod yn fwy gwydn a'u bod nhw wedi parhau i brofi effeithiau hynny. Fe wnaethant sôn eu bod wedi prynu tarw a gafodd clefyd Johnne. Roedd y sied ychwanegol a adeiladwyd gyda chyllid y GCC, yn caniatáu gwahanu'r stoc yr effeithiwyd arni, a helpodd gyda rheoli clefydau. Roedd COVID-19 hefyd wedi effeithio ar gynlluniau'r ffermwr. Fodd bynnag, gan nad oedd y fenter yn dibynnu ar un farchnad, cynyddodd proffidioldeb gan fod gan y fferm ei phorthiant ei hun ar gyfer stoc wartheg a bîff.

Nododd y ffermwr y gall fod yn anodd sylwi ar yr effaith amgylcheddol. Serch hynny, roeddent yn credu bod effeithiau cadarnhaol yn debygol o ddod o'r storfa dail dan do yn ogystal â dŵr glân a dŵr budr yn cael eu gwahanu.

Roedd costau cyfalaf terfynol y prosiect yn agos at y cynllun busnes. Soniodd y ffermwr eu bod wedi cyrchu popeth yn lleol ac roedd y cyflenwyr yn cynnal eu prisiau amcangyfrifedig a gynigiwyd ganddynt ar ddechrau'r prosiect.

5.9.4. Ychwanegedd a gwelliannau

Argraff barhaol a gafodd y ffermwr oedd y canfyddiad bod y GCC yn fiwrocraidaidd. Roedd y ffermwr o'r farn bod hyn yn gwneud y GCC yn anodd i ymgeiswyr gan fod y broses i wneud cais yn heriol oherwydd ei hyd ac nad oedd ganddynt unrhyw gefnogaeth. Penderfynodd y ffermwr eu bod angen cymorth oherwydd bod rhai o gwestiynau'r cais yn cael eu hystyried yn fiwrocraidaidd ac roedd angen rhywun a oedd yn gwybod y derminoleg neu'r pethau iawn i'w dweud.

Wrth asesu ychwanegedd, daeth y ffermwr i'r casgliad y byddai wedi bod yn bosibl bwrw ymlaen heb y grant i adeiladu ei fuddsoddiad ond byddai wedi cymryd mwy o amser i ymrwymo a bwrw ymlaen ag ef. Cynigiodd y ffermwr ddwy ffordd o wella'r GCC. Yn gyntaf, lleihau biwrocraetiaeth a gwneud y cais yn haws i bawb ac, yn ail, i gynyddu'r canrannau cyllido.

5.10. Ffermwr 9 – Menter Ddefaid (Ŵyn)

5.10.1. Y cefndir a'r broses ymgeisio

Eglurodd y ffermwr eu bod wedi cymryd rheolaeth o'r busnes, a oedd ychydig dros 140ha o dir fferm mewn lleoliad ucheldirol, o'u tad. Mae'r ffermwr yn wyna ar ddechrau mis Ionawr cyn ffermwyr eraill i'w galluogi i gael prisiau uchel. Ar ben hynny, maent yn mabwysiadu system pori gohiriedig sy'n galluogi'r fferm i arbed eu glaswellt sy'n arafu faint o law sy'n mynd i mewn i afonydd a'r môr. Cynorthwyodd y grant y fferm i allu gweithredu'r dull hwn.

5.10.2. Cynllun Busnes

Prif amcan y cynllun busnes oedd datblygu system ariannol gynaliadwy ar gyfer y tymor hir i wrthsefyll taliadau cymorth fferm a allai fod yn llai. Cynigiwyd gwneud hyn drwy wneud y mwyaf o gynnyrch a pherfformiad da byw, gyda llai o golledion a lleihau costau cynhyrchu lle bo hynny'n bosibl. Cynigiodd y ffermwr:

- adeiladu adeilad newydd ar gyfer cadw defaid o dan do dros y gaeaf
- cynaeafu dŵr glaw oddi ar y to newydd i gyflenwi cafnau dŵr ar gyfer defaid yn y siediau
- adeiladu pwll newydd i ddal dŵr llifogydd posibl yn ôl yn ystod cyfnodau o law dwys
- gosod golchwr pwysedd dŵr poeth ar gyfer golchi a diheintio peiriannau a threlars i hwyluso rheoli clefydau

Canfu'r ffermwr fod y broses ymgeisio am y grant yn gymhleth gan eu bod yn teimlo wedi'u llethu gan nifer y cwestiynau y mae angen iddynt eu hateb. Gan fod y ffermwr yn ei chael hi'n anodd deall y GCC, fe wnaethon nhw logi ymgynghorydd i greu'r cynllun busnes. Serch hynny, canfu'r ffermwr fod y broses o ddatblygu cynllun busnes yn ddefnyddiol wrth lywio eu penderfyniadau busnes a synhwyrodd ei fod yn ganllaw da iddyn nhw. Nodwyd ymhellach nad ydynt bellach yn defnyddio cynllun busnes gan nad oedd angen amdano a bob blwyddyn mae newidiadau yn y byd ffermio.

Soniodd y ffermwr fod y broses o gael dyfynbrisiau am y buddsoddiad yn anodd iddyn nhw. Nododd y GCC fod angen tri amcangyfrif arnynt, ond dim ond dau yr oeddent yn gallu eu cyflwyno. Arweiniodd hyn at orfod ad-dalu £6000-0-£7000 i'r llywodraeth.

"Fe aethon ni i mewn gyda 2 amcangyfrif ac roedd yn rhaid i ni dalu £6-7000 yn ôl i'r llywodraeth ond fyddai neb wedi curo'r amcangyfrif o'n person cyntaf beth bynnag. Roedden ni'n teimlo ei fod yn annheg, ond rheolau yw rheolau."

5.10.3. Effaith y grant

Mynegodd y ffermwr fod y GCC wedi gwella cynhyrchiant yn sylweddol ar y fferm a'u bod wedi arwain at werthu eu hŵyn am bris premiwm. Roedd y buddsoddiad hefyd wedi gwella gwydnwch ar eu fferm gyda'r defnydd o ddur galfanedig ar gyfer y sied a gwella hylendid a lle i'r ŵyn. Dywedodd y ffermwr y byddai'r buddsoddiad a'r isadeiledd a grëwyd gan y grant yn para am 'genedlaethau'.

Er i'r fferm brofi colled o 20% o sganio, roeddent yn gallu gwerthu 729 o ŵyn a mamogiaid. Yn eu tro, hyd yn hyn maen nhw wedi ennill dros £100,000 mewn gwerthiant eleni. Mae eu heffeithlonrwydd hefyd wedi cynyddu gan nad ydyn nhw'n defnyddio dwysfwydydd oherwydd y glaswellt sydd wedi'i arbed o ganlyniad i'r pori gohiriedig. Roedd y ffermwr hefyd wedi gweld effeithiau amgylcheddol amlwg o'r buddsoddiad cyfalaf oherwydd seilwaith newydd yn casglu dŵr glaw a lleihau'r swm a aeth i mewn i afonydd. Er, nodwyd eu bod eisoes yn unigolyn sy'n ymwybodol o'r amgylchedd ac nad oeddent yn gwybod faint o effaith y gellid ei phriodoli i'r grant.

"Dw i'n gadwraethwr mawr, beth bynnag, ac ry'n ni wedi plannu llawer o goed a llwyni. Mae'n gydbwysedd rhwng y ddau, yr amgylchedd a chynhyrchiant. Dim ond ffermwr proffidiol sy'n gallu rhoi rhywbeth yn ôl i'r amgylchedd. Oherwydd nid yw'r rhan fwyaf o'r hyn a wnaethom wedi cael unrhyw help gan grant."

5.10.4. Ychwanegedd a gwelliannau

Doedd y ffermwr ddim yn credu y gallen nhw fod wedi gwneud y buddsoddiad heb yr arian GCC. Helpodd y grant i gefnogi gweithrediadau'r fferm gan fod ei ffigurau eisoes yn cynyddu ac yn rhedeg fel busnes proffidiol.

Awgrymodd y ffermwr y gellid gwella'r cais GCC trwy ei wneud yn symlach. Roeddent hefyd yn casáu pan oeddent am siarad â rhywun am y cais, roeddent wedi rhyngweithio â pherson gwahanol bob tro. Yn hytrach, byddai wedi bod yn well gan y ffermwr gael unigolyn ar gyfer eu cynnig a oedd gyda nhw drwy gydol y broses.

5.11. Ffermwr 10 – Menter Gymysg

5.11.1. Y cefndir a'r broses ymgeisio

Menter bîff a thir âr oedd gan y ffermwr yn bennaf cyn troi at laeth. Eglurodd fod ganddynt oddeutu 300 o wartheg a bod ganddynt gynhyrchiant cost uchel o'r buddsoddiad mawr. Roedd y ffermwr hefyd wedi dweud bod ganddyn nhw gostau uchel o hyd o ran cyllid hefyd.

Roedd y broses ymgeisio'n syml ac er eu bod yn gweithio gyda grŵp ymgynghori, fe wnaethant ymgeisio eu hunain. Dywedodd y ffermwr ymhellach eu bod yn gweld bod yr arian wedi eu cyrraedd yn gyflym ac fe wnaethant lwyddo i aros ar gyllideb i gwblhau popeth y bwriadwyd ei wneud gyda'r grant.

5.11.2. Cynllun Busnes

Wrth adolygu'r cynllun busnes, aeth y ffermwr ati i adeiladu siediau lles uchel a chyfforddus i'r gwartheg, tanc slyri a gosod 2 beiriant godro robotig – er i'r ffermwr ddweud yn y cyfweiliad bod y peiriannau godro robotig wedi cael eu disodli gan barlwr rotari. Byddai hyn yn eu helpu i sicrhau effeithlonrwydd, cost-effeithiolrwydd a gwell lles anifeiliaid.

Teimlai'r ffermwr eu bod wedi cyflawni'r hyn yr oeddent wedi bwriadu ei wneud yn eu cynllun busnes. Ar ôl adeiladu cynllun busnes eisoes ar gyfer y banc gyda monitro llif arian, roedd yr un a ddefnyddiwyd ar gyfer y cais yn fwy o ddilyniant a addaswyd at ddiben gwneud cais. Eglurodd eu bod yn dal i ddefnyddio'r cynllun busnes ac yn ei ddiweddarau'n barhaus bob blwyddyn.

5.11.3. Effaith y grant

Roedd y ffermwr yn teimlo bod y grant a'r buddsoddiad wedi helpu i gyfrannu at gynhyrchiant a phroffidioldeb y fferm. Ar yr un pryd, roeddent yn dal i fod yn gorfod derbyn prisiau'r farchnad ar gyfer llaeth, ac roedd y rhain yn amrywio. Fe wnaethant ddatgan ymhellach ei help i leihau costau a chynyddu effeithlonrwydd ar eu fferm hefyd. Gwelodd y ffermwr y grant/buddsoddiad i fod wedi helpu gyda gwydnwch yn eu busnes. Heb fynd drwy'r broses, byddent wedi bod yn cael trafferth gyda chynhyrchu llaeth.

"Bydd yr hyn a adeiladwyd gennym o ganlyniad i'r grant yma ymhen 30-40 mlynedd. Maen nhw'n dal i gael eu defnyddio."

Roedd y ffermwr hefyd wedi edrych ar effeithiau amgylcheddol o ran gwasgaru slyri. Dywedon nhw yr oeddent yn gwasgaru llai o slyri ac roedd ganddynt fwy o hyblygrwydd i'w wasgaru pan fyddai angen yr amodau. Nodwyd ymhellach y dylai'r allyriadau a gynhyrchir fod yn isel a'i fod wedi helpu i leihau dŵr ffo.

Roedd y buddsoddiad hefyd wedi helpu i ddatblygu cyflenwyr a busnesau lleol o'u cwrdd. Dywedodd y ffermwr, wrth i'r cynhyrchiant gynyddu, eu bod bellach yn cefnogi mwy o fusnesau lleol a'i fod wedi cynyddu cyflogaeth.

5.11.4. Ychwanegedd a gwelliannau

Wrth asesu'r ychwanegedd, dywedodd y ffermwr na fydden nhw wedi ei wneud heb y grant ar yr adeg honno, ond y bydden nhw o bosib wedi ei wneud yn nes ymlaen. Helpodd y grant gyda sicrwydd buddsoddi a hwylustod wrth ei gwblhau.

O ran gwella'r grant neu grantiau'r dyfodol, dywedodd y ffermwr ei fod yn dal i fod yn swm mawr o arian y bu'n rhaid iddyn nhw ei fuddsoddi gan mai dim ond 40% o gyfanswm y costau oedd y grant yn ei gwmpasu. Gyda ffermio yn ansefydlog, roedd y ffermwr yn teimlo y byddai hyn yn golygu diffyg hyder i fuddsoddi i lawer. Roedd y ffermwr eisiau cyfraddau llog isel a chefnogaeth bellach gan Lywodraeth Cymru i roi'r hyder i ffermwyr fuddsoddi. Nodwyd ymhellach y byddai mwy o help gyda chynllunio a chynghor lleol yn ddefnyddiol iddynt.

6. Canfyddiadau Grwpiau Ffocws a Chyfweliadau (Ffenestri 4-7)

6.1. Trosolwg

Bu cyfanswm o 15 o ffermwyr llwyddiannus yn cymryd rhan mewn tri grŵp ffocws, gan drafod eu profiadau gyda'r GCC (13 o gyfranogwyr yn y grwpiau ffocws a dau gyfranogwr trwy gyfweliadau) o Ffenestri 4-7. Mae'r cyfranogwyr yn cynrychioli amrywiaeth o fathau o ffermydd yng Nghymru gan gynnwys biff a defaid, llaeth, ffermio cymysg a thir â. Roeddent hefyd yn amrywio o ran yr eitemau cyfalaf yr oeddent wedi eu hawlio drwy'r cynllun.

Parhaodd pob grŵp ffocws am oddeutu awr a rhannwyd hwy yn adrannau'n ymwneud â:

- phrosesau ymgeisio a hawlio
- yr effaith a'r cyflawniadau a ddeilliodd o'r cymorth grant
- ychwanegedd, ac unrhyw welliannau yr oedd y ffermwyr o'r farn y dylai'r grant/grantiau yn y dyfodol eu hystyried

I grynhoi canfyddiadau'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau, roedd ffermwyr yn gyffredinol wedi parhau i fod yn gadarnhaol am y GCC a'r hyn a ddarparwyd ar eu cyfer. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd, roedd y broses yn achosi straen, ac nid oeddent bob amser yn gallu cyflawni'r canlyniadau i'r graddau yr oeddent wedi gobeithio amdanynt.

Roedd y cam ymgeisio a'r broses hawlio ar gyfer y grant yn aml yn cael eu hystyried yn ddwl ac yn heriol i'r ffermwr. Arweiniodd y swm sylweddol o wybodaeth a oedd ei hangen ar gyfer y cais a'r costau canfyddedig sy'n gysylltiedig ag ef, p'un ai o ran amser neu o ran defnyddio ymgynghorydd, at straen i lawer o ffermwyr. Roedd y broses ddyfynbris hefyd yn cael ei hystyried yn gymhleth ac yn anodd cyflawni'r tri dyfynbris yr oedd eu hangen ar gyfer eu heitemau cyfalaf. Roedd y cynllun busnes hefyd yn aml yn cael ei ystyried yn ymarfer dim ond ar gyfer y cais am grant ac roedd cynllun pum mlynedd yn cael ei ystyried yn anymarferol.

O ran effaith, roedd ffermwyr yn gweld bod y buddsoddiad a'r grant wedi cefnogi'r amcanion yr oeddent yn anelu at eu cyflawni yn effeithiol. Fe wnaethant arsylwi ar wahanol welliannau, yn enwedig o ran effeithlonrwydd a gwydnwch eu busnesau yn y tymor hir. I lawer o ffermwyr, roedd hefyd yn hwyluso cydymffurfiaeth â, neu'n eu rhoi ar y trywydd iawn i gydymffurfio â Rheoliadau Llygredd Amaeth Cymru (2021). Roedd ffermwyr hefyd yn cydnabod manteision y grant a'r buddsoddiad o ran effeithiau amgylcheddol, megis gwell ansawdd dŵr, a'r dylanwad cadarnhaol a gafodd ar gefnogi'r economi leol trwy gyrchu deunyddiau a chyflogi adeiladwyr.

Roedd ffermwyr hefyd yn wynebu heriau allanol amrywiol a effeithiodd ar ganlyniadau a llinellau amser y prosiectau yr oeddent wedi defnyddio'r cymorth grant ar eu cyfer. Soniwyd am gynnydd mewn costau, effaith COVID-19, a delio â rheoliadau cynllunio ac awdurdodau (fel SuDS a CNC) fel rhwystrau i gynnydd prosiectau'r ffermwyr.

Soniwyd hefyd am welliannau gan ffermwyr ar yr hyn a fyddai wedi gwella'r cynllun GCC neu a allai wella grantiau yn y dyfodol. Rhannwyd y rhain yn ddau brif gategori:

- Costau – Darparu naill ai canran fwy o gymorth grant neu help gyda chostau ymgynghori. Soniodd ffermwyr hefyd, pe bai'n cael eu gwneud yn gywir, y byddai costau safonol/sefydlog hefyd yn ateb defnyddiol iddyn nhw.
- Symrlwydd a chymorth – Gwneud y cais am grant mor syml a hyblyg â phosibl i'r ffermwr. I ddarparu arbenigwyr neu rywun y gallent eu galw am eu cais am grant neu gwestiynau arno.

6.2. Prif ganfyddiadau ar gyfer y broses ymgeisio a hawlio

Roedd gan ffermwyr deimladau cymysg i wneud cais am y GCC a derbyn y grant. Er bod rhai ffermwyr wedi nodi bod y broses ymgeisio a'r broses hawlio yn hawdd ac nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau, roedd y mwyafrif wedi nodi sawl her gyda chostau, cymhlethdod y cais, y dyddiad cau a phroblemau â dyfynbrisiau. Bydd yr adran hon yn canolbwyntio ar yr heriau yr oedd ffermwyr wedi'u crybwyll ynghylch y broses ymgeisio a'r broses hawlio.

6.2.1. Costau

Roedd y rhan fwyaf o ffermwyr wedi defnyddio ymgynghorydd ac roedd costau gwneud cais am y grant GCC yn cael eu hystyried yn her fawr. Dywedodd ffermwyr eu bod naill ai wedi mynd i gostau mawr am gyflogi ymgynghorydd neu gostau o ran yr amser a gymerodd y ffermwr i gasglu'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi'r cais. Roedd ffermwyr hefyd yn ei weld fel mesur gwaharddol ar gyfer cael mynediad at y grant, o gofio na fyddai gan lawer o ffermwyr yr amser na'r rhyddid ariannol i wneud cais.

"Roedd yn llawer mwy heriol na grantiau eraill ar y pryd. Roedd yn rhaid i ni gyflogi ymgynghorydd i helpu gyda rhagolygon llif arian a'n cynllun rheoli maetholion. Mwy o gostau nag yr oeddem wedi ei ddisgwyl."

6.2.2. Cymhlethdod a straen

Soniodd ffermwyr hefyd fod cymhlethdod y cais yn achosi straen iddynt wrth wneud cais am y grant. Canfu llawer fod y maint o wybodaeth yr oedd ei hangen i wneud cais yn cymryd llawer o amser ac yn anodd ei chasglu. Holodd ffermwyr pam roedd angen iddynt roi'r wybodaeth a wnaethant, ac roeddent yn teimlo nad oedd y canllawiau'n ddigonol neu'n ddealladwy i ddechrau.

6.2.3. Amser

Maes o bryder i ffermwyr oedd yr amser rhwng gwneud cais am y grant a hawlio'r grant. Oherwydd y swm mawr o arian a ymrwymwyd i'r eitemau cyfalaf o'u harian eu hunain neu fenthyciadau banc, dywedodd ffermwyr fod y broses yn achosi straen iddynt. Gwaethygydd hyn ymhellach gan yr amser a gymerwyd rhwng gwneud cais a chael yr arian o'r grant. Dywedodd llawer o ffermwyr ei fod wedi gadael eu busnes yn agored i niwed yn y tymor byr oherwydd y buddsoddiad mawr.

Roedd un ffermwr wedi sôn eu bod yn cael problemau yn ystod y broses hon gydag adeiladu eu lagŵn slyri ac yn teimlo bod hawlio'r grant wedi bod yn broses llawn straen:

"Arweiniodd hyn at rai nosweithiau di-gwsg ynglŷn â'r peth, a dweud y gwir, oherwydd roedd tipyn o arian yn y fantol ac mae'n teimlo weithiau eich bod chi wir yn gorfod cyfiawnhau hynny bron. Wyddoch chi, maen nhw wedi dweud y gallwch chi ei gael, ond mewn gwirionedd mae'n rhaid i chi werthu'ch hun eto. Hefyd, wyddoch chi, maen nhw [Llywodraeth Cymru] yn hongian y brigyn hwnnw drosoch chi nad ydyn nhw'n mynd i'w dalu, yn y bôn."

6.2.4. Cael Dyfynbrisiau

Mater arall a grybwyllwyd gan ffermwyr yr oeddent yn ei chael yn anodd neu a oedd yn achosi straen iddynt oedd y broses ddyfynbris ar gyfer y grant. Gan fod angen i ffermwyr gyflwyno tri dyfynbris gan gontractwyr ar gyfer eu heitemau cyfalaf, roedd llawer o'r farn bod y broses yn anodd ei chwblhau ac yn ddiangen. Roedd ffermwyr yn ei chael hi'n anodd caffael tri dyfynbris a nodwyd na fyddai llawer o gontractwyr yn cynnig dyfynbrisiau iddynt. Roedd ganddynt broblemau hefyd ynghylch nad oedd dyfynbrisiau'n para dros 30 diwrnod neu pan ddaeth y ffermwr yn ôl at y contractwr roedd y pris y cytunwyd arno wedi newid/cynyddu'n sylweddol.

Roedd ffermwyr eraill yn credu, pan sylweddolodd contractwyr fod y dyfynbris ar gyfer y broses grant, y byddai'r contractwr yn codi mwy o dâl neu na fyddai'n rhoi dyfynbris iddynt gan eu bod yn teimlo nad oedd pwynt gan nad oedd y ffermwr yn debygol o'u defnyddio beth bynnag.

"Yr her oedd y broses 3 dyfynbris gan mai dim ond am 30 diwrnod yr oedd rhai dyfyniadau yn ddilys a dywedodd rhai cyflenwyr, os nad ydych chi'n mynd i'n defnyddio ni beth bynnag, pam y dylem drafferthu gyda chynnig dyfynbris. Mae'n broblem wirioneddol oherwydd hyd yr amser hefyd. Mae angen cael mwy o realaeth a hyblygrwydd wrth ddeall sefyllfaoedd."

6.2.5. Defnyddio'r Cynllun Busnes

Roedd gan ffermwyr safbwyntiau cyferbyniol tuag at ddefnyddioldeb gorfod creu cynllun busnes pum mlynedd ar gyfer y cais. Er bod llawer yn defnyddio ymgynghorwyr ar gyfer hyn, roedd ffermwyr yn teimlo bod y broses o greu un yn dasg anodd a dim ond ar gyfer y cam ymgeisio. Roedd y ffermwyr a oedd wedi dweud nad oeddent wedi ei gweld yn ddefnyddiol naill ai eisoes yn gwneud yr hyn yr oeddent wedi'i nodi ar y cynllun busnes ac nad oedd ei angen neu nid oedd gwneud cynllun pum mlynedd yn ymarferol gan ei bod yn amhosibl cynllunio mor bell â hynny o'n blaenau.

"Pan maen nhw'n gofyn i chi am gynllun pum mlynedd, mae'n freuddwyd gwrach, onid yw. Gallwch seilio cynllun pum mlynedd ar y chwe mis nesaf yn unig. Dyna'r cyfan y gallwch ei wneud. "

Lleiafrif o'r ymatebwyr oedd yn meddwl bod y broses o greu cynllun busnes yn ddefnyddiol. Roeddent naill ai wedi cymryd y cynllun ac yn ei ddiweddarau'n gyson neu wedi ei addasu eto oherwydd newidiadau diweddar yn eu busnes. Nododd y ffermwyr yr angen am gynllun busnes i esblygu ac addasu i'r newidiadau yn y busnes bob blwyddyn.

"Mae hanfod y cynllun busnes yn dal i fod gyda ni. Mae'n esblygu, oherwydd, os nad yw'n esblygu, yna nid yw'n gynllun busnes da."

6.2.6. Ymgysylltu â Cyswllt Ffermio

Defnyddiwyd Cyswllt Ffermio gan dri ffermwr i dderbyn cymorth gyda'u cais GCC. Eglurodd y ffermwyr fod Cyswllt Ffermio naill ai wedi rhoi sesiynau cynghori â chymhorthdal neu wedi rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o'r hyn yr oedd y GCC yn ei olygu a'r gofynion ar gyfer y cais am grant.

6.3. Effaith y Grant

6.3.1. Cyflawni amcanion

Rhoddwyd cyflwyniad i ffermwyr o amcanion y grant GCC. Y rhain oedd:

- gwella'r rheolaeth o faetholion ar y fferm
- amddiffyn a gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer
- cynyddu effeithlonrwydd dŵr ar y fferm
- cynyddu effeithlonrwydd adnoddau ar y fferm
- ar gyfer ymgeiswyr Ffenestr 7 yn unig - Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) 2021

Pan ofynnwyd i ffermwyr a oeddent yn cyflawni'r amcanion uchod trwy'r grant, roeddent yn cytuno'n bennaf eu bod naill ai wedi eu cyflawni neu eu bod ar y trywydd iawn i'w cyflawni. Yr un mwyaf nodedig a grybwyllwyd gan ffermwyr oedd effaith y grant ar wella'r rheolaeth o faetholion ar y fferm.

"Os awn drwy'r rhestr i wella'r rheolaeth o faetholion ar fferm, ie, yn sicr fe helpodd hynny. Ac rydych chi'n gwybod ei bod hi'n broses barhaus, yna o ran gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer, rydych chi'n gwybod nad ydyn ni wedi gorffen ac rydyn ni prin wedi dechrau ar hynny ac mae ffordd hir i fynd."

6.3.2. Effeithlonrwydd a gwydnwch

Gofynnwyd i'r ddau ffermwr a oedd y grant wedi cynyddu effeithlonrwydd a/neu wydwnch ar eu fferm. O ran effeithlonrwydd, roedd llawer o ffermwyr wedi dweud ei bod wedi gwella eu gallu i redeg y fferm yn aruthrol. Roedd yr eitemau cyfalaf a gefnogwyd gan y grant wedi caniatáu naill ai'r ffermwyr i reoli tasgau ar eu pennau eu hunain neu leihau'r amser a gymerodd i wneud gweithgareddau penodol. Er enghraifft, nododd un ffermwr gynnydd mewn effeithlonrwydd oherwydd y 'chwalwr tail' yr oeddent wedi'i brynu trwy'r grant. Roedd hyn yn caniatáu iddynt gael y dasg o wasgaru tail yn gyflymach a achubodd lawer o amser iddynt ac a ganiataodd iddynt ganolbwyntio ar feysydd eraill o'u busnes.

Roedd ffermwyr yn ystyried y GCC yn bennaf fel rhywbeth a oedd yn darparu gwydnwch hirdymor iddynt. O'i gymharu â grantiau llai eraill, roedd y GCC yn golygu y gallent fuddsoddi mewn offer cyfoes neu ar raddfa fwy a fyddai'n cynyddu effeithlonrwydd a phroffidioldeb iddynt.

"Roedd y cynllun grant ei hun yn ffordd dda o gael arian ar y fferm i wella cyfleusterau a'i gwneud yn fwy gwydn tuag at y dyfodol, roedd y GCC yn grant da iawn ac mae wedi gwneud peth da i'n fferm."

Pwnc arall sy'n ganolog i'w drafod ynghylch gwydnwch drwy'r grant oedd ei help i wneud ffermydd i gydymffurfio â rheoliadau. Soniodd ffermwyr ei fod wedi helpu i'w gwneud hi'n haws cydymffurfio â'r Rheoliadau Llygredd Amaeth neu eu rhoi eu hunain ar y trywydd iawn i sicrhau cydymffurfiaeth. Soniodd un ffermwr fod y grant wedi eu gwneud yn fwy

hunangynhaliol ac yn ecolegol hunanymwybodol wrth iddynt fuddsoddi yn eu fferm a chydymffurfio â rheoliadau.

Roedd ffermwyr eraill yn teimlo bod cydymffurfio â rheoliadau'n golygu nad oeddent yn cyflawni'n llawn y lefel o wydnowch neu'r effeithlonrwydd ar eu fferm yr oeddent yn teimlo y gallent ei chael. Dywedodd un ffermwr y gallai eu gweithrediad fod wedi dod yn llawer mwy effeithlon os na fyddai'n rhaid iddynt boeni am gydymffurfiaid a rheoliadau sy'n dal eu buddsoddiad yn ôl.

"Roedd y swm enfawr o goncrit rydyn ni wedi'i arllwys yno oherwydd cydymffurfio ac nid oherwydd effeithlonrwydd."

6.3.3. Buddion amgylcheddol

Roedd ffermwyr hefyd yn gweld effeithiau amgylcheddol a buddion y grant. Fe wnaethant adrodd am welliannau i'r amgylchedd o amgylch eu fferm a mabwysiadu mesurau a oedd yn lliniaru dirywiad amgylcheddol hefyd. Roedd ffermwyr hefyd wedi mynegi eu bod bellach yn fwy ymwybodol yn ecolegol ac yn gallu rheoli risgiau ar eu ffermydd. Roedd ffermwyr yn sôn yn bennaf am 'danciau dŵr budr', 'cronni gwaddodion' ac eitemau cyfalaf eraill a oedd yn gwella ansawdd dŵr a chyfeillgarwch amgylcheddol ar eu fferm.

Ar yr un pryd, roedd un ffermwr wedi sôn ei fod, oherwydd maint y grant, ond wedi caniatáu iddynt newid ychydig o'u fferm a dim ond budd amgylcheddol bach yr oeddent yn ei weld.

6.3.4. Yr economi leol

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn gweld natur gadarnhaol y grant ar gyfer yr economi leol. Soniodd ffermwyr eu bod yn cyrchu'r llafur a'r deunyddiau gan fusnesau neu gyflenwyr lleol sy'n agos at eu ffermydd i helpu i gefnogi eu buddsoddiad. Roedd cefnogi'r economi leol yn cael ei ystyried yn sgil effaith fuddiol y grant i'r ffermwyr.

"Rwy'n credu ei fod yn beth da i'r economi leol mewn gwirionedd. Mae'n braf iawn ac mae'n dda ei weld yno ac yn cadw i fynd. Mae'n dda eu defnyddio ac rydych chi'n gwybod eu bod nhw'n gwneud yn dda. Rwy'n credu ei fod yn beth da."

Er bod y rhan fwyaf o ffermwyr yn gweld yr effaith yn gadarnhaol ar yr economi leol, tymor byr oedd hwn yn bennaf yn ystod y cyfnod adeiladu a chefnogi busnesau a chyflenwyr. Fodd bynnag, roedd ychydig o ffermwyr yn gweld effaith hirdymor o ran naill ai defnyddio'r un busnes ar gyfer gwaith atgyweirio neu gynyddu faint o bobl roedden nhw'n eu cyflogi ar y fferm.

6.4. Ffactorau a Heriau Allanol

6.4.1. Newidiadau mewn costau

Roedd costau cynyddol yn her sylweddol i ffermwyr, wedi'u sbarduno i raddau helaeth gan ffactorau allanol. Roedd hyn wedi effeithio'n fawr arnyn nhw pan oeddent yn trio cael tri dyfynbris yn ystod y cam ymgeisio. Eglurodd ffermwyr fod dyfynbrisiau gwreiddiol naill ai wedi newid a chynyddu neu wedi dod yn ddi-rym ar ôl cyfnod o amser. Achosodd hyn straen a chymhlethdod ychwanegol i ffermwyr wrth gael dyfynbrisiau a rheoli cost eu gwaith cyfalaf.

"Roedd gennym ni broblemau gyda phopeth o'r cychwyn cyntaf. Y broblem gyntaf oedd cael pobl i gynnig dyfynbrisiau. Ni fyddent yn cynnig dyfynbrisiau. Pe baent yn cynnig dyfynbris, pan aethom yn ôl i'w brynu ganddynt, roedd y dyfynbrisiau wedi cynyddu'n sylweddol. Enghraifft o hyn oedd y gorchudd slyri. Cefais ddyfynbris o £8000 am y gorchudd isel hwn. Mewn gwirionedd, roedd yn ddwbl y pris, £16,000, pan ddaethant i mewn a'i ffitio. Felly doedd y broses ddyfynbris ddim wedi gweithio'n dda iawn o gwbl."

Nododd ffermwyr ymhellach, er bod y grant yn 40%, roedd yn agosach at 30% erbyn i lawer ymrwymo i'r eitemau cyfalaf a bod y cynnydd mewn costau wedi'i ymgorffori yn y prosiect.

6.4.2. COVID-19

Her arall a brofodd ffermwyr oedd y dylanwad gafodd COVID-19 dros y broses. Roedd ffermwyr wedi nodi problemau gyda dod o hyd i ddeunyddiau ac eitemau yn ystod pandemig COVID-19. Nododd un ffermwr nad oedd unrhyw danciau slyri yn y DU i'w harchebu ar y pryd. Roedd hyn yn golygu bod y broses ar gyfer gweithredu'r prosiect wedi cael ei gohirio a'i hystyngtu y tu hwnt i'r hyn yr oeddent wedi ei ragweld yn wreiddiol.

Effeithiodd COVID-19 yn negyddol ar allu ffermwyr i ddod o hyd i lafur ac achosodd godiadau cost sylweddol oherwydd argaeledd cyfyngedig offer a mewnbynnau amrywiol ar y pryd. Nodwyd natur heriol y broses i weithredu eu heitemau cyfalaf a straen diangen wrth i rywbeth y tu allan i'w rheolaeth effeithio arnynt.

6.4.3. Rheoliadau ac awdurdodau cynllunio

Roedd gan ffermwyr heriau hefyd gyda rheoliadau fel y Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau), y mae eu cyflwyno wedi achosi ffermwyr i deimlo eu bod wedi'u dal ar eu cam. Roeddent naill ai'n ansicr a oedd y SDC yn berthnasol i'w prosiect, neu roedd angen iddynt gael cymeradwyaeth gyda'r Corff Cymeradwyo SDCau (CCS) cyn y gallent ei weithredu ar eu fferm. Arweiniodd hyn at gymhlethdod pellach wrth i gynllunio a phroses gymeradwyo'r SDC olygu oedi a chostau pellach i'r ffermwr.

“Cefais hunllef gyda'r SDC ac roedd yn union hyd at y terfyn ar y grant, y cynllunio a phopeth arall.”

Roedd ffermwyr eraill wedi crybwyll bod cymeradwyo cynllunio lleol yn rhwystr arall i ddatblygu'r prosiect yr ymgwymerwyd ag ef gyda'r GCC. Dywedon nhw fod cyfran fawr o'r grant yn cael ei wario ar gynllunio ac roedd y broses o gymeradwyo yn araf i lawer. Yn ystod COVID-19, nododd un ffermwr nad oeddent yn gallu cael caniatâd cynllunio gan nad oedd unrhyw swyddogion cynllunio ar gael ar y pryd. Cynyddodd hyn yr amser a gymerodd i gwblhau'r prosiect.

Roedd ffermwr arall hefyd wedi nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn rhwystr i'w gwaith o adeiladu storfa slyri ar eu fferm. Roedd y ffermwr yn teimlo bod ganddyn nhw leoliad addas, ond gwrthododd CNC oherwydd ei fod yn rhy agos at afon. Dywedon nhw nad oedd unrhyw leoliad arall a argymhellwyd gan CNC yn addas ar gyfer eu fferm. Effeithiodd y cyfathrebu rhwng y ffermwr a CNC ar amserlen a chostau'r prosiect.

6.4.4. Ychwanegedd

Wrth asesu ar gyfer ychwanegedd, gofynnwyd i ffermwyr a fyddent wedi bwrw ymlaen heb y grant a gweithredu'r gwelliant ar eu fferm. Dywedodd y mwyafrif y bydden nhw wedi bwrw ymlaen heb y grant. Nododd ffermwyr fod llawer o'r prosiectau eisoes yn rhywbeth sydd naill ai wedi'i gynllunio neu fod angen ei wneud oherwydd bod y rheoliadau sydd i ddod yn effeithio arnynt.

Eglurodd ffermwyr a nododd y byddent wedi bwrw ymlaen â'u gwaith cyfalaf, p'un a oeddent yn derbyn y grant ai peidio, fod y grant yn caniatáu iddynt fynd y tu hwnt i'r hyn yr oeddent wedi'i gynllunio'n wreiddiol. Roedd hyn yn golygu bod y buddsoddiad naill ai'n cael ei wneud ar raddfa fwy neu'n cael ei ganiatáu ar gyfer offer mwy diweddar neu ddrud.

“Byddem fwy na thebyg wedi prynu'r chwalwr tail beth bynnag. Roedd yn mynd i orfod digwydd, ond yn amlwg fe wnaeth y grant helpu'n fawr, wyddoch chi. Fe helpodd gyda'r gost ac mae'n debyg bod gennym beiriant ychydig yn well nag y byddai wedi bod gennym fel arall.”

Dim ond dau ffermwr a ddywedodd yn benodol na fyddent wedi bwrw ymlaen heb y cymorth grant. Eglurodd na fyddent wedi cael yr arian fel arall i wneud eu hunain yn hollol gydymffurfiol â rheoliadau neu na fyddent wedi gallu symud eu busnes ymlaen i'r graddau yr oedd angen iddynt wneud heb y grant.

6.4.5. Costau

Soniodd ffermwyr fod cost llogi ymgynghorydd i gwblhau eu cais am grant yn fuddsoddiad ariannol sylweddol ar eu rhan. Dywedodd ffermwyr yr hoffent fod wedi gweld ychydig o'r gost o logi ymgynghorydd wedi'i chymhorthdal o dan y grant, os nad y cyfan.

Nododd ffermwyr eraill yr angen am fwy o hyblygrwydd wrth addasu costau o dan y grant neu gyfiawnhau cynnydd yn y swm y gallent ei hawlio. O ystyried na chafodd llawer y 40% llawn oherwydd costau uwch, roeddent yn teimlo y dylid ailasesu canran y cyllid a dylid darparu hyblygrwydd yn seiliedig ar yr amgylchiadau yr oedd y ffermwyr yn eu hwynebu.

Yr agwedd olaf ar drafod ynghylch costau oedd darparu costau safonol. Amlygodd y ffermwyr y byddai'r dull hwn yn fwy cyfleus ac effeithlon, gan leihau'r drafferth o ran cael tri dyfynbris a dileu'r angen am ddarparu biliau wedi'u heitemeiddio'n fanwl. Ynghylch y defnydd o gostau safonol, nododd un ffermwr:

"Mae costau safonol yn hollol iawn cyn belled â'u bod yn gyfredol. Fel arall, mae'n drychineb llwyr, ond wyddoch chi y byddai cost safonol yn dileu'r angen am unrhyw ddyfynbris yn y bôn. Os ydych chi'n gosod llathen neu giwb o goncrit, dyma'r hyn a gewch ar ei gyfer. Bydd y farchnad yn gofalu amdano'i hun a byddwch naill ai'n penderfynu a ydych chi am wneud hynny ai peidio."

6.4.6. Symrlwydd a chymorth pellach

Awgrymodd ffermwyr welliannau amrywiol i'r grantiau a chynlluniau grant yn y dyfodol o ran gwneud y broses yn fwy syml ac yn haws ei deall. Roedden nhw wedi sôn am y problemau gyda chymhlethdod y cam ymgeisio ac yn meddwl tybed pam fod angen yr holl wybodaeth yr oedd yn rhaid iddynt ei darparu ar Lywodraeth Cymru, yn benodol Taliadau Gwledig Cymru (TGC). Dylai'r broses ymgeisio, o'u safbwynt nhw, fod mor syml â phosibl i wneud cais amdano, yn ogystal â deall yr hyn y gallent ei gael o'r grant a pham fod angen y wybodaeth hon ar Lywodraeth Cymru.

"Mae angen dull ac arweiniad mwy realistig i gefnogi dealltwriaeth a sefyllfaoedd. Mae angen i ni wybod pam mae angen y wybodaeth hon ar TGC. Treuliyd llawer o oriau ar y cais."

Daeth awgrymiadau eraill ar ffurf eisiau cymorth i drafod y grant neu gyswllt penodol os aeth rhywbeth o'i le neu os nad oeddent yn deall. Soniodd un ffermwr y gallai llinell gymorth fod yn ddefnyddiol i gysylltu â hi a'u cefnogi ar eu cais grant penodol. Roedd ffermwyr eraill eisiau arbenigwr technegol y gallent droi ato i'w holi am faterion penodol yn ystod y grant GCC.

"Os bydd unrhyw broblem yn un dechnegol lle mae angen cyfrifiadau technegol arnoch, rwy'n credu bod angen iddyn nhw ein helpu ni ychydig yn fwy ar yr ochr honno oherwydd nid ydym yn dechnegwyr, wyddoch chi, o bell ffordd, rydyn ni eisiau bwrw ymlaen â'r gwaith ac os ydyn ni'n ei chael hi'n anghywir, mae'r cyfan yn dod yn ôl arnom ni. Felly rwy'n credu y dylai fod rhyw fath o arbenigedd sydd ar gael dim ond i sicrhau bod eich ffigurau yn gywir a bod eich cyfrifiadau i gyd yn iawn."

7. Trafodaeth

7.1. Effeithiolrwydd y Rheolaeth o'r GCC

7.1.1. Cyfathrebu

Nododd yr ymgeiswyr llwyddiannus (58%) a'r rhai aflwyddiannus (65%) mai gwasanaethau Llywodraeth Cymru fel Cyswllt Ffermio, Gwlad a'r wefan swyddogol oedd sut y daethant yn ymwybodol o'r GCC, yn bennaf. Dysgodd yr ymgeiswyr llwyddiannus hefyd am y grant gan ymgynghorwyr/asiantau (22%) a ffrindiau/cymdogion (15%). Dywedodd canran uwch o'r ymgeiswyr aflwyddiannus eu bod yn defnyddio erthyglau yn y wasg (26% o'i gymharu â 9%) fel ffynonellau eraill o ymwybyddiaeth o'r GCC ond canran is (13% o'i gymharu â 22%) a wnaeth grybwyll ymgynghorwyr/asiantau fel y ffynhonnell.

Mae cyfweiliadau a grwpiau ffocws yn dangos nad oedd rhai ffermwyr wedi derbyn y cyfathrebu cychwynnol ynglŷn â'r grant. Roedd rhai ohonynt yn gweld y cam ymgeisio yn anodd a dywedodd llawer y byddent wedi ymgeisio am swm grant mwy pe baent wedi deall yr effeithiau a'r canllawiau cychwynnol yn llawnach.

7.1.2. Y broses ymgeisio a hawlio

Yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg ar-lein, roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr llwyddiannus naill ai'n fodlon (51%) neu'n fodlon iawn (8%) gyda'r broses ymgeisio, tra bod cyfran lai (24%) o'r ymgeiswyr aflwyddiannus yn teimlo'r un fath (15% yn fodlon, 9% yn fodlon iawn).

Mae canlyniadau'r arolygon hefyd yn dangos bod yr ymgeiswyr llwyddiannus wedi tueddu i geisio mwy o gymorth ar draws gwahanol agweddau ar y broses ymgeisio o'u cymharu â'r ymgeiswyr aflwyddiannus.

Dywedodd rhai cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau fod canllawiau ar y cam ymgeisio yn aneglur ac yn aml yn gymhleth. Roedd llawer o ffermwyr o'r farn bod angen ymgynghorydd, a hebddo, byddai'n rhy heriol neu o bosibl yn eu hatal rhag cael y grant. Penderfynodd lleiafrif o ffermwyr (6 allan o 15) o'r grŵp ffocws a chyfweiliadau beidio â defnyddio ymgynghorydd.

Dangosodd cyfweiliadau a grwpiau ffocws hefyd fod y system ddyfynbris a ddefnyddiwyd yn ystod y broses grantiau yn aml yn rhwystr ac yn anodd ei chyflawni i ffermwyr. Oherwydd ffactorau allanol fel COVID-19 a chostau cynyddol, canfu ffermwyr naill ai nad oeddent yn gallu cael tri dyfynbris ar gyfer eu heitemau cyfalaf, neu nad oedd y dyfynbris yn ddilys mwyach. Eglurodd ffermwyr eraill bod prisiau wedi cynyddu'n sylweddol ers y dyfynbris cyntaf a ddarparwyd gan gyflenwyr neu adeiladwyr, gan effeithio felly ar gost gyffredinol y buddsoddiad.

O ran y broses hawlio, mae canlyniadau'r arolygon ar-lein yn awgrymu mai dim ond tua 40% o'r ymgeiswyr llwyddiannus oedd yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r cymorth a ddarparwyd gan TGC yn y broses hawlio; roedd ychydig islaw 50% o'r ymatebwyr wedyn yn hapus â'r amser yr oedd ei angen i brosesu eu hawliadau.

Datgelodd adborth o'r cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws mai maes a oedd yn peri pryder i ffermwyr oedd yr amser oedd ei angen i hawlio'r grant, a oedd yn rhoi straen ychwanegol ar ffermwyr oherwydd y swm mawr o arian a neilltuwyd i'r buddsoddiadau cyfalaf o'u cyllid eu hunain neu fenthyciadau banc.

7.1.3. Argaeledd cymorth

Mae canlyniadau'r arolygon yn awgrymu yr oedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr llwyddiannus wedi ceisio cymorth allanol am bethau fel paratoi'r cynllun busnes (66%), llenwi'r ffurflen gais (55%), a darparu gwybodaeth ategol (53%).

Datgelodd y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws safbwynt mai ychydig iawn o gymorth a ddarparwyd i lawer o ffermwyr. Roedd llawer eisiau mwy o hyblygrwydd ac arweiniad yn y cam ymgeisio ac yn ystod datblygiad y prosiect. Nodwyd materion yn ymwneud â diwedddaru eu prosiect, darparu anfonebau/biliau ac estyniadau neu newidiadau i'r amserlen.

Er bod ffermwyr eraill wedi nodi cymorth gan wasanaethau fel Cyswllt Ffermio i'w helpu yn ystod y broses grantiau, fe wnaethant egluro bod naill ai cynghorydd wedi eu helpu gyda chwestiynau a deall y grant neu fod Cyswllt Ffermio wedi ariannu'r ffioedd cynghori ar gyfer y cam ymgeisio.

7.1.4. Datblygu cynllun busnes

Er bod 60% o ymatebwyr yr arolygon wedi nodi bod paratoi cynllun busnes yn ddefnyddiol o ran creu ffocws i'r fferm, gan helpu ffermwyr i fyfrio ar gostau a'i ddefnyddio i gynllunio ar gyfer y dyfodol, awgrymodd y cyfweiliadau manwl mai ychydig iawn o ffermwyr a ddefnyddiodd eu cynllun busnes yn ystod neu ar ôl gweithredu'r prosiect a gefnogwyd gan y GCC.

Mae'r cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws yn dangos bod y cynllun busnes pum mlynedd a ddatblygwyd ar gyfer y cam ymgeisio wedi'i ystyried gan lawer fel rhywbeth nad oedd yn ddefnyddiol iawn. Nid oedd y rhan fwyaf bellach yn defnyddio cynllun busnes neu wedi symud ymlaen o'r cynllun busnes a ddefnyddiwyd ar y cam ymgeisio ac roeddent bellach yn defnyddio eu cynllun eu hunain a oedd wedi'i ddiwedddaru neu newid. Roedd y ffermwyr yn ei chael hi'n anodd cyfiawnhau defnyddio'r cynllun busnes gan ei fod yn gynllun pum mlynedd ac roedd llawer wedi newid arferion eu fferm ers ymgeisio ag ef; neu roeddent wedi wynebu heriau annisgwyl a newidiodd ffocws a chanlyniadau eu busnes.

7.2. Effaith y GCC

7.2.1. Cyflawniadau yn erbyn amcanion y GCC

Mae'r cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws yn dangos bod ffermwyr wedi cyflawni neu ar y trywydd iawn i gyflawni'r hyn a amlinellwyd ganddynt fel amcanion a nodwyd yn eu cynlluniau busnes. Roeddent yn cydnabod effaith gadarnhaol gan y grant, ond roedd anghydfod ynghylch y graddau neu'r dylanwad a gafodd ef. Roedd ffactorau allanol fel costau ynni cynyddol, anawsterau gyda chyflenwyr ac adeiladwyr, caniatâd cynllunio a COVID-19 (mwy o her yn Ffenestri 4-7) yn golygu bod y canlyniadau a ragwelwyd weithiau'n gwyro oddi wrth y hyn a ddywedon nhw'n wreiddiol.

Er bod Ffenestri 1-3 yn fwy o ran swm y grant na ffenestri diweddarach, roedd eu nodau'n adlewyrchu newidiadau mawr i'r busnes i gynyddu proffidoldeb cyffredinol ac ehangiad cyffredinol eu busnes. Dengys llawer o'r astudiaethau achos fod proffidoldeb, effeithlonrwydd a gwydnwch wedi'u cyflawni drwy'r cymorth grant gan iddo ganiatáu buddsoddiad ar raddfa a oedd yn diogelu eu busnes at y dyfodol.

Dangosodd Ffenestri 4-7 fwy o ffocws ar reoleiddio a chydymffurfiaeth â Rheoliadau Llygredd Amaeth Cymru (2021) a SuDS. Gyda swm llai y grant, roedd llawer yn teimlo eu bod yn dal i allu sicrhau effeithlonrwydd a gwydnwch eu busnes a'u cael yn unol â'r rheoliadau a oedd ar ddod. Fodd bynnag, oherwydd ffactorau allanol fel newidiadau a chodiadau mewn costau, soniodd llawer o'r ymgeiswyr i ffenestri diweddarach fod swm y grant a gynigir yn agosach at 30%, gan ddangos bod effaith gyffredinol y cymorth grant yn sylweddol is nag yr oeddent wedi'i gynllunio'n wreiddiol.

7.2.2. Effeithiau amgylcheddol ac economaidd

Mae canlyniadau'r arolygon ar-lein yn awgrymu bod y cynllun GCC wedi cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd (lleihau llygredd, cynyddu cydymffurfiaeth â rheoliadau ansawdd dŵr, ac ati) a pherfformiad economaidd busnesau fferm (cynnydd mewn trosiant, elw a gwerthiant, a gostyngiadau mewn costau), a gwella effeithlonrwydd swyddi, diogelu swyddi a manteision i'r economi leol.

Dangosodd y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws fod ffermwyr yn gweld effaith amgylcheddol eu buddsoddiad. Er bod hyn yn cael ei ystyried yn fwy arwyddocaol yn Ffenestri 1-3 gan fod ganddynt fuddsoddiadau ar raddfa fwy ar eu fferm, roedd ymgeiswyr i Ffenestri 4-7 hefyd yn gweld bod gwell rheolaeth slyri a datrysiadau dŵr glân wedi cyfrannu at fanteision amgylcheddol ar eu fferm.

Effaith arall a grybwyllwyd oedd yr hyblygrwydd a'r lles a ddarparwyd gan y grant. Roedd ffermwyr wedi nodi ei fod yn eu galluogi i fod yn hyblyg gydag amseriadau ar eu fferm yn ogystal â rheoli tasgau mawr yn llawer mwy effeithlon a chyflym. Fe wnaeth hyn wella lles a gwydnwch ffermwyr o ran rheolaeth hirdymor ar y fferm.

Mae busnesau a chyflenwyr lleol hefyd wedi elwa o'r cymorth grant. Drwy'r broses ddyfynbris, cefnogodd ffermwyr gyflenwyr ac adeiladwyr lleol i ddatblygu eu buddsoddiad. Roedd llawer yn ystyried y daioni a wnaeth i'w heconomi leol, er ei fod yn ei ystyried yn fudd

tymor byr. Yn aml, gwelwyd manteision tymor hir yn fwy yn Ffenestri 1-3 gan fod y buddsoddiad mwy a'r cymorth grant yn golygu bod cynnydd pellach mewn cyflogaeth a datblygu cadwyni cyflenwi ar eu ffermydd.

7.2.3. Ychwanegedd

Mae ychwanegedd yn agwedd bwysig ar asesu, ac mae canlyniadau'r arolygon ar-lein yn dangos lefel gymharol uchel o ychwanegedd/lefel isel o ddifuddiant ynghylch y cynllun CCA. Gyda 57% o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn dweud na fyddent wedi bwrw ymlaen â'u prosiect pe na baent wedi derbyn y grant a dywedodd 26% arall y byddent ond yn bwrw ymlaen ag ef yn rhannol. Roedd cymariaethau â'r grŵp o ymgeiswyr aflwyddiannus o'r arolygon hefyd yn awgrymu ychwanegedd uchel o'r cynllun GCC o ran cyflawni ystod o effeithiau.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth a gasglwyd o'r cyfweiliadau manwl a'r grwpiau ffocws yn dangos rhaniad ymhlith ffermwyr ynghylch a fyddent wedi bwrw ymlaen â'r buddsoddiad ar eu fferm heb y cymorth grant. Soniodd llawer fod y gwelliannau a'r eitemau cyfalaf y gwnaethant gais amdanynt o dan y grant yn fuddsoddiadau yr oedd y ffermwyr eisoes yn eu hystyried yn angenrheidiol (yn enwedig ynghylch rhwymedigaethau rheoleiddio). Roedd y grant, fodd bynnag, yn cefnogi'r ffermwyr i gyflymu'r broses o uwchraddio/ehangu eu fferm neu'n eu galluogi i ddilyn opsiynau a fyddai wedi bod yn anhygyrch fel arall, megis roboteg. Felly, cyfrannodd y cymorth ychwanegol o'r grant yn bennaf at greu senario a oedd yn gwneud y buddsoddiad yn gam pendant i'r ffermwyr. Roedd naill ai'n caniatáu iddynt fuddsoddi'n gyfforddus er mwyn cyd-fynd â rheoliadau'r dyfodol neu'n gwella gwydnwch drwy uwchraddio offer fferm a diogelu'r fferm at y dyfodol.

8. Casgliad ac Argymhellion

Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau allweddol o'r dystiolaeth werthuso mewn perthynas ag effaith y cynllun GCC ar fusnesau ei ymgeiswyr llwyddiannus, yn ogystal â'r cyd-destun amgylcheddol ac economaidd ehangach. Mae'n crynhoi canlyniadau allweddol a meysydd llwyddiant y cynllun, yn ogystal â nodi heriau a gwersi a ddysgwyd yn seiliedig ar ddadansoddiad ansoddol a meintiol o'r dystiolaeth a gasglwyd. Mae'r canfyddiadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod derbynwyr cyllid GCC yn gyffredinol yn ystyried yr effeithiau ar eu busnes mor gadarnhaol yn ogystal ag ar gyfer yr amgylchedd a'r economi leol. Ar ben hynny, nododd y mwyafrif na fyddai buddsoddiadau wedi gallu cael eu gwneud heb gyllid y GCC, neu o leiaf ddim mor gyflym neu ar yr un raddfa. Mae ychwanegedd/difuddiant amcangyfrifedig yn debyg i'r hyn a adroddwyd gan werthusiadau blaenorol o gynlluniau grant tebyg.

Fodd bynnag, roedd ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus yn wynebu heriau yn y cais am gyllid GCC a'r broses hawlio. Arweiniodd cymhlethdod at ddibynnu ar ymgynghorwyr, roedd cael dyfynbrisiau gan gyflenwyr yn feichus ac yn heriol, erydodd chwyddiant werth gwirioneddol cyllid, ac roedd oedi rhwng mynd i gostau a chael cyllid yn achosi problemau llif arian/dyled.

Mae'r problemau hyn yn gyfarwydd o werthusiadau blaenorol o gynlluniau tebyg. I raddau, maent yn adlewyrchu tensiynau lluosflwydd yn unig rhwng yr angen am atebolrwydd cyhoeddus o wariant ac awydd am symrlrwydd gweinyddol. Serch hynny, cynigir rhai argymhellion ar gyfer gwelliannau posibl isod.

8.1. Effeithiolrwydd y Rheolaeth o'r GCC

Gwerthuswyd effeithiolrwydd y GCC yn seiliedig ar effeithiolrwydd y broses, a fesurwyd gan effeithiolrwydd y cyfathrebu, ac effeithlonrwydd y cais a'r broses hawlio yn ogystal â'r defnydd o'r cynlluniau busnes a ddatblygwyd ar y cam ymgeisio.

8.2. Effeithiolrwydd Proses y GCC

O ran cyfathrebu, nododd cyfran fawr o'r ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus iddynt ddod i wybod am y GCC trwy wasanaethau Llywodraeth Cymru, fel Cyswllt Ffermio, Gwlad, a'r wefan swyddogol. Fodd bynnag, roedd ymgeiswyr llwyddiannus hefyd yn tueddu i ddefnyddio sianeli rhyngbersonol (fel cynghorwyr a ffrindiau/cymdogion) fel ffynonellau o wybodaeth ac roeddent yn tueddu i chwilio am fwy o gymorth ar draws amrywiol agweddau ar y broses ymgeisio.

Argymhelliad 1: Annog ffermwyr i ddefnyddio mwy o gymorth cynghori neu raglenni trosglwyddo gwybodaeth (KTE) o dan Cyswllt Ffermio wrth wneud ceisiadau i ddeall y canllawiau a ddarperir yn llawnach yn ogystal ag unrhyw oblygiadau posibl i'w busnesau.

Gwelodd y broses ymgeisio gyfradd uwch o foddhad ymhlith yr ymgeiswyr llwyddiannus na'r rhai aflwyddiannus. Ymhlith yr heriau roedd arweiniad aneglur yn ystod y broses ymgeisio, cymhlethdodau yn y system ddyfynbris, ac anawsterau wrth gael dyfynbrisiau oherwydd ffactorau allanol (fel COVID-19).

Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr llwyddiannus yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r broses hawlio. Y maes y byddai angen ei wella fwyaf oedd amser prosesu hawliadau, a achosodd rai problemau llif arian neu ddyled.

Argymhelliad 2: Dylid monitro amser prosesu'r hawliadau a nodi'r prif resymau dros oedi yn ogystal â rhoi mesurau priodol ar waith i gwtogi'r amser ar gyfer sicrhau bod arian ar gael.

Roedd argaeledd y cymorth yn amrywio, gydag ymgeiswyr llwyddiannus yn gofyn am gymorth allanol ar gyfer paratoi cynlluniau busnes, cwblhau ffurflenni cais, a darparu gwybodaeth ategol. Fodd bynnag, amlygodd y cyfweiliadau bryderon ynghylch y diffyg cymorth a ddarparwyd i lawer o ffermwyr, gan ddangos bod angen mwy o hyblygrwydd ac arweiniad yn ystod y camau ymgeisio a datblygu prosiect.

Argymhelliad 3: Dylid gwella'r wybodaeth a'r arweiniad a ddarperir yn ystod y cam datblygu prosiect i hwyluso ceisiadau o safon uchel. Ystyriwch gynnig cyllid penodol ar gyfer cymorth ymgynghorol (o fewn yr un lefel gyffredinol o gyllid) ar gyfer cynllunio busnes a phrosesau ymgeisio.

O ran y defnydd o'r cynllun busnes, er bod 60% o ymatebwyr yr arolwg wedi canfod bod paratoi cynllun busnes yn ddefnyddiol, datgelodd y cyfweiliadau manwl mai ychydig iawn o ffermwyr a'i defnyddiodd yn ystod neu ar ôl y prosiect a gefnogwyd gan y GCC. Roedd y cynllun busnes pum mlynedd a ddatblygwyd ar gyfer y cam ymgeisio yn cael ei ystyried yn llai defnyddiol, gyda llawer o ffermwyr yn creu ac yn defnyddio cynlluniau newydd.

Argymhelliad 4: Dylid ystyried portreadu cynllun busnes fel tystiolaeth yn unig o gymryd rhan yn y broses o gynllunio busnes. Anogwch y diwydiant amaethyddol i fabwysiadu mwy o arferion tebyg i fusnes drwy hyrwyddo cynlluniau busnes cynhwysfawr a meincnodau perfformiad ar gyfer pob ffermwr. Sicrhewch fod y cynlluniau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer gwella busnes yn hytrach na dim ond fel offeryn ar gyfer sicrhau grantiau.

Roedd cael tri dyfynbris gan gyflenwyr yn heriol i lawer o ffermwyr, gan arwain at anawsterau o ran cael mynediad at gyllid llawn a/neu amlygiad i bwysau chwyddiant. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod llawer o godiadau mewn costau oherwydd ffactorau allanol fel COVID-19.

Argymhelliad 5: Dylid ystyried defnyddio model cost safonol, gan ganiatáu ar gyfer addasu cyfraddau talu yn ystod cyfnodau o chwyddiant uchel. Fodd bynnag, dylid nodi efallai na fydd costau safonol yn addas ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf mawr, cymhleth a phwrpasol.

8.3. Effaith y GCC

Roedd ffermwyr yn gyffredinol yn cyflawni neu ar y trywydd iawn i gyflawni eu hamcanion amlinellol, ond mae ffactorau allanol weithiau'n achosi gwyradau i ganlyniadau. Roedd Ffenestri 1–3 yn canolbwyntio ar newidiadau ar raddfa fawr, gan sicrhau proffidioldeb ac ehangu, tra oedd ffenestri 4–7 yn pwysleisio cydymffurfiaeth rheoliadau â grant o feintiau llai. Cafodd y GCC effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd a pherfformiad economaidd, fel y nodir gan ganlyniadau'r arolygon ar-lein.

Roedd ffermwyr yn gweld manteision amgylcheddol, hyblygrwydd, a gwelliannau lles oherwydd y grant. Bu'r buddsoddiad o fudd i fusnesau lleol drwy ddod o hyd i gyflenwyr yn lleol, gan gyfrannu at enillion economaidd tymor byr a hirdymor.

Argymhelliad 6: Mae angen gwell data monitro i fesur newidiadau dros amser yn sgil cymorth grant ar gyfer canlyniadau economaidd ac amgylcheddol. Ystyriwch ddefnyddio templed mwy safonol (er enghraifft, y cynllun busnes) i gasglu data gwaelodlin a data diwedd prosiect a gwneud hyn yn amod o dderbyn y cymorth grant i'r ymgeiswyr llwyddiannus.

8.4. Ychwanegedd

Awgrymodd yr arolwg ar-lein lefel gymharol uchel o ychwanegedd, gyda mwyafrif yn nodi na fyddent yn bwrw ymlaen â'r prosiect heb y grant. Datgelodd y cyfweiliadau manwl wahaniaeth barn ynghylch a fyddai ffermwyr wedi bwrw ymlaen heb y grant, ond roedd llawer yn cydnabod rôl y grant o ran cyflymu'r gwaith uwchraddio a galluogi mynediad at opsiynau na fyddai fel arall yn gyraeddadwy.

Argymhelliad 7: Mabwysiadwch fetrigau ychwanegol i fesur ychwanegedd a gesglir fel mater o drefn fel rhan o'r broses ymgeisio a hawlio er mwyn caniatáu'r gwaith o amcangyfrif yr ychwanegedd yn haws, heb orfod troi at arolygon ad hoc.

Mae'r canfyddiadau'n nodi effeithiau cadarnhaol a heriau, gan bwysleisio'r angen am welliant parhaus mewn cyfathrebu, argaeledd cymorth, ac eglurder yn y prosesau ymgeisio a dyfynbrisiau ar gyfer iteriadau'r GCC yn y dyfodol.

Atodiad A: Rhestr o Randdeiliaid ar gyfer Cyfweiliadau Cwmpasu

Enw	Rôl / rôl flaenorol gyda'r GCC
Kevin Taylor	Rheolwr Polisi'r Cynllun - ASDD
Richard Evans	Pennaeth Cangen Reoli'r Cynllun - ASDD
Andrew Chambers	Drafftio'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaeth) yn flaenorol – o ASDD gynt
Jane Mathias	Pennaeth Gweithrediadau - TGC
Ken Jones	Swyddog arfarnu ar gyfer GCC 1-3 – TGC
Fiona Abberley	Rheolwr Gweithredu Cynllun TGC (arfarniadau GCC 4-7) – TGC
Joanne Gibson	Rheolwr Proses y Cynllun TGC

Atodiad B: Canllaw'r Cyfweiliad Cwmpasu

Cyflwyniad

Mae ADAS wedi'i gomisiynu i asesu gweithrediad ac effaith y GCC ac mae am siarad â rhanddeiliaid mewnol allweddol fel cam cyntaf pwysig o'r gwerthusiad i lywio'r model rhesymeg a'r ddealltwriaeth o'r cynllun.

1. Ni fydd y cyfweiliadau'n cymryd mwy na 60 munud ac mae cymryd rhan ynddynt yn wirfoddol.
2. A allwch chi gadarnhau os ydych chi'n hapus i gymryd rhan? Ie / Na
3. A fyddai'n well gennych gynnal y cyfweiliadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg?
Cymraeg/Saesneg [os ateboch Cymraeg, trefnwch gyfwelydd Cymraeg ar gyfer y cyfweiliad]
4. A fyddai'n well gennych gynnal y cyfweiliad mewn fformat arall? Ie (manylwch)/Na
5. Caniatâd ar gyfer recordio? A oes gennym eich caniatâd i recordio'r cyfweiliad?

Canllaw'r Cyfweiliad

Rhif Cwestiwn	Cwestiwn trafod	Cwestiynau ac awgrymiadau dilynol <i>Mae'r rhain i'w defnyddio os nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y cwestiwn trafod cyffredinol</i>
1.	Beth yw eich ymwneud â'r GCC?	• Awgrymiadau: dylunio, ymgeisio, hawlio, monitro a gwerthuso, rheoli prosiectau, arall
2.	A) Sut cafodd y GCC ei ddylunio a'i ddatblygu i ddechrau a beth oedd y rhesymeg sylfaenol dros ymyrraeth?	• Beth yw ei brif amcan? • Pa effaith y mae'n bwriadu ei chael? • Pam oedd angen y cynllun? • Pa gymorth oedd ei angen neu a gafodd ei gynnig o dan y cymorth grant cyfalaf (a yw'r holl gymorth ariannol, neu fynediad at y Gwasanaeth Cyngori ar Ffermio neu Cyswllt Ffermio hefyd wedi'i gyflwyno?)
